ECO'R WYDDFA

Rhif 76 Rhagfyr 1982 Pris 20c

MAE O'N LLAWN O HYSBYSEBION!

Ydi, mae o! Ond dyna'r traddodiad. Mae'r rhifyn hwn a'r un sy'n dilyn ymhen pythefnos, yn gyfle i fasnachwyr a siopwyr y fro i anfon eu cyfarchion atoch chwi, ein darllenwyr a'u cwsmeriaid. Maent yn diolch i chwi am eich cefnogaeth ac yn hyderu y byddwch yn parhau i'w cefnogi yn y flwyddyn newydd. Ein diolch ninnau iddynt hwythau am gefnogi yr ECO.

EISTEDDFODOL

MEDAL EURIG

Eurig Wyn o'r Waunfawr oedd enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen, Bethesda eleni. Testun y gystadleuaeth oedd ysgrifennu'r bennod gyntaf o ddrama gyfoes, addas ar gyfer S4C, ynghyd â chrynodeb o'r penodau dilynol. Dywedodd Dr Gwyn Thomas, y beirniad, fod sgript Eurig yn un "broffesiynol" a'i fod yn "dra theilwng" o'r fedal.

Nid oedd Eurig, sy'n swyddog maes yn y Cynllun Cynghori a Hybu Gwaith yng Ngogledd Cymru ac yn ddarlledwr rhan amser, yn bresennol yn y seremoni gyflwyno'r fedal . Roedd yn gweithio yng Nghaerdydd y diwrnod hwnnw. Aeth ffrind iddo yno i'w derbyn ar ei ran. Cyhoeddwyd y newydd am lwyddiant Eurig Wyn yn Eisteddfod Waunfawr a gynhaliwyd ar yr un noson ag Eisteddfod Dyffryn Ogwen — newydd a dderbyniwyd gyda llawenydd mawr gan ei gyd-bentrefwyr.

Ychwanegwn ninnau ein llongyfarchiadau gan obeithio y cawn weld ffrwyth ei lafur yn fuan ar ein setiau teledu.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI

Ein dymuniadau gorau i drigolion Deiniolen a'r Cylch am Eisteddfod lwyddiannus ddydd Sadwrn 4 Rhagfyr. Gobeithio y bydd Capel Ebeneser dan ei sang. Cofiwch fod dau gyfarfod, yn y pnawn yn dechrau am 1 o'r gloch a chyfarfod yr hwyr yn dechrau am 6. Pris mynediad: Plant, 10; Oedolion, 50c (30c i gyfarfod y pnawn).

FFUG EISTEDDFOD BRO'R ECO

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL LLANRUG
NOS WENER CHWEFROR 4, 1983

CYSTADLAETHAU SWNLLYD Y LLWYFAN

1. Grŵp yn meimio unrhyw record neu dâp.
2. Adrodd dan 5 oed.
3. Grŵp offerynnol. Unrhyw drefniant o 'Moliannwn'. (Yr offerynnau heb fod yn offerynnau cerdd)
4. Cystadleuaeth tafleisio gyda doli-bren-fyw neu ddoli-fyw-bren
5. Unrhyw act syrcas. Os defnyddir 'trapeze' rhaid gofalu am rwyd diolgelwch (Cystadleuwyr ac anifeiliaid i ofalu am ddarparu cwarant)
6. Perfformiad llwyfan o unrhyw hysbyseb gwreiddiol
7. Unawd neu ddeuawd mewn bath
8. 'Bale' yn seiliedig ar unrhyw raglen Gymraeg S4C

CYSTADLAETHAU BARDDONLLYD A LLETHOL

9. Llythyr Caru
10. Casgliad o ddeg o ddiarhebion Cymraeg, newydd sbon danlli
11. Limric yn cynnwys y gair 'dŵr'.
12. Cystadleuaeth y gadair, Cerdd ysgafn 'Y Sul Cymreig'

PWYSIG

Rhaid i'r cynnyrch ysgrifenedig fod yn llaw y Trefnydd – Miriam Hughes, Yr Allt Deg, Cwm-y-glo, Caernarfon erbyn dydd Sadwrn IONAWR 22. Os am wybodaeth pellach cysylltwch â'r Trefnydd (Llanberis 870416)

CWPAN ELLIW HAF

Elliw Haf Iwan, Penyberth, Waunfawr roddodd y perfformiad gorau am ganu'r piano yn Eisteddfod bentref Waunfawr yn ddiweddar. Enillodd y clod a'r cwpan — sef gwobr goffa Mrs Rear.

TLWS IDWAL

Idwal Williams, Disgwylfa, Llanrug gyda'r tlws a enillodd yng Ngŵyl Gerdd Dant Dyffryn Conwy am gyfansoddi dawns gwerin.

CADAIR CARYS



Dyma Carys Wyn Jones, o dŷ Elidir, ar ei ffordd i'r llwyfan yn ystod seremoni anrhydeddu prif lenor Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Ei stori hi am fachgen anabl ar y testun Breuddwydio a ddyfarnwyd yn orau mewn cystadleuaeth dda, gan y beirniad Mr Dewi Jones, Dyffryn Nantlle.

Mae Carys, sy'n ferch i Mr a Mrs Eurwyn Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis ar ei hail flwyddyn yn y chweched dosbarth ac yn astudio Cymraeg, Hanes ac Ysgrythur. Ei bwriad yw mynd i nyrsio ar ôl gadael yr ysgol. Ein llongyfarchiadau iddi, a phob llwyddiant i'r dyfodol.

(Mae un llun arall ar dudalen 12. Bwriadwn ddangos rhagor o luniau o'r Eisteddfod yn ein rhifyn nesa'.)

NEGES BWYSIG I OHEBWYR PENTREFI

Cofiwch fod rhifyn arall o'r Eco i ymddangos cyn y Nadolig (Rhagfyr 16). Bydd angen y deunydd i law ar 8 Rhagfyr, bum niwrnod ar ôl i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg!

ECO'R WYDDFA

RHIF 76
RHAGFYR 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
GOLYGYDD NEWYDDION: Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry, Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227)
GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 870550)
DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)
DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol (Llanberis 870220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
RHAGFYR 16
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH RHAGFYR 7
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

DIOLCH

Annwyl Syr,

Erfyniaf eich caniatâd i gyflwyno fy niolch diffuant i bawb anfonodd gardiau, llythyrau, anrhegion, llyfrau, a negesau ar y teleffon ar achlysur fy mhenblwydd yn 80 mlwydd yn ddiweddar, o bell ac agos.

Gyda phob gwyleidd-dra rwy'n diolch yn arbennig i'r Eglwysi y cefais y fraint o'u gwasanaethu yn ystod trigain mlynedd o'm bywyd ac am eu gwerthfawrogiad o'm gwasanaeth syml. Bwriadaf ddiolch eto yn bersonol i bob un ohonoch. Bendith arnoch.

Yn Gywir,
Mary Lloyd Williams (Mrs)
Llys Awen,
Llanrug,
Gwynedd.
Caernarfon 4474

DIOLCH I'R ATHRAWON

Annwyl Syr,

Carwn dalu teyrnged o ddiolchgarwch drwy Eco'r Wyddfa i'r prifathro ac i athrawon ysgol gynradd Llanrug am helpu Ryan Marcus Jones (4 oed) a'i frawd Wayne Mathew Jones (6 oed) o 15, Tal y Bont, Llanrug. Y rheswm am hyn yw mai dim ond Saesneg oeddynt yn ei siarad pan ddechreuodd y ddau yn yr ysgol.

Daeth Wayne yn ail allan o 42 o ymgeiswyr am ysgrifennu stori am 'Y Carnifal' i blant o 6 i 8 oed yn Eisteddfod Llanrug. Cafodd Ryan hefyd drydydd am ganu i rai rhwng 4 a 6 oed. Nid brolio y bechgyn ydwyf ond ceisio dangos fy niolchgarwch i athrawon ysgol gynradd Llanrug am ddysgu'r iaith Gymraeg mor dda i'r ddau. Diolch o galon iddynt i gyd.

Eu Taid,
T.S. Pritchard.
Golygfa,
Bryn Moelyn,
Llanrug.

Eisiau gwybodaeth am SIAN SEION

Annwyl Olygydd,

Ys gwn i a allwn i ofyn am help gan eich darllenwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw yn ardal Llanddeiniolen.

Darllenais gyda diddordeb yn amryw o'ch ôl rifynnau am gymeriad hynod o'r enw SIAN SEION o ardal Llanddeiniolen. Rwyf wedi ceisio ers blynyddoedd i gael hyd i'r llyfr sy'n rhoi hanes Sian, ond does gen i ddim gwybodaeth o'r teitl, cyhoeddwr na'r awdur; ac yn ogystal ceisiaf unrhyw wybodaeth arall am yr hen gymeriad.

Y rheswm am y diddordeb hwn gennyf yw fod SIAN SEION yn **hen, hen, hen, hen nain** i mi. Na, nid atal dweud sydd arnaf ond o dystiolaeth cerdyn c'nebrwn yn dyddio 1876 fel welir enw **Jane Williams** o Bryn, Capel Seion. Hon oedd mam John Williams a oedd yn dad i fy nain Jane Owen (o ochr fy mam). Ond ar y cerdyn hwn ynglŷn â marwolaeth Jane Williams mae'r nodyn: "Ac a gladdwyd ym medd ei Nain sef yr hen SIAN SEION". Felly dyma'r cysylltiad. Fe fuaswn yn falch o unrhyw help drwy lythyr neu ganiad ffôn ynglŷn â hyn.

Hefyd mae sôn yn y teulu mai o Landdeiniolen y tarddai teulu fy hen daid (o ochr fy nhad) "Dicw Parry" a drigai yn 4 Llain Wen Isaf, Llanberis. Byddai unrhyw wybodaeth am y "Parry's" hyn yn dderbyniol iawn yn ogystal.

Gyda diolch mawr am eich help drwy gyfrwng yr Eco.

Yn gywir,
Arfon Wyn ab Eurig
(Humphreys gynt)
Tysilio,
Maes yr Orsedd,
Bodffordd,
Môn.
Ffôn: Llangefni 723727

CAPEL HEBRON

Annwyl Olygydd,

Carwn ddiolch i Rol Williams, Waunfawr am ei lythyr yn tynnu sylw'r cyhoedd at gyflwr truenus Capel Hebron. Bûm yn ymweld â'r capel, (ar ôl darllen llythyr Rol), a chydsyniaf ag ef, os na wneir rhywbeth i atgyweirio'r adeilad yn fuan iawn, bydd y glaw a'r gwynt a thywydd garw'r gaeaf wedi ei ddifetha'n llwyr.

Bûm i fyny yn y Clegir rai wythnosau'n ôl, ac yn wir mae cyflwr Hen Gapel Bach y Clegir yn dorcalonnus. Mae'r muriau a'r to llechi yn gadarn iawn, ond y ffenestri sy'n fregus iawn. Mae'n amlwg i mi fod amryw o'r dieithriaid sy'n cerdded o bentref i bentref yn anelu am Gapel Clegir. Mae olion gwneud tân yno, olion cysgu, olion gwneud bwyd ac mae'r adeilad yn frith drafflith o hen geriach blêr a budr ac afiach.

Gresyn na fyddai'n bosibl cadw'r hen gapeli bach yma fu'n golofnau crefydd y gorffennol, er mwyn i'r cenedlaethau sydd i ddod eu gwerthfawrogi.

M. Bryn Hughes
Llanberis

Annwyl Syr,

Wedi darllen erthygl Rol ar Gapel Hebron ar lethrau'r Wyddfa, ni allaf lai na chefnogi ei apêl sef y dylid cymryd camrau ymlaen i gadw'r hen gapel rhag dadfeilio'n llwyr a "chadw i'r oesau a ddêl y glendid a fu".

Cefais fy magu yn un o'r capeli sydd erbyn hyn wedi cau — Capel y Fachwen, a loes i'm calon yw gweld "Capeli bach y Wlad" yn cau o un i un ac yn cael eu troi yn aml iawn i bwrpas hollol wahanol i'r hyn y'u codwyd gan ein cyn-deidiau. Nid oes gennyf rhyw lawer o wybodaeth am Gapel Hebron, heblaw yr hyn sydd yn llyfr William Hobley, ond clywais fy rhieni yn sôn amdano.

Mae gennyf gof bychan o weld golau yno ar nos Sul yn y gaeaf yn ôl yn y pedwar-degau a chofiaf mam yn dweud ar lawer nos Sul os byddai fy nhad yn hwyrach nag arfer yn dod adre ar ôl y moddion — "mae golau Capel Clegyr (oedd gyferbyn â'n tŷ ni) wedi ei ddiffodd ers meityn a wela'i ddim golau yn Hebron chwaith, mae o'n hwyrach nag arfer heno."

Oedd, roedd yr hen addoldai yn rhyw fath o "land-mark" yr adeg hynny a thrist yw eu gweld odid murddun yma ac acw — ond os yw'r golau wedi ei ddiffodd yn y lampau am y tro olaf, mae'n amlwg ei fod ynghyn yng nghalonnau y rhai a fagwyd yng nghesail "yr achos".

Enid Jones
Bryn Gelli,
Talysarn.

ACHUB Y BONT

Annwyl Syr,

Mae Pont Penllyn i aros ar agor. Dyna ddedfryd yr Ynadon y mis diwethaf ar ôl gwrando ar gais y Cyngor Sir i'w chau i drafnidiaeth a'r gwrthwynebiad eang ddaeth i'r cais.

Roedd yr ymateb i'r her i gadw'r bont yn anhygoel, sy'n dangos pa mor agos at galon trigolion yr ardal yw'r hen bont. Bu amryw o bobl yn weithgar yn casglu enwau ar gyfer y ddeiseb ym Mrynrefail, Cwmyglo, Y Fachwen a'r cylch a daeth llu o lythyrau i law.

Mae'n dyled yn fawr am yr arweiniad gaed gan y Cynghorwyr lleol a fuont, yn ddieithriad, yn frwd dros gadw'r bont yn agored.

Rydan ni sy'n byw yn ymyl y bont ac yn ei defnyddio yn gyson yn ddiolchgar am y diddordeb a gafodd ei ddangos gan ddarllenwyr yr ECO o bell ac agos.

Yn gywir,
Helen Roberts
Verna Jones
Penllyn.

DEWCH YN ÔL I'N HELPU

Annwyl Syr,

Byddaf yn cael llawer o bleser o ddarllen llythyrau yn Eco'r Wyddfa.

Mae ambell i lythyr gan blant y fro sydd wedi mynd i ardaloedd a gwledydd eraill i fyw. Mae tinc o hiraeth ynddynt yn enwedig pan fônt wedi bod am wyliau drosodd yma.

Maent yn edrych trwy wahanol lygaid:

Cofio Dinorwig a Fachwen yn y dyddiau gynt, a heddiw yn gweld baw ymhobman.

Do mi gariodd y Faenol yr aur o'r Elidir a gadael y baw i ni drigolion yr ardal i fyw ynddo.

Heddiw mae'r un peth yn ailadrodd ei hun — mae Cynllun Dŵr Dinorwig yn defnyddio dŵr o ddau lyn i gynhyrchu trydan. Maent hwy eto yn ymddangos yr un patrwm â'r Faenol — gadael y baw i drigolion fyw ynddo.

Gallaf eich sicrhau chwi blant sydd oddi cartref fod cyfran fechan o ardalwyr Dinorwig yn gweithio yn galed heddiw eto i gadw y pethau sydd werth eu cadw yn y fro.

Boddhad i mi yw eich gweld yn dod yn ôl ar wyliau a lleisio eich barn yn Eco'r Wyddfa.

Beth am fynd gam ymhellach a dod yn ôl i fyw yma a rhoddi help llaw i ni godi yr hen ardal yn ôl fel y byddai yn y dyddiau gynt.

Yn y cyfamser daliwch i sgwennu.

Yn gywir iawn,
Hugh Thomas
1 Bro Elidir,
Dinorwig.

"Dau fedd – un englyn" – Dau awdur

Annwyl Olygydd,

Mewn ateb i'r cwestiwn am Dau Fedd: Un Englyn, yn Eco'r Wyddfa, Hydref.

Mae'r englyn hwn ar garreg fedd Hugh Williams, Carregdwyffordd, Llanfechell a fu farw yn 1867; ac ym mynwent Pentrefoelas ar fedd Jane Jones, Hafoty, a gladdwyd 29 Mawrth, 1867 yn 31 oed. Rwyf wedi darllen am y manylion uchod beth amser yn ôl mewn llyfr. Ond nid oes sôn am awdur.

Ydwyf yn gywir,
Olwen Jones (Mrs)
Penygroes Arthur,
Llanfechell,
Amlwch,
Ynys Môn.

Mynwent Eglwys Llanddeiniolen

Gwyddfa
Catherine, gwraig John Roberts Fron Chwith, a ymadawodd o'r byd hwn ar yr 31 o Fai 1825 yn 54 mlwydd oed

Nid penyd clefyd a'm cloes – nid ingol
Nod angau dolurloes,
Na henaint aeth â'm heinioes
Dyn a fu yn dwyn fy oes.

WAUNFAWR

PLAID CYMRU – Ffair Nadolig y Blaid, gyda Siôn Corn, a stondinau, yn Neuadd yr Eglwys 6.30, nos Wener, Rhagfyr 10. Noson gymdeithasol i ddilyn ym Muriau Park. Enwau (ar frys) i Dafydd Iwan.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Tachwedd 4 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y mis diwethaf a'u trafod. Cynhelir y parti Nadolig ym Mryn Gloch Betws Garmon nos Fawrth Rhagfyr 7 am 7.30.

Cafwyd adroddiad o Gyfarfod Cyngor yr Hydref a gynhaliwyd ym Methesda yn ddiweddar, gan Mrs Morfa Evans. Darllenwyd adroddiad y trysorydd gan Mrs Buddug Rowlands ac adroddiad y Pwyllgor gan Mrs Katie Wynn Jones. Rhoddodd Mrs C.A. Jones ei haraith wedyn, trosglwyddodd yr awennau i Mrs Lilian Pritchard, y trefnydd gwirfoddol am y gweddill o'r cyfarfod.

Diolchodd Mrs Mattram iddi ac i'r pwyllgor am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y pwyllgor am y flwyddyn nesaf yw: Mrs C.A. Jones, llywydd; Mrs Katie Wynn Jones, ysgrifennydd; Mrs Buddug Rowlands, trysorydd; Mrs Betty Griffith, Mrs Bet Hughes, Mrs Gwen Jones, Mrs Peggy Jones, Mrs Misson, Mrs Pat Parry.

Rhoddwyd y blodau ar fwrdd y llywydd gan Mrs Mottram a Miss M. Roberts a enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs Buddug Rowlands. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau Rhagfyr 2 pryd y rhoddir sgwrs gyda sleidiau gan Mrs Eileen Jackson, Plas y Deri, Caernarfon. Bydd croeso cynnes i ymwelwyr i'r cyfarfod.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR – Dyma restr o enillwyr y clwb 300 am fis Hydref a dynnwyd mewn cyngerdd wedi ei drefnu gan Merched y Wawr Hydref 28. 1af – £40 – Mrs Maureen Griffith, Bryn Eilian; 2il – £25 – Mr Keith Owen, Tŷ Capel; 3ydd – £10 – Edna Reed, 12 Gwyrfai Terrace.

YR URDD – Ar waetha'r tywydd gwlyb a gawsom yn ddiweddar, cafwyd noson tân gwyllt lwyddiannus iawn, gyda thri Guto Ffowc yn cael eu llosgi ar goelcerth oedd yn fwy nag erioed eleni, diolch i rai o'r plant.

Nos Fercher, Tachwedd 17 cafwyd noson o gemau, ac yna ar y nos Wener ganlynol gwahoddwyd yr aelodau i Fethel i gwrdd â'r adran bentref sydd yno, ac i gystadlu yn eu herbyn mewn cwis. Y Waunfawr a orfu – y noson honno beth bynnag! Daw dial mae'n siŵr. Diolch yn fawr i Fethel am eu croeso.

Eleni eto, fel y llynedd, bydd Elfed, y trefnydd, yn dod â'i ddisgo i'r Urdd erbyn y parti Nadolig ar Ragfyr 15.

Y GANOLFAN – Raffl – Mae'r pwyllgor am ddiolch i'r canlynol am fod mor garedig â chyflwyno gwobrau ar gyfer raffl Nadolig y Ganolfan: John Ellis, Stermat; Mrs J. Austin Jones; Mr a Mrs T.A Thomas; Modurdy Gwalia, Caeathro; Humphrey Roberts, Rhos Goch; Edgar Owen, Lloches, Gwilym Williams, Bod Hyfryd; Dr H. Roberts; Mrs Pat Parry, Ffridd Felan; Don Roberts, Sŵn y Gwynt; Bob Eaglestone ac Eurig Wyn.

DONIAU BRO – Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco soniwyd am y bwriad i drefnu cyngerdd gydag enillwyr yr eisteddfod yn cymryd rhan. Bu'n rhaid newid y dyddiad, ac yn awr, fe gynhelir y cyngerdd nos lau, Rhagfyr 16 am 7.30 yn Neuadd yr Eglwys. Mynediad 30c i oedolion a 15c i blant.

EISTEDDFOD ARDAL Y WAUNFAWR – Cynhaliwyd yr eisteddfod ddydd Sadwrn, Tachwedd 13 yng Nghapel Croesywaun. Y beirniaid oedd – Cerdd: Mrs Mair Hughes; Adrodd, Llên a Llinell Goll: Mr Derfel Griffith; Gwyddor Tŷ: Mrs Antoinette Hughes; Arlunio: Mrs Cadi Thomas; Gwaith Coed: Mr T.A. Thomas. Diolch hefyd i Mrs Ilid Jones a Miss Eleri Roberts am lywyddu ac i Mrs Ann Marston a Mr Brian Williams am gyfeilio; Mrs Irene Roberts a Mr Don Roberts, Mr Iolo Huws Roberts a Mr Dafydd Iwan am arwain y cyfarfodydd a Mrs Jenny Jones am helpu gyda'r plant ieuengaf, ac i bawb am yr holl waith a wnaethpwyd tuag at wneud yr eisteddfod hon yn llwyddiannus.

Hoffai'r pentrefwyr ddiolch yn fawr iawn i Mrs Meira Turner, Collfryn am ei gwaith arbennig hithau, fel ysgrifenyddes yr Eisteddfod.

Dyma'r canlyniadau:

CANU: Dan 5: 1. Huw Gwilym, 2. Gerallt Jones, 3. Gavin Owen, Llio Mair; Manon Evans. **5-7:** Anwen Jones, 2. Elin Gwilym, Meilir Gwynedd, 3. Delyth Jones, Ceirion Williams. **7-9:** 1. Rhys Siôn, 2. Bethan Wyn, 3. Osian Gwynedd. **9-11:** 1. Karen Roberts, 2. Euros Wyn, 3. Gwennan Jones.

ADRODD: Dan 5: 1. Gavin Owen, 2. Gerallt Jones, 3. Huw Gwilym, Llion Jones, Manon Evans. **5-7:** 1. Elin Gwilym, 2. Delyth Jones, 3. Meilir Gwynedd. **7-9:** 1. Rhys Sion, 2. Ella Wyn Jones, 3. Neil Owen ac Osian Gwynedd. **9-11:** 1. Gwennan Jones, 2. Euros Wyn, 3. Garum Jackson.

Cân Actol: Dan 9: 1. Y Gweithwyr, 2. Parti'r Ysgol Feithrin ac Arch Noa.

GWAITH LLAW: Dau Ddosb. babanod: 1. Ceirion Williams, 2. Louise Griffiths, 3. Bethan Roberts. **Dosb 1 a 2:** 1. Rhys Sion, 2. Suzanne Jacobs, 3. Susan Grundy. **Dosb 3 a 4:** 1. Felicity Duncan, 2. Gareth Rhys Jones, 3. Gwyndaf Francis Williams.

ARLUNIO: Plant Meithrin: 1. Ffion Edwards, Gwenno Owen, Gerallt Jones, **2, Dosb Babanod:** 1. Jaime Basterfield, 2. Rachel Davies a Sara Williams, 3. Simon Twigg, Meilir Gwynedd, Thea Macdonald, Geraldine Henderson, Elin Gwilym ac Iona Williams. **Dosb. 1 a 2:** 1. Sam Pierce, 2. Suzanne Grundy, 3. Gareth James Davies a Gerallt Williams. **Dosb 3 a 4:** 1. Telor Iwan, 2. Felicity Duncan, 3. David Jacobs.

LLÊN: Dosb 1 a 2: 1. Rhys Sion, 2. Nia Ll. Jones ac Ella Wyn Jones, 3. Bethan Wyn ac Osian Gwynedd. **Dosb 3 a 4:** 1. Karen Roberts, 2. Euros Wyn, 3. Garum Jackson a Sian Ll. Jones.

Parti Unsain: Dan 9: Parti Meilir, 2. Parti Ceirion. **Dan 12:** 1. Parti Gwennan.

Parti Recorders: Dan 9: 1. Parti Ffion. **Dan 12:** 1. Parti Euros.

Canu Piano dan 9: 1. Osian Gwynedd. **Dan 12:** 1. Ellyw Iwan, 2. Nan Wyn Jones, 3. Karen Roberts. **Dan 15:** 1. Iwan Ellis, 2. Joanna Marston, 3. Huw Ynys Jones.

Côr Adrodd dan 9: 1. Parti Meilir, 2. Parti Ceirion. **9-12:** 1. Parti Bod Hyfryd, 2. Parti Auntie Margaret.

CANU: 11-13: 1. Nan Wyn Jones, 2. Sandra Jones, 3. Sian Ll. Jones. 13-15: 1. Huw Ynyr Jones, 2. Llion Iwan.

ADRODD: 11-13: 1. Nan Wyn Jones, 2. Sian Ll. Jones. **13-15:** 1. Huw Ynyr Jones, 2. Llion Iwan. **15-18:** 1. Gwyneth Ellis, 2. Ceri Thomas. **Dros 25 i'r Dysgwyr:** 1. Mrs Jeanette Burdon. **Dros 25:** Mrs Myra C. Turner, 2. Mrs Alma Jones.

Cân Werin: Dan 18: Huw Ynyr Jones. **Dros 18:** 1. Mr Alun Williams, 2. Mr Bob Eaglestone. **Cerdd Dant dan 18:** 1. Ellyw Iwan. **Parti Deulais dan 18:** 1. Parti Sandra. **Deuawd dan 18:** 1. Sandra Jones ac Ellyw Iwan, 2. Sian Ll. Jones a Karen Roberts, 3. Sian Rowlands a Wayne Owen. **Deuawd Agored:** 1. Mrs Ann Marston a Mrs Jeannette Burdon. **Unawd Offeryn Cerdd dan 18:** 1. Anthony Marston a Joanna Marston; 2. Llion Iwan a Gwyn Thomas; 3. Kevin Tame. **Emyn dros 50:** 1. Mr Alun Williams.

Darllen o lyfr dan 16: 1. Llion Iwan, 2. Sian Ll. Jones ac Iwan Ellis, 3. Huw Ynyr Jones. **Darn heb ei atalnodi dros 25:** 1. Mrs Alma Jones, 2. Mrs Margaret Owen a Mr Gareth Jones, 3. Mr Norman Williams. **Sgetch:** Parti Norman. **Côr Adrodd dros 18:** 1. Parti Pant Teg; 2. Parti'r Wylan, 3. Parti'r Frenni. **Unawd dros 25:** 1. Mr Alun Williams. **Grŵp Pop:** 1. Y Pensiynwyr, 2. Y Merched Hudolus. **Côr:** 1. Côr Wyn, 2. Côr Ni. **Barddoniaeth dan 15:** 1. Gethin Williams. **Agored:** 1. Mrs Rhian Ellis, 2. Mr Eurig Wyn, 3. Mrs J. Austin Jones. **Llythyr:** 1. Mrs Gweneirus Jones. **Stori i'r Dysgwyr:** 1. Mrs Margaret Eaglestone. **Llên 13-15:** 1. Llion Iwan. **Stori Fer:** 1. Mrs Rhian Ellis a Mrs Sylvia P. Jones. **Llinell Goll:** 1. Mrs Rhian Ellis.

Arlunio 11-15: 1. Gwyn Thomas, 2. Jonathan Davies, 3. Kevin Roberts a Joanna Marston. **Agored:** 1. Mrs Joyce Benham, 2. Mrs Joyce Benham, 3. Mr Gwilym Hughes.

Coginio 15-18: 1. Gwyneth Ellis, 2. Bethan Williams. **Agored:** 1. Mrs Llinos Cadwaladr, 2. Mrs Irene Roberts, 3. Mrs Beryl Ll. Jones. **Agored: Gwnio Sgert:** Mrs Katie Wyn Jones. **Agored Gwnio Ffrog:** Mrs Katie Wyn Jones, 2. Mrs Beryl Ll. Jones, 3. Mrs Katie Wyn Jones. **Crosio:** 1. Mrs Katie Wyn Jones, 2. Mrs Katie Wyn Jones. **Gwau Cap a Sgarff:** 1. Mrs Katie Wyn Jones, 2. Mrs Beryl Ll. Jones. **Gwau Menyg:** 1. Mrs Greta Hughes, 2. Mrs Beryl Ll. Jones, 3. Mrs Beryl Ll. Jones. **Gwaith Coed:** Mr Eric Jones.

Gwobr Goffa Mrs Rear am ganu'r piano, enillwyd y gwpan gan **Ellyw Iwan.**

Rhai o enillwyr ieuanc Eisteddfod y Waun.

Pwy sy'n barod i drefnu'r parcio?

Ar hyn o bryd, y mae'r gwaith caletaf a'r mwyaf buddiol yn Eisteddfod Genedlaethol 1983, a gynhelir yn Llangefni, yn cael ei gynnig i unrhyw griw lleol, fudiad neu gymdeithas sy'n meddu'r gallu i drefnu a gweithio'n gyflym ac yn effeithiol.

Mae trefnwyr yr Eisteddfod yn barod i ryddhau cytundeb swyddogol am ofalu am yu meysydd parcio, ac maent yn gwahodd ceisiadau gan bobl o'r fath. Cwblheir yr orchwyl (ddi-ddiolch yn aml!) o gyfarwyddo miloedd o gerbydau i'w priod leoedd ar yr amrywiol feysydd parcio gan bobl hwyliog, ymroddgar sy'n caru'r Eisteddfod ac sy'n barod i dreulio'r rhan helaethaf o'r wythnos gae neu ddau oddi wrth yr Eisteddfod ei hun. Eto, ni fu prinder cynigion am y swydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a dywed Trefnydd yr Eisteddfod yn y Gogledd, Mr Osian Wyn Jones, ei fod yn barod i drafod y gwaith a'i oblygiadau gydag unrhyw griw sydd am gael ei ystyried.

Pwysleisia ei bob yn hanfodol fod yr holl ymgeiswyr yn sicr y gallant ymgodymu â'r dasg pan ddaw'r amser.

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£1.00 – Mrs E.M. Jones, 20 Maes Padarn, Llanberis; Mr R.W. Jones, 7 Maes Eilian, Dinorwig.

£2.00 – Mr a Mrs A.W. Rowlands, 17 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs M. Thomas, 7 Vaynol Terrace, Deiniolen; Mrs A.M. Morris, 4 Marian Terrace, Deiniolen; Mrs H.J. Jones, 7 Tremeilian, Brynrefail; Di-enw, Caerdydd; Mrs M. Hughes, Plas Pengwaith, Llanberis; Mrs Susan Morris, Llanberis; Teulu Blaen Parc, Bethel.

£3.00 – Mrs A. Wilson Jones, Stryd y Ffynnon, Llanberis.

£5.00 – Mr a Mrs E.J. Owen, Falmouth, Cernyw; Mr a Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.

YN EISIAU

Gofalwr i Eglwys Annibynnol Bethel. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fyw yn y tŷ capel (ysgoldy). Telerau a manylion pellach oddi wrth Emyr Wyn Jones, Wenallt, Bethel, Caernarfon.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO

BRYSIWCH I GAEL EICH

Teganau

YN SIOP

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491

20% oddi ar holl bethau CINDY

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i bawb
oddi wrth

Tŷ Bwyta

STRYD FAWR

Llanberis

Ffôn: Llanberis 871487

BWYD DA AM
BRIS RHESYMOL

CYFARCHION Y TYMOR

oddi wrth

IDWAL THOMAS
SIOP ESGIDIAU
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871282

Am Nadolig Llawen
Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS Ffôn 870391

Cyfarchion y tymor oddi wrth Mr a Mrs A. W. Hughes a'r Staff a phob dymuniad da am 1983

Dymuna
Mervyn,
Jill a Helen Jones

CASTLE GIFT SHOP
LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid. Diolch ichi am eich cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf yn y siop.

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

CELTIC HOUSE
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871388

ANRHEGION NADOLIG A WNAED YN LLEOL, YN CYNNWYS TEGANAU MEDDAL HYFRYD I'R PLANT AM BRISIAU RHAD

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Vera, Haydn a John
SIOP CHIPS
SNOWDON VALLEY
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

ARFON A DILYS PHILLIPS

Dorothy's

SIOP 'DAFEDD
A DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR **Llanberis** Ffôn: 870772

SIOP GOED

STRYD FAWR

LLANBERIS



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
AM 1983
oddi wrth
W. J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn 870225

A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

ROBERT GARTSIDE B.Sc.,M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY, MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau AGFA, KODAK, a FUJI

Dewis da o winoedd a gwirodydd

Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau £3.79 ar gyfer pob maint + ffilm rad ac am ddim

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**



**CROCHENDY
LLANBERIS**

Ffôn: 870700

Ar agor tan y Nadolig, a thrwy drefniant ffôn wedi hynny

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i bawb oddi wrth

Bessie Jones

Siop Caxton

STRYD FAWR
LLANBERIS

ROYAL VICTORIA HOTEL
GWESTY BRENHINOL VICTORIA
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

***WESTY
BRENHINOL
VICTORIA
LLANBERIS***

FFÔN: LLANBERIS 870253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SIOP ATGYWEIRIO TRYDANOL

**JORDAN
LLANBERIS**

Ffôn: Caernarfon 3581

* Trwsio a gwerthu peiriannau golchi
* Llogi Bws Mini

Gweithdy Crefftau

odyn copr

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn
Llanberis
871366

Ar gyfer anrheg Nadolig **lleol** *eleni*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
Wil a Garvin

TOM JONES

A'R CWMNI

STORFA GIG
GLAN PADARN
LLANBERIS
Ffôn: 870319

Mwy o gyfarchion

NADOLIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid oddi wrth

DORIS ac ELIZABETH

D & E Dinorwig House
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 300

Ar gyfer eich anrhegion Nadolig. Sanau. Dillad gwau i blant a merched. Nwyddau Ffansi. Cardiau Nadolig – dwsin am 25c.

Papur lapio Nadolig am ddim gyda phob archeb dros £5.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll! oddi wrth

Gwenda ac Arthur Rudkin, Lisa, Hannah, Angharad, Siwan a Llywelyn

The Tea Shop - Llanberis

Dymuniadau gorau am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd
oddi wrth

Pam a Bob Lewis

Y WARWS

STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 872485

Anrhegion Nadolig ar gyfer pawb o'r teulu – dillad – teganau – melysion paced – recordiau a llawer mwy

SIOP FWYAF Y PENTREF

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

W.L. Davies

LLWYN CELYN BACH
LLANBERIS
Ffôn: 872382

* Clirio safleoedd efo JCB a lorri am bris rhesymol
* Llogi Peiriannau
* Tarmacio
* Ffoniwch i gael pris yn rhad ac am ddim

LLANBERIS

Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Ffôn: LLANBERIS 870597

Nid dim ond siop i ddringwyr ydi siop Joe Brown

Dewch, er enghraifft, i weld y dewis gwych o gotiau 'quilted' i'w gwisgo bob dydd.

Mae'r prisiau cyn rhated â neb yn y cylch ac mi wnaent anrhegion Nadolig delfrydol.

Cofiwch –
I ddringwyr a llawer mwy!

joe brown
CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

Ffôn: LLANBERIS 870327

Hefyd yng NGHAPEL CURIG (tu cefn y Post)
069 04 205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r Cylch oddi wrth

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS.
Ffôn: 870202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mr a Mrs W. JONES, GWEN ac ALWENA

Padarn Stores
LLANBERIS
Llanberis 870496
BARGEINION
Mace

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO LLWYTHI YSGAFN CLIRIO SAFLEOEDD, DANFON TYWOD, GRO A DEFNYDDIAU ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 872285 neu 871327

Cyfarchion y Tymor i chwi oll

G. Ll. Jones
ENGINEERING

GROVE HOUSE, LLANBERIS ☎ 870322
(G.L., H.L. & E.L. Jones)

* Gwneud a gosod celfi caeau chwarae
* Cysgodfannau dal bws
* Ring Rolling
* Torri a Phlygu dur
* Grisiau Dianc
* Unrhyw waith dur yn unol â'r darlun



Nadolig Llawen lawn i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gill a John

TONI'S

FISH BAR & CAFE

STRYD FAWR

LLANBERIS 870425

Dewis helaeth o brydau wedi eu coginio'n arbennig

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
MARTIN & CAROL

PRINCE OF WALES LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 870708

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–

Nos Fercher a Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r organ

Nos Wener
Country & Western

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

oddi wrth

THOMAS PRITCHARD *IRONMONGER*

(D.A. LEWIS)

BIRMINGHAM HOUSE

LLANBERIS

Ffôn: 870206

New Image
—HAIR DESIGN—

STRYD FAWR
LLANBERIS
870627

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CABS PADARN

FFÔN: LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsi a Bws Mini
Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd
Unrhyw bellter : Hur Gontract

Dymuna Dafydd a Myra Price, a'r holl yrrwyr
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Cofiwch y Nadolig hwn: CAR AC YFED – COLLI TRWYDDED
CABIAU NI – HWYL A SBRI!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

Y Bistro

45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES

a'r MEIBION

Ffôn: 870444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

MYRA'S

44A STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 872361

Dymuna Mr a Mrs Starkey, Nigel ac Alicia Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cwsmeriaid, hen a newydd

CARDIAU, ANRHEGION, MELYSION, SIGARETS, HUFEN IA, NWYDDAU LLEDR

DYMUNA

CLEDWYN A BETTY PARRY

GLAN Y DON

STRYD FAWR

LLANBERIS

870301

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'w
ffrindiau a chwsmeriaid oll

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth

PETE'S EATS

44A STRYD FAWR

LLANBERIS

AR AGOR 9 – 6.30 LLUN-GWENER
8 – 8 SADWRN A SUL TAN Y PASG

LLANBERIS

CYNGERDD – Yng Nghapel Coch Tachwedd 3 cynhaliwyd cyngerdd dan arweiniad Mr Arwel Jones, Llanrug. Yr artistiaid oedd Elinor Bennett gyda'r delyn, Robert Wyn Roberts, Bontnewydd (y bariton) a'r Grŵp Gwerin 'Gwlith'. Y cyfeilydd oedd Mrs Ann Pritchard, Stryd Newton.

CARTREF PEN GWAITH – Ar y Sul cyntaf o Dachwedd aeth plant Ysgol Sul Nant Padarn gyda'u hathrawon i Gartre'r Henoed Pengwaith i gynnal gwasanaeth o ddiolch. Cyflwynwyd eu hanrhegion diolchgarwch i'r cartref y Sul cynt. Cafodd yr oll o deulu'r cartref fwynhad mawr wrth glywed y plant ifanc yma yn canu mor swynol dan arweiniad Mr Aled Owen. Diolchwyd iddynt gan swyddogion y cartref.

PWYLLGOR YR ARENNAU – Nos lau, Hydref 28 cyfarfu Pwyllgor Lleol yr Arennau dan lywyddiaeth Sian Thomas, Tŷ'r Ysgol. Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd adroddiad ariannol iach iawn gan y trysorydd Mrs Eiddwen Thomas, Stryd y Dŵr.

Derbyniwyd siec am £458.00 oddi wrth Mr Boulton, Glyn Protective Clothing – arian a godwyd gan y merched drwy gymryd rhan mewn taith gerdded. Mawr yw diolch y pwyllgor i bawb a fu'n cymryd rhan yn yr ymdrech yma. Hefyd trosglwyddwyd siec am £289.51 i Gronfa'r Arennau o Glwb Cynilo a ddechreuwyd gan ferched yr ardal amser y Rhyfel ddiwethaf yng Nglandŵr.

Ond nid symiau mawr yn unig a dderbyniwyd gan y pwyllgor. Yn ystod y nosweithiau cyn noson y Tân Gwyllt aeth Einir Thomas, Stryd y Dŵr, Cai a Marc Lloyd Williams, Stryd Newton a Llion Hughes, Stryd Thomas oddi amgylch y tai i hel arian a chasglwyd £3.50. Daeth y pedwar yn llawn brwdfrydedd a chyflwyno'r arian i Gronfa'r Arennau. Diolchodd y Llywydd, yn ddiffuant iawn i'r plant, am eu cyfraniad gwerthfawr iawn. Yn ystod y flwyddyn mae'r pwyllgor wedi trosglwyddo £1000.00 i Mr Robert Fells, Director, Renal Transplant Unit, The Royal Liverpool Hospital.

Derbyniodd Mrs Sian Thomas lythyr helaeth iawn gan y gŵr yma yn cyfleu ei ddiolchgarwch i bawb am yr ymdrech maent wedi ei wneud i godi'r arian at achos mor deilwng.

WYTHNOS YR HENOED – Aeth Wythnos yr Henoed heibio yn ddi-sylw iawn eto eleni, ac mae amryw yn tybio na wneir sylw arbennig o'r henoed yn ystod yr wythnos yma. Mae'r syniad yma yn anghywir iawn, a da fyddai i bawb wybod fod **pob** aelod o Glwb yr Henoed yn cael eu cofio gan y pwyllgor. Cynigwyd gan rai o'r pwyllgor i drefnu cyngerdd neu swper yn un o westai'r ardal i'r aelodau i ddathlu'r wythnos arbennig. Ar ôl hir ymdrin â'r cynigion daethpwyd i'r casgliad mai'r aelodau holliach fyddai'n mwynhau'r trefniadau yma, ac er bod yn deg â'r 212 o aelodau, rhai iach a'r rhai afiach gwell fyddai cyflwyno rhodd sylweddol o arian i bob un. Ac felly mae hi wedi bod ers dwy flynedd neu dair – pawb yn cael ei gofio a phawb yn ddiolchgar iawn.

Yn y 'Te Bach' a gynhelir ddwywaith y mis, diolchodd Mr W.P. Williams, Stryd Bethesda i'r Pwyllgor am eu haelioni, a chyfeiriodd at y golled fawr a gafodd y Pwyllgor a'r henoed ym marwolaeth y Parch Ganon Alun Jones, a fu'n llywydd y pwyllgor am 30 mlynedd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS – Agorwyd Cymdeithas Lenyddol yr Ardal yng Nghapel Coch gyda darlith ddifyr iawn ar Ryddiaith gan Mr Leslie Williams, Gaerwen, Môn. Diolchwyd iddo gan Mr Vernon Hughes, Beech Bank.

Mwynhawyd yr ail gyfarfod yng nghwmni Mr R.H. Parry o Gaernarfon. Roedd yn ddifyr iawn gyda'i hanes yn ardal Cwm-y-glo lle y magwyd ef. Diolchwyd iddo gan Mr Vernon Hughes. I ymaelodi â'r Gymdeithas gellir cysylltu â'r ysgrifenyddion Mrs Doris Hughes, Beech Ban a Mrs Iola Sellers, Hafan.

CYDYMDEIMLAD – Yn nhref Crawley ger Llundain bu farw Gerald Williams, un o feibion Mr a Mrs Gwilym Williams, (Gwilym Glan Llyn fel yr adwaenid ef gan y trigolion). Bu Gerald yn gwasanaethu gyda'r llynges am flynyddoedd ond torrodd ei iechyd a bu'n dioddef gwaeledd blin iawn am flynyddoedd lawer. Estynnir cydymdeimlad â'i frodyr – Phil Williams, sydd yn byw yng Nghorby a Gwilym Williams sydd yn byw ers blynyddoedd yng Nghanada. Mae Mrs Junia Wheldon Jones, 17 Stryd Goodman, (sydd 'nawr yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon) yn fodryb iddo.

CYFARFOD YMOLLWNG GWEINIDOG – Nos Sul, Hydref 31 yng Nghapel Coch trefnwyd Cyfarfod Ymollwng y Parch Marcus Robinson, B.D., R.N. Llywyddwyd gan Mr Hughes o'r Felinheli, Cyn-lywydd Henaduriaeth Arfon. Ar ran yr ofalaeth cafwyd anerchiad gan Mr G.S. Jones o Rehoboth, Nant Peris ac ar ran Capel Coch Mr Hugh Peris Pritchard roddodd fraslun o'r gwasanaeth a wnaeth y Parch Marcus Robinson nid yn unig yn yr eglwys ond tu allan gydag aelodau o eglwysi eraill ac unrhyw un a geisiai ei gyngor neu gymorth neu loches. Dymunodd iddo bob llwyddiant yn ei waith newydd, ond oedd yn waith Cristnogol ar ddull gwahanol. Cyflwynwyd siec i'r Parch Marcus Robinson ar ran aelodau Rehoboth gan Mr G.P. Jones ac ar ran Capel Coch gan Mr Hugh Peris Pritchard.

Diolchodd y gweinidog i bawb am eu cefnogaeth yn ystod yr amser byr y bu'n eu plith, a dywedodd y byddai ganddo atgofion melys iawn i gofio am yr ardal. Cyflwynodd Mr Ian H. Jones, un o flaenoriaid Capel Coch weddi daer a diffuant iawn ar ran y gweinidog.

CLWB ERYRI – Dechreuodd Clwb Eryri ar ei raglen flynyddol yng Ngwesty Gwynedd yn ystod y mis. Agorwyd gydag araith ddifyr ac addysgiadol gan Emlyn Davies un o blant yr ardal, dan lywyddiaeth Mr Stanley Owen. Yr ail gyfarfod a lywyddwyd gan Mr Iolo Huws Roberts a darlithwyd gan Mr John Roberts-Williams o Lanrug, cymeriad sydd yn adnabyddus iawn gan bawb ohonom sydd yn gwrando ar y radio.

ANRHEGU – Cyn dod i fyw i'r ardal hon roedd Mr W.J. Roberts a'i briod wedi cartrefu yn Chwilog. Bu'r ddau yn gweithio'n ffyddlon iawn gyda phob achos da yn yr ardal honno. Maent wedi gadael ers rhai blynyddoedd bellach ac yn byw yn 3 Plastirion Bynglos, ond wedi i rai blynyddoedd fynd heibio mae cyfeillion Chwilog yn cofio o hyd am eu gweithgarwch, ac un noson gwahoddwyd Mr a Mrs Roberts i Westy Dolbadarn i gyflwyno anrheg i Mr Roberts am ei waith di-flino gyda Phwyllgor y Cae Chwarae a'r Carnifal yn Chwilog. Diolchodd Mr Roberts i'r cyfeillion a chyhoeddodd y mwynhad mawr a gafodd yn gweithio i'r achosion hyn. Nid yw iechyd Mrs Roberts wedi bod ogystal ac y gallai fod. Dymunir iddi hithau wellhad llwyr yn fuan iawn.

CÔR MARTIN – Yn y lle cyntaf, carwn ddiolch i Mrs N. Hughes, Erw Fair, Deiniolen am anfon y llun o Gôr Martin Owen i'r Eco, ac mae'n bleser mawr gennyf roddi hynny o wybodaeth a fedraf am y llun. Mae'r gwpan hardd gennyf yn y parlwr, ac mae'r llun a anfonwyd i Eco'r Wyddfa yn fy meddiant hefyd, rwyf yn meddwl y byd o'r cyfan.



Einir, Llion Cai a Marc a fu'n frwdfrydig yn casglu arian ar gyfer Cronfa'r Arennau.

Yn y flwyddyn 1935 y tynnwyd y llun ar ôl Eisteddfod Gadeiriol Cefn y Waun, lle y daethant yn fuddugoliaethus. Byddai dau gôr yn y chwarel yr adeg honno, Côr Jack Malan a Chôr Martin neu "Gôr Pen y Garrett" fel y galwent y côr. Roedd gelyniaeth mawr rhwng y ddau gôr, ac er ymarfer oriau cinio yn y chwarel byddai ymarfer nos Fawrth a nos Wener yn yr ysgol. Rwyf yn cofio noson yr Eisteddfod Cefn y Waen pryd yr enillwyd y cwpan. Noson oer a glaw difrifol – ond ni chadwodd y glaw fi o'r eisteddfod – cawsom "gar bach lleol" – (tacsi fyddech yn ei alw heddiw) i fynd i Ddeiniolen. Ar ôl y fuddugoliaeth yma bu'r côr yn cynnal cyngherddau – a chofiaf yn dda am un – Cyngerdd Mawreddog yn Llithfaen – Jack Griffith oedd y cyfeilydd a'r diweddar Griffith Thomas, y Fachwen oedd yr unawdydd.

Ymhen blynyddoedd ymunodd Côr Martin â Chôr Jack Malan a daeth Peleg Williams o Gaernarfon yn arweinydd a'r noson practis yn Festri Capel Disgwylfa.

Ni chredaf fod 'na fwy na tri o'r côr gwreiddiol yn fyw heddiw, Bob Hughes, sydd yn byw yn Stryd Siarlot a Jack Griffith y cyfeilydd. Anfonaf y cyfan a gofiaf – Annie Owen (gweddw Martin Owen), Gwynfryn Stryd Newton, Llanberis.

CLWB Y MAMAU IFAINC – Yn ystod y mis yn y Ganolfan mwynhawyd sgwrs ddifyr iawn gan Mr H.R. Jones, ar ei waith tra'n y Gilfach Ddu a diolchwyd iddo ar ran aelodau'r clwb gan y llywydd, Mrs John Rhys Owen.

GARTRE – Ar ôl ysbaid yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth mae'r ardalwyr yma wedi dychwelyd gartref at eu teulu – a gwir hyderwn y cânt wellhad llwyr yn fuan iawn – Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan, Mrs Margaret Roberts, Maes Padarn.

DIOLCH – Dymuna Wendy, merch hynaf Maud ac Alan Jones, Stryd y Dŵr ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthi tra y bu'n yr ysbyty ym Mangor.

I'R COLEG – Rai dyddiau'n ôl dechreuodd Amanda Ruth, merch Jennifer a Cecil Parry, Fronheulog ar ei gyrfa ym Mangor yn y School of Nursing, Ysbyty Dewi Sant. Cafodd ganlyniadau ardderchog yn arholiad Lefel A, ac mae ei bryd wedi bod ar yrfa gyda nyrsio a gwaith ysbyty. Dymunir iddi bob llwyddiant yn y gwaith anrhydeddus ymw.

ADRAN DYFFRYN PERIS CND – Nos lau, Tachwedd 11 dechreuodd Adran Peris ar waith y tymor gyda Noson Goffi yn y Ganolfan. Bwriedir cynnal gweithgareddau bob yn ail wythnos er creu diddordeb ymysg yr ifanc yn yr ardal. Swyddogion newydd Adran Dyffryn Peris am eleni yw – Cadeirydd: Mrs Jo Thomas, Mur Mawr, Ysgrifennydd, Mr Tom Pollock, Stryd Newton a Mr Terry Parry, Trysorydd, Mr Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug.

YN YR YSBYTY – Mae Mrs Jane Williams, Stryd-y-dŵr yn Ysbyty Môn ac Arfon wedi derbyn triniaeth lawfeddygol. Hefyd, Mrs Alice Lloyd Thomas, Siop-y-Crefftau, yn Ysbyty Eryri wedi derbyn triniaeth llawfeddygol.

8, Mercher – CWM Y GLO, Clwb y Graig yn cynnal Gyrfa Chwist Nadolig yn yr Ysgol Gymuned i ddechrau am 7.30. Pris mynediad 60c yn cynnwys lluniaeth.

DIOLCH – Dymuna Catrin Lennon, Plas Tirion ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei gwaeledd.

CYNGOR Y GYMUNED – Yn Angorfa cyfarfu Cyngor y Gymuned dan lywyddiaeth Mr Llion Jones. Cyn dechrau ar yr agenda cyfeiriodd y Parch Gwynfor Williams ar farwolaeth brawychus a sydyn y Canon Alun Jones. Roedd diddordeb y Canon yn achosion da yr ardal ac yr oedd lles a chysur y trigolion o bwysigrwydd mawr iddo. Dangoswyd cydymdeimlad yr aelodau yn y ffordd arferol.

Bu trafodaeth hir ynglŷn â'r digwyddiadau cyffrous a ddigwyddai yn yr ardal a phenderfynwyd cael trafodaeth gyda'r Prifgwnstabl ynglŷn â chael aelod o'r heddlu yn byw yn wastad yn yr ardal, nid oedd dim anhawster lle yr oedd tŷ addas i'w gael, mae dau dŷ hwylus yma yn barod – y ddau yn ddi-denant.

Bu trafodaeth hefyd ynglŷn â llwybrau cyhoeddus yr ardal. Deëllir fod y llwybr cyhoeddus i Llainwen Uchaf wedi ei gau yn answyddogol. Bydd y gweithwyr yn ymgymeryd â'r gwaith o'i agor cyn gynted a sy'n bosibl.

Bydd angen atgyweirio rhan o'r lanfa hefyd, mae'r tywydd garw wedi difetha rhan ohono. Ceir ymgynghori â'r C.E.G.B. ynglŷn â hyn.

Penderfynwyd rhoddi prydles am saith mlynedd i Adran Leol y St John Ambiwlans ar hen sied y plwyf sydd ger Stryd Ceunant ac i atgyweirio'r adeilad yn addas at waith yr adran. Cyfeiriwyd at y llifogydd diweddaraf a phenderfynwyd i ofyn i Gyngor Arfon edrych i gyflwr y rhediad dŵr o Deras Olgra.

Daeth cwynion lu i law ynglŷn â'r gwasanaeth Crosville i Nant Peris. Mae pethau fel ag y maent yn awr ymhell o fod yn dderbyniol gan drigolion Nant Peris. Hefyd, roedd

(Parhad ar y dudalen nesaf)

LLANBERIS *(Parhad)*

cais gan drigolion Maes Derlwyn am wasanaeth helaethach fel ag y bu hi ar hyd y blynyddoedd. Gobeithir cynnal cyfarfyddiad rhwng swyddogion y Crosville ag aelodau o'r cyngor, ac hefyd cael cynrychiolaeth o'r Cynghor Sir.

Penderfynodd y Cyngor wneud apêl unwaith yn rhagor am lwybr cerdded diogel drwy bentref Nant Peris ac i fyny'r Bwlch, a chyweirio wyneb y ffordd yma ac acw, atgyweirio ger Coed Gwydr lle mae'r ffordd yn gorlifo ar ôl pob glaw trwm. Gofynnwyd yn y pwyllgor a fyddai modd cynorthwyo pentrefwyr Nant Peris i gael Sianel S4C.

DIOLCH I GYNGOR GYMUNED – Roedd y trigolion a fu'n ymgynnull o amgylch y Gofeb fore Sul y Cofio yn falch iawn o weld fod enw Raymond – mab Mr a Mrs Thomas John Roberts, Maes Padarn wedi ei dorri ar y Gofeb. Crybwyllwyd rhoi ei enw ar y gofeb gan Eurwyn Roberts, Tŷ Newydd Clegir, Ysgrifennydd y Lleng Brydeinig, ac yn union daeth Cyngor y Gymuned ymlaen a chysylltu ag arbenigwr i dorri'r enw ar y garreg. Diolch yn fawr iddynt, gwerthfawrogwyd y cyfan nid yn unig gan deulu y diweddar Raymond, ond gan yr ardalwyr yn gyffredinol.

NOFIO – Derbyniodd Julie, Nicola, Delyth, Helen, Ruth a Philip fathodyn nofio yng Nghanolfan Chwaraeon Caernarfon. Ym Mhwll Nofio Bangor enillodd Euron dystysgrif am nofio 50 medr a Trystan 800 medr.

FFOTOGRAFFIAETH – Cynyddu'n gyflym iawn y mae ffotograffiaeth yn y cylch. Mae hi wedi bod yn flwyddyn bwysig mewn hanes ffotograffwyr Gogledd Cymru. Ers cynhyrchu'r gymdeithas y flwyddyn ddiwethaf,

David Gartside yn derbyn y tlws.

maent wedi eu derbyn gan Ffotograffig Cynghrair Prydain Fawr. Mae amryw o'r ardalwyr wedi derbyn cymeradwyaeth uchel ac arddangos eu gwaith yn yr Arddangosfa Flynyddol a drefnwyd ym Mhrestatyn.

Yn adran ieuenctid y daeth y llwyddiant mwyaf. Arddangoswyd naw o luniau gan David, mab Mr a Mrs Gartside, Compton House, ac ef a enillodd y Tlws yn adran ieuenctid, a chafodd gymeradwyaeth uchel iawn am bedwar o'r lluniau. Bu David yn ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn, ac ers dwy flynedd mae yn Ysgol Rydal, Bae Colwyn. Cyflwynwyd y Tlws i David yn yr Arddangosfa ym Mhrestatyn gan Faer Rhuddlan, y Cynghorydd O.T. Lewis.

Mae amryw o oedolion Llanberis wedi derbyn canmoliaeth uchel am eu lluniau ac wedi cael eu dangos yn yr Arddangosfa – dau lun gan Mr Brian Wakeham, Stryd Newton, dau lun gan Mrs Vera Rees Hughes, Snowdon Valley a phedwar llun gan Mr R. Gartside, Compton House (tad David).

Y SGOWTIAID A'R BROWNIES – Bu aelodau o'r Scowtiaid a'r Brownies yn brysur iawn yn mynd o dŷ i dŷ i gasglu 'jymbl' ar gyfer eu harwerthiant, a deëllir eu bod wedi cael pnawn llwyddiannus iawn a chodi swm o arian sylweddol. Da iawn blant, rhaid gwneud ymdrech i dderbyn llwyddiant.

DIOLCH – Dymuna Emlyn a Lynda, Gwynant, Rhes Olgra ddiolch yn garedig iawn i'r teulu, cymdogion a'u ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar Hydref 9. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Mrs Annie Wilson Jones, 4 Stryd y Ffynnon ddiolch o galon am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd gan ffrindiau a'r teulu yn ystod y misoedd diwethaf yma pryd y bu'n cwyno'n arw ond erbyn hyn yn gwella'n araf bach.

SUL Y COFIO – Trefnwyd gwasanaeth Sul y Cofio gan yr adran leol o'r Lleng Brydeinig. Cyflwynwyd y gweddiau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan Archddeon Owen o Fangor, a chafwyd anerchiad bur gan Gaplan y Lleng Brydeinig. Bu gorymdaith dan arweiniad y Seindorf leol gyda'r gwahanol fudiadau lleol yn bresennol. Gosodwyd y torchau popi gan gynrychiolwyr o'r gwahanol fudiadau.

Roedd Maer Arfon, y Cynghorydd Francis Jones yn bresennol. Gweler restr o'r mudiadau lleol fu'n gosod y torchau popi oddi amgylch y gofeb.

FFAIR NADOLIG – Pnawn Gwener, Tachwedd 19 cynhaliwyd y Ffair Nadolig flynyddol yn y ganolfan er codi arian i Gronfa'r Henoed. Cafwyd cefnogaeth dda iawn fel arfer, a mawr yw diolch y pwyllgor i'r siopwyr lleol a'r unigolion eraill am eu haelioni unwaith yn rhagor. Agorwyd yr arwerthiant gan Mr John Hugh Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn, a chyflwynwyd ef gan Mrs M.B. Hughes, llywydd y pwyllgor. Cyfeiriwyd at y diweddar Ganon Alun Jones, a fu'n cysylltu ei hun ar hyd y blynyddoedd â'r Gymdeithas yma. Derbyniwyd rhodd arnhydeddus iawn gan y gŵr gwadd, ac yn ei araith hawdd oedd gweld ei gydymdeimlad â'r henoed, a'i awydd i gynorthwyo pob achos da yn yr ardal.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Buom yn ffodus iawn o gael cychwyn da i'r tymor newydd, ac ym mis Medi fe gawsom gwmni Mr Dewi Tomos, Rhostryfan, a gadwodd ein diddordeb am dros awr yn sôn ac yn dangos lluniau ar 'Hen Chwedlau Dyffryn Nantlle'. Yr un noson daeth Mrs Gruffydd o gangen Brynrefail i roddi ei hadroddiad am y Cyfarfod Blynyddol yn yr Albert Hall. Ym mis Hydref bu Mrs Twiss o Nantlle yn dangos i ni sut i wneud anrhegion o ganfas a choed, ac yr ydym yn ddyledus i'r tri yma am fod mor barod i roddi ei gwasanaeth i Sefydliad y Merched.

Yr oeddym yn falch o weld Mrs Glenys Jones, ein trysorydd, yn ôl gyda ni ar ôl ei phrofedigaeth sydyn. Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs Betty Jones, Plas Coch yn ei phrofedigaeth o golli mam yn ddiweddar. Yr oeddym yn falch o glywed bod Mrs M. Batten wedi dychwelyd o'r ysbyty, ond dal yn Ysbyty Dewi Sant y mae Mrs H.O. Roberts, ac yr ydym yn dymuno gwellhad buan i'r ddwy aelod yma. Yr oedd yn ddrwg gennym glywed am bryder ein llywydd, Mrs Hannah Jones, oherwydd gwaeledd ei phriod. Erfynnir am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol ar nos lau, Tachwedd 25.

Parhad ar y dudalen nesaf

LLANBERIS *(parhad)*

Rhagfyr 2 – Cinio Sefydliad y Merched; Rhagfyr 9 – Cyfarfod Sefydliad y Merched.

PRIODAS

Lewis – Morgan

Yng Nghapel y Graig, Talsarnau priodwyd Rona, merch ieuengaf Mrs M.W. Morgan, a'r diweddar Ronald Morgan, Newbodeilian a'r Parchedig Dewi Tudur Lewis, mab hynaf y Parch a Mrs W.J. Lewis, Encil, Amlwch. Gwasanaethwyd yn y gwasanaeth gan y Parch John Glyn Jones, ac roedd y delynores Llio Haf Tomos o Lanwnda yn bresennol. Cyflwynwyd y briodferch gan ei hewyrth H.E. Williams, a'r gwas priodasol oedd Islwyn, brawd y priodfab. Y morynion oedd Eirian Lewis a Gwenan Passe. Trefnwyd y wledd briodasol ym Mochras, Llanbedr. Treuliwyd y mis mêl yn yr Alban. Dymunir i'r pâr ifanc bob bendith a hir oes.

YSGOL DOLBADARN – Yn dilyn y Daith Gerdded a gynhaliwyd yn ddiweddar gan blant Adran Hynaf yr Ysgol, gwnaed elw o £561.45 i Gronfa'r Ysgol.

Manteisia'r Prifathro a'r Athrawon ar y cyfle hwn i ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuntaf i bawb a gefnogodd yr ymdrech a'i gwneud mor lwyddiannus.

Bu Mrs S.B. Thomas, Tŷ'r Ysgol am driniaeth lawfeddygol mewn ysbyty yn Lerpwl yr wythnos diwethaf. Balch iawn yr ydym oll o'r ysgol fod Mrs Thomas wedi dod yn ôl adref ac ar ei ffordd i wella.

Bu Mrs C.J. Roberts, gartref am wythnos o'i gwaith fel athrawes. Eto, balch iawn ydym o gael ei chwmni yn ôl yn yr ysgol wedi gwella.

Ar ôl cryn amser o waeledd, dychwelodd Mrs M.W. Morgan yn ôl i'w gwaith yn y gegin a iard yr ysgol. Croeso yn ôl i Mrs Morgan a mawr hyderwn y mwynhewch iechyd da.

Y mae Mrs Carolyn Roberts o Benisarwaun yn yr ysgol fel athrawes dros dro. Mawr hyderwn y byddwch yn hapus a chartrefol yn Ysgol Dolbadarn, Mrs Roberts. Nid dyma'r tro cyntaf i Mrs Roberts ddysgu yn yr ysgol, felly y mae'n gyfarwydd â'r athrawon a'r plant.

Er parch i'r diweddar Barch Ganon Alun Jones, B.A. caewyd yr Ysgol ar brynhawn yr angladd sef dydd Iau, Tachwedd 4. Bu'r Canon Jones, yn Gadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol am flynyddoedd. Ymddiddorai yn fawr yn y plant a gweithgareddau'r Ysgol a bydd ei golli i'w deimlo'n fawr yn ein mysg i gyd.

Llongyfarchiadau i Aled Wyn Hughes, am ennill tystysgrif am nofio 10 medr ym Mhwll Nofio Caernarfon. Y mae Aled yn Safon 1 ac yn ymddiddori mewn nofio. Dalier ymlaen Aled.

STAFF Y CLINIC – Criw diwyd iawn yw 'criw' ein clinic ni yn Llanberis, nid yn unig yn eu gwaith yn ystod y dydd, ond yn eu horiau hamdden. Mewn amser byr iawn casglwyd ganddynt £140 tuag at Gronfa Alan Williams. Dymuna'r criw ddiolch i bawb a fu'n cyfrannu mor hael tuag at apêl mor ddyngarol.

CYMRAES FACH NEWYDD – Dymuna Susan a Gwynedd Morris, 71 Parkfield Road, Broughton, ger Caer, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r llu o gardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Emma Louise.

Dyna wneud Mr a Mrs R.H. Jones, 2 Maes Padarn yn daid a nain am y tro cyntaf, hefyd yn gwneud Mrs M. Jones, Plas Pengwaith yn hen-nain unwaith eto.

EIN RHEDWYR IFAINC – Dal i redeg, a hynny yn llwyddiannus iawn, mae amryw o blant yr ardal. Yn ystod y mis cynhaliwyd y Deeside Championships a daeth Paul Prydderch yn gyntaf, a Linda Prydderch ei chwaer fach, yn gyntaf dan 11 oed, yn ras y genethod. Daeth Cai Lloyd Williams a Marc Lloyd Williams yn seithfed ac wythfed, a chafodd Melanie Sellars hwyl reit dda. Bu'r plant yn rhedeg ym Mhenmaenmawr y Sadwrn dilynol, ac roedd y tywydd yn arw, gwlyb ac oer – ond daeth Paul eto yn gyntaf drwy'r cwbwl. Ardderchog Paul – mae pawb yn edmygu dy ddygnwch – dal ati.

UNDEB Y MAMAU – Cyflwynodd y Parch A.W. Cherry araith er cof am y diweddar Ganon Alun Jones i aelodau am Undeb y Mamau, Sant Peris a Sant Padarn. Diolchwyd iddo gan Mrs Ella Hondle. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Jones, Mrs Emlyn Jones, Mrs Hughes, Gadlys Cottage a Mrs Cheesman. Diolchwyd iddynt gan Mrs D. Hughes.

Y GRŴP CENNIN – Mae'r grŵp o leisiau ifanc dan arweiniad Mrs Ann Pritchard, Stryd Newton yn brysur iawn y dyddiau yma. Yr un wythnos ar nos lau clywyd hwy'n canu mewn Noson Goffi yn y Ganolfan, a'r noson ddilynol mewn Noson Lawen yn Tal y Bont Bangor. Dymunir bob llwyddiant iddynt.

N.S.P.C.C. – Casglwyd £74.52 trwy gasgliad o ddrws i ddrws at yr uchod yn ystod y mis, a dymuna'r trefnydd ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael, ac i'r casglyddion am fynd o gwmpas yr ardal mor drwyadl. Y casglyddion oedd Mrs Doris Hughes a Mrs Janet Davies, Mrs Glenys Jones a Mrs J. Evans, Mrs H.G. Owen a Mrs Day a June, Mr Geraint Morris, Janet a Bethan Hughes, Bethan a Carys Jones.

SUL YR URDD 82 – Yng Nghapel Coch pnawn Sul, Tachwedd 21 cynhaliwyd Sul yr Urdd. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan blant Ysgol Dolbadarn, Ysgol Gwaen Gynfi, Ysgol Waunfawr ac Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug. Rhoddwyd yr anerchiad i'r plant gan y Parch Hugh John Hughes, Jerusalem a Mr Hugh Peris Pritchard wrth yr organ.

Daeth cynulliad da iawn ynghyd o rieni ac oedolion eraill o'r ardaloedd cyfagos.

AR GOLL – Rhwng Plas Tirion a Padarn Stores, (Siop W. Jones) collwyd ar y nos Fawrth, Tachwedd 16 gadwyn aur. Pe bai rhywun wedi dod ar ei thraws byddai Gwyneth Parry, Plas Tirion yn falch ac i chwi gysylltu â hi.

MARWOLAETH – Tachwedd 22 yn yr ysbyty bu farw Emlyn Evans, Eryl, 6 Stâd Coetmor, Bethesda. Bu'n fregus ei iechyd ers amser ond roedd mor dawel a dirwgnach ar hyd y misoedd. Roedd yn athro ysgol caredig a chydwybodol. Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â Gwenno ei briod, a Nia ei ferch, hefyd ei fam Mrs Mamie Evans, 66 Maes Padarn a Dwynwen ei unig chwaer sy'n byw ym Mangor.

YN YR YSBYTY – Yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor mae Mrs Blanche Williams, Lake View yn derbyn triniaeth lawfeddygol.

Hefyd mae Miss Ceinwen Griffiths, 7 Llainwen hithai'n yr ysbyty. Dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn ac iddynt ddychwelyd gartref.

Morgan yn Taro Tant

Criw o hogiau o gyffiniau Caernarfon yw Morgan sydd wedi dod at ei gilydd dan gymhelliad Huw Trefor Williams o Lanberis. Mae Huw wedi bod yn canu ers pan yn hogyn bach ac ef yw'r prif lais yn y grŵp, a chyfansoddwr y caneuon. Gydag ef mae Pete Brigant o'r Ffôr, Bob Bishop o Nebo, Penygroes a Bob Williams ar y drymiau.

Yn ymddangos ar yr un rhaglen fe fydd Eirlys Parry a Phlethyn. Gwelir y rhaglen nos Wener Rhagfyr 17 am 7.30 o'r gloch.

Os oes unrhyw dalent newydd yn yr ardal a hoffai gael eu hystyried ar gyfer y rhaglen Taro Tant, mae croeso i chi anfon tâp caset o ryw bedair neu bump o ganeuon y byddwch yn eu canu i 'Teledu'r Tir Glas', Maesincla, Caernarfon.

YSBRYD 15, MAES PADARN

A hithau'n noson dawel,
Mor ddistaw yn y fro,
Ein harwr aeth i'w sied am dro
I wneud yr hyn sydd raid.

Bu yno am gryn ysbaid
A'i law ar hyn a'r llall.
Gan fyned allan fel dyn dall –
Un felly ydi Taid!

Ac yno, mewn un gornel,
Gadawodd ei hen radio.
Roedd honno 'mlaen – a fyntau'n sadio
O flaen y tân yn tŷ.

Aeth allan ymhen dipyn,
A wir i chi, bu'n ymdrech,
I 'sgoi llewygu, pan ddaeth sgrech
O gornel y sied dywyll.

"Ysbrydion", meddai William,
Gan sefyll yno'n dindrwm,
Â'i ben yn troi, a'i fol fel plwm
"Mil gwell 'di bar Dolbadarn".

Hen dro, ynte, ddarllenydd,
Fu dychryn cyfaill dedwydd.
A chofiwch, os aiff ar ei hyd
Pwy wedyn all ei godi?

HEN DEULU A BLACS

CARDIAU NADOLIG ARBENNIG YSGOL PENDALAR, CAERNARFON

Mae amryw o blant ardal Eco'r Wyddfa yn mynd i Ysgol Pendalar, Caernarfon ac eleni am y tro cyntaf, mae'r ysgol wedi cynhyrchu eu cardiau Nadolig Cymraeg eu hunain.

Cynlluniwyd y cardiau gan Sioned a Kathy – dwy o'r disgyblion.

Gellir cael y cardiau yn uniongyrchol drwy gysylltu ag Ysgol Pendalar (Caernarfon 2141). Mae deg cerdyn (5 o bob un) mewn pecyn yn costio £1.

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:
Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329
Gyda'r Nos
Llanberis 872236



SIBRYDION O'R YSGOLION

YR URDD – Yn ystod y mis cynhaliwyd cwis i aelodau'r Urdd yn yr ysgol. Cymerwyd rhan gan ddisgyblion yr ysgol, yn ogystal â thîm y staff. Enillwyd y cwis, o drwch blewyn, gan y staff. Diolchodd Bethan Hughes, o'r chweched, i Mr Meirion Wyn Jones am drefnu'r cwestiynau.

TAITH GERDDED – Yn ystod y mis hefyd, aeth disgyblion yr ysgol ar daith gerdded o bum milltir o gwmpas Llanrug a Phenisarwaun i gasglu arian tuag at Gronfa'r Ysgol. Nid yw'r arian wedi ei gyfrif i gyd, gan fod pawb wedi blino gormod ond mae odeutu £800 mewn llaw hyd yma.

ARIAN Y 'GWISGO I FYNY' – Rhannwyd yr arian a gasglwyd yn y diwrnod 'Gwisgo i Fyny' rhwng y canlynol: Cronfa Apêl Dinorwig (at offer darganfod cancr); Cronfa'r Arennau Llanberis a Chronfa Michael McCough at ymchwil i'r lau.

Gan ei bod yn Sul yr Urdd ar Dachwedd 21 a rhai o'r plant yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig a drefnwyd gan bwyllgor cylch yr Urdd, ar Thema'r Henoed, penderfynwyd anfon siec hefyd i Blas Pengwaith.

THEATR GWYNEDD – Yn ystod y mis aeth aelodau'r pumed dosbarth i Theatr Gwynedd i weld 'Cider with Rosie'. Aeth Mrs Mary Hughes gyda hwynt hefyd.

PASIANT LLYWELYN – Ddechrau'r mis nesaf, 1-5 Rhagfyr, bydd rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn pasiant yn Theatr Gwynedd i ddathlu 700 mlwyddiant marwolaeth Llewelyn ein Llyw Olaf. Byddant yn cael cyfle i ganu ac actio gyda disgyblion o ysgolion eraill yng Ngwynedd.

DAWNSIO NODDEDIG – Yn ystod y mis, cynhaliodd y chweched dosbarth ddawns disgo noddedig er mwyn casglu arian tuag at Barti Nadolig Plant Pendalar. Buont yn dawnsio am bum awr, a chasglwyd tua £250 tuag at y parti.

BUDDUGOLIAETH SGÏO – Hydref 2 cynhaliwyd Pencampwriaethau Sgïo Ysgolion Cymru ym Mhontypwl. Aeth 10 o blant Ysgol Brynrefail yno i gystadlu – **Dan 15**: Tim Lloyd, Robina McCann, Mark Parry. **Dan 13**: Matthew Shaw, Benjamin Shaw, Philip Ingle, Matthew Ingle, Brian Glass, Jake Wood, Kirsty McCann.

Enillodd Tim Lloyd ei ddosbarth a daeth yn ail yn y gystadleuaeth gyfan. Enillodd Kirsty McCann ei dosbarth hi a'r gystadleuaeth gyfan i ferched. Daeth Jake Wood a Philip Ingle yn 3ydd yn eu dosbarthiadau hwy.

Daeth tîm yr ysgol yn AIL allan o 21 o ysgolion. Golyga hyn y bydd tîm A yr ysgol yn mynd ymlaen i gystadlu yng Nghaeredin ym Mhencampwriaethau Prydain Rhagfyr 12.

YR EISTEDDFOD – Penderfynodd y Rheolwyr wobrwyo disgyblion a gafodd lwyddiant eithriadol yn arholiadau A, O a TAU 1982 fel a ganlyn:

Safon A – Gwobr Mrs Rowlands i'r ferch â'r canlyniadau gorau: Janice Mary Price – Daearyddiaeth A, Hanes A, Cymraeg C. **Gwobr Dr Lloyd Williams i'r bechgyn â'r canlyniadau gorau**: Robert Aled Jones – Daearyddiaeth A, Mathemateg C, Ffiseg C. **Gwobr David Jones – Mathemateg** – James Spry A – Mathemateg Ychwanegol ac A Ystadeg. **Gwobr Mr E. Gwyndaf Evans – Ysgrythur** – Ruth Evans B, **Gwobr Mrs W.V. Jones – Bioleg** – Menna Deulyn Williams A. **Safon O (Gwobrwyon o Gronfa David a Jane Jones)** – Bethan Mair Hughes, 5 gradd A, 3 gradd B. Meirion Wyn Jones 5 'A', 3 'B'; Toby Manning 4 'A', 1 'B'; Annette Shaw 3 'A', 3 'B'; Dylan Green 3 'A', 3 'B'.

TAU – (Gwobrwyon o Gronfa Mary Parry) – Nifer fechan yn sefyll allan – Keith Allan Williams 6 gradd 1, Merfyn Wyn Morris, 6 gradd 1, Marina Marzelos 4 gradd 1, Paul Thomas 4 gradd 1. **Yna** : Ann Rhodes 3 gradd 1, Ann West 3 gradd 1, Arfon Jones, 3 gradd 1, Alan Owen, 3 gradd 1.

Yr oedd canlyniadau eleni eto yn bur ffafriol. Yn ôl y dadansoddiad swyddogol a gawsom am holl ysgolion y Sir o'r Swyddfa Addysg y mae safle yr Ysgol yn bur foddhaol yn enwedig yn arholiadau 'A' ac 'O'. Ar un ystyr y mae'n resyn na fuasai'r cyhoedd yn cael gwybodaeth fwy manwl am ganlyniadau oherwydd y mae anwybodaeth yn arwain i straeon camarweiniol a cham-ddehongli.

Yr unig beth allaf ddweud yn hollo sicr yw fod gan yr ysgol hon le i ymfalchïo yn ei chanlyniadau a'n bod yn cymharu'n ffafriol ag Ysgolion Uwchradd eraill Gwynedd.

W.E. THOMAS (Prifathro)

Mrs Mary Lloyd Williams

Ar Dachwedd 16 dathlwyd pen-blwydd yn bedwar ugain un o'n cyn-ddisgyblion hynaf, sef Mrs Mary Lloyd Williams neu Mari Lewis fel yr adwaen ddarllenwyr ei cholofn yn yr Herald hi.

Fe fu'n ddisgybl yn yr hen Ysgol Ramadeg Brynrefail o 1914-1918 ac yr oedd yn yr un dosbarth â T. Rowland Hughes.

Y mae wedi ei henwogi ei hun drwy ysgrifennu colofn wythnosol i'r Herald am dros hanner can mlynedd ac y mae'n adnabyddus fel pregethwr cynorthwyol ac fel cefnogwr pob math o weithgareddau diwylliannol.

Ar ran yr Ysgol dymunaf ei llongyfarch a gobeithio fod llawer blwyddyn o wasanaeth a gweithgarwch o'i blaen.

W.E. THOMAS (Prifathro)

PÊL-DROED – Ysgol Dyffryn Nantlle (gartref) – Dan 13eg – Cwpan yr Urdd – colli 6-1.

Dan 15eg – Cwpan yr Urdd – ennill 8-2.

Dan 16eg – Cwpan Bryn Davies – ennill 2-0.

Ddechrau'r mis fe chwaraeodd Kevin Jones (Dinorwig) i dîm Ysgolion Gwynedd Cymru dan 15eg oed yn erbyn Ysgolion Lerpwl yn y Rhyl. Cyfartal oedd y sgôr 2-2 a Kevin unwaith eto yn cael gêm dda yng nghanol yr amddiffynfa. Roedd Mike England, rheolwr Cymru, a Mickey Thomas (Stoke a Chymru) yn gwylio'r gêm a bu'r ddau yn rhoi gair o gyngor i fechgyn y gogledd yn ystod yr egwyl.

Bu Kevin Jones a Huw Jones (Llanrug) yn chwarae mewn gêm dreial i ddewis tîm Gogledd Cymru (Dan 15) i chwarae'r De. Dim ond Kevin fu'n llwyddiannus ac fe chwaraeodd yn erbyn y De ar y 21ain o Dachwedd, yn Abergyfenni. Er bod y Gogledd wedi colli 2-1 cafodd Kevin gêm foddhaol iawn ond nid yw'r tîm cenedlaethol wedi cael ei ddatgelu eto.

Yn ogystal â Kevin Jones a Huw Jones mae Colin Saynor (Llanberis) a Neil Wannop (Bethel) wedi cael eu hychwanegu i garfan Ysgolion Arfon dan 15. Ar ôl buddugoliaethau dros Ysgolion Meirion, Môn ac Aberconwy mae'n bur debyg mai Ysgolion Manceinion fydd y gwrthwynebwyr nesa'.

Stuart Williams (Llanrug) oedd yr unig fachgen o'r ysgol i gael ei ddewis i chwarae i dîm Ysgolion Arfon dan 13 – fe gollson nhw eu gêm gyntaf o'r tymor yn erbyn Ysgolion Telfrod 4-0.

PÊL-RWYD – Dan 13 yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle (Gartref), Brynrefail 6 Dyffryn Nantlle 6.

AR WERTH

Byncer glo – lle i 5 cant. £24 (gan gynnwys y glo sydd ynddo).
Côt ledr i ddynes – maint 10. £30
Cwpwrdd cegin. £25
Bwced cromiwm i ddal glo. £12
Set 'companion'. £8
Gard dân. £10
Ffôn: **C'fon 4918** – ar ôl 8pm

Dau wresogydd oel lamp i dŷ gwydr, un sengl ac un dwbwl, y ddau fel newydd. Pris rhesymol. Ffôn: Y Felinheli 670344.

Cadair Mothercare i'w gosod ar bram – fel newydd, £6.
Drysau tu mewn wyneb pren 2'6" × 6'6". Ail law ond mewn cyflwr da, £8 yr un.
Ffôn: Y Felinheli 670726.

AR WERTH
Tŷ – 10 mlwydd oed, 3 llofft, cegin, ystafell fyw/bwyta, gwydr dwbl trwodd, garej.
BARGEN am £16,500
Ffôn: Waunfawr 626

Cerflun i goffáu Llywelyn

Ar yr 11eg o Ragfyr eleni, dadorchuddir cerflun i nodi saith can mlwyddiant marwolaeth Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru ac Arglwydd Eryri, a fu farw ar yr union ddyddiad hwnnw yn 1282.

Lleolir y cerflun mewn cwrt bychan ar Stryd y Castell, Caernarfon, fel rhan o Bencadlys newydd uchelgeisiol y Sir a gynlluniwyd gan yr Athro Dewi Prys Thomas. Fe'i comisiynwyd gan Gyngor Sir Gwynedd gyda chymorth hael Cyngor Celfyddydau Cymru a nifer o noddwyr preifat o'r byd masnachol a diwydiannol. Rhan yw'r cerflun o gyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd gan y Cyngor Sir i goffáu Llywelyn ein Llyw Olaf, nid yn unig fel arweinydd ysbrydoledig ond hefyd fel arwydd o hynafiaeth a dycnwch Gwynedd a Chymru. Yn ôl yr artist mawr, David Jones, "Roedd yr hyn a ddaeth i ben yn 1282 yn unigryw . . . nid oedd unlle arall yn yr Ynys hon lle ceid olyniaeth o dywysogion canoloesol a darddai'n syth o Brydain Rufeinig."

Dyfarnwyd y comisiwn i Glenn Hellman yn dilyn cystadleuaeth a oedd yn agored, o dan drefn newydd gan Gyngor y Celfyddydau, i bob artist yng Nghymru. Yn Ystrad Meurig, Dyfed, y mae Glenn Hellman yn byw. Arddangoswyd peth o'i waith mewn arddangosfeydd un-dyn a rhai cyfunol yn Llundain, ac mae ei greadigaethau i'w gweld mewn casgliadau cyhoeddus a phreifat.

Dehongliad haniaethol yw'r cerflun o themâu'r briff cynllunio, sy'n deillio o enw arwrol Llywelyn – Eryr Eryrod Eryri – ac fe'i gwnaed o aliwminiwm tenau. Fe'i gosodir ar golofn lechfaen 6 medr o uchder a gyflwynwyd gan Chwarel y Penrhyn, Bethesda.

Gwneir y dadorchuddio swyddogol ar yr 11eg o Ragfyr am dri o'r gloch yn Stryd y Castell yn dilyn cyfarfod yn Theatr Seilo lle bydd anerchiad gan hanesydd amlycaf Cymru, yr Athro Glanmor Williams o Goleg y Brifysgol, Abertawe.

RALI CILMERI

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 11

Dyma uchafbwynt blwyddyn Cofio Llywelyn II – Tywysog olaf Cymru. Trefnwyd y Rali gan fudiad Cofiwn.

Bydd y gweithgareddau yn dechrau am hanner dydd, ddydd Sadwrn Rhagfyr 11, gydag anerchiad o seremoni wrth y gofeb yng Nghilmeri. Wedi hyn cynhelir gorymdaith i Ganolfan Glan Gwy yn Llanfair ym Muallt lle ceir 'Cyfamod Cilmeri'.

Y gweithgareddau eraill yn y Ganolfan fydd darlith hanesyddol, trafodaeth a ffilm ar Flwyddyn Goffa Llywelyn II. Cynhelir arddangosfa yno hefyd.

Ar ôl 7 o'r gloch yr hwyr bydd "Noson Gymdeithasol".

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

Seremoni Cadeirio'r Bardd buddugol, sef Carys Wyn Jones, yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Yn y llun gwelir genethod bach o Ysgol Gynradd Llanrug oedd yn perfformio'r Ddawns Flodau.

Y gwrandawr yn y llofft

"Dowch da chi, fe fyddwn yn ddiolchgar dros ben".

"O'r gorau, un oedfa – y bore ne'r hwyr, pa un a fydd orau gennych?" "Yr hwyr. Gallwn gael Cwrdd Gweddi yn y bore. Diolch yn fawr i chi." Rhoddodd y ffôn i lawr. Cais ydoedd gan Ifan Prydderch i lenwi bwlch ar y funud olaf. Mae 'na brinder pregethwyr Cymraeg ffordd hyn, ac oherwydd fod gweinidogion yn ddynol ac yn cael anwyd a ffliw fel pawb arall, mae rhai ohonom yn barod i eistedd ar fainc y "substitutes" a throi allan yn achlysurol.

Capel bychan, disylw braidd ydoedd, yn un o'r dyffrynoedd, ar gwr tre a fu'n enwog trwy'r byd am ei glo a'i chopr, ar un adeg. Dyma'r tro cyntaf imi fynd yno, a chefais groeso gwresog pan gerddais i mewn, gan y ddau flaenor. Casglodd y gunulleidfa – rhyw ddwsin a hanner i gyd, a merch ifanc oedd yn chwarae'r organ yn ddistaw. Esgynnais y grisiau i'r pulpud, pulpud uchel, anarferol o uchel, ac ar unwaith, gwelais fod yr haul wrth fachlud yn taro'n union yn fy llygaid trwy'r ffenest yng nghefn yr adeilad. Cas gen i edrych ar oleuni disglair. Dydw i ddim yn hoffi gyrru car yn y nos lle mae llawer o draffig. Gwelais nad oedd neb yn y llofft, diolch byth. Oriel fechan ar draws cefn y capel ydoedd, a drws ar un ochor yn agor i mewn iddi. Drwy lwc, gallwn gadw fy llygaid i lawr, ac osgoi y disgleirdeb mwyaf.

Dechreuodd y gwasanaeth, ac o nifer mor fychan, roedd y canu yn hynod o fywiog a swynol, fel mewn llawer o addoldai'r wlad o hyd.

Ar hanner darllen, mi a'i gwelais i o. Rhaid ei fod wedi dod i mewn yng nghanol yr emyn. Eisteddai o flaen y ffenestr yn y galeri, ar hanner tro. Ni allwn ei weld yn glir, oherwydd golau'r haul, dim ond ei siâp oedd yn amlwg. Sylwais na chododd i ganu, ond nid oeddwn yn synhwyro dim hyd nes yr es ati i ddechrau pregethu.

Gallwch deimlo gwrandawiad o'r pulpud. Mae na rhyw gysylltiad yn cael ei wau rhwng y gynulleidfa a'r pregethwr. Ar ôl rhyw bum munud, gwyddwn fod pethau'n mynd yn dda. Roeddwn yn dal sylw y bobl. Ond – ond roedd y dyn yn y llofft yn tynnu fy sylw i, byth a beunydd. Roedd o'n codi rhyw deimlad annisgrifiadwy ynof. Edrychai fel pe tai yn ysgrifennu i lawr bennau'r bregeth. Doeddwn i ddim wedi gweld neb yn gwneud hyn er pan oeddwn yn fachgen, a doeddwn i ddim yn siŵr ai i bryderu neu ymfalchïo. Ni symudai, dim ond eistedd ar hanner tro, ei ben wedi gwyro fel pe tai'n edrych ar ei lyfr bach ar ei benlin.

Trwy'r amser, tynnai fy sylw, ac eto nid oedd yn amharu dim ar yr oedfa. Gallaf fynd trwy wasanaeth weithiau, heb fod yn ymwybodol o ambell i berson o gwbwl, ond y noson hon, crwydrai fy llygaid yn ôl ato, dro ar ôl tro. Teimlwn bron mai ef oedd yn dewis y geiriau a'r brawddegau allan o fy nodiadau, ac fy mod yn pregethu mwy iddo ef nag i'r gynulleidfa. O'r diwedd, tynnais y bregeth i ben, a ledio'r emyn olaf. Roedd o wedi mynd. Ni welais o'n codi mwy na'i gwelais i o'n dod i mewn.

Cerddais i lawr y grisiau, ac ysgwyd llaw hefo'r ddau flaenor, derbyn eu diolchiadau caredig, a diolch fy hun i'r gyfeilyddes fach. "O ble yn y Gogledd ydech chi'n dod?"

"Llanberis." "Tewch â deud". "Mi fûm i ar ben yr Wyddfa un waith ond roedd hi'n bwrw glaw." Mae'n syn cymaint sy wedi dringo'r Wyddfa yn y glaw. Cerddais at y drws gyda Ifan Prydderch. Roedd o'n mynd i oed ac yn amlwg yn byw er mwyn yr achos, a mwy na thebyg yn dal yr eglwys wrth ei gilydd.

"Deudwch i mi", gofynnais, "pwy oedd y dyn 'na yn y llofft?"

Agorodd ddrws y cyntedd yn araf a throi ataf.

"Oedd e yma heno? Wel mae'n dod pan mae'r bregeth yn ddiddorol." Rhoddodd ei lyfr emynau ar y bwrdd bach, a throdd i'm wynebu.

"Mae e'n dod nawr ac yn y man er pan oeddwn i'n fachgen, ac yn eistedd yn yr un man bob amser."

"Doeddwn i ddim yn gallu'i weld o'n iawn, oherwydd pelydrau'r haul. Roedden nhw'n fy nallu braidd". Rhyw le yn y ffeithiau, roedd 'na rhyw beth yn fy mhoeni.

"Naturiol", meddai'r hen flaenor, "ond dim ond y pregethwr yn y pulpud sy'n gallu'i weld. Does neb arall yn sylwi ei bresenoldeb." Edrychais ar y drws i'r llofft, uwch fy mhen.

"Dewch", meddai wrthyf eto, "cymerwch hi fel clod iddo ddod i wrando arnoch." Yna, trodd y stori. "Fe gawson ni lawer o helynt yn y coed yn y cyntedd 'ma, flynyddoedd yn ôl. Y pryf wyddoch chi, yn druenus. Doedd y grisiau ddim yn saff. Bu rhaid i ni eu tynnu nhw i gyd i ffwrdd, a doedd 'na ddim digon o arian i'w hail osod, na digon o wrandawyr i'w defnyddio. Ga'i ofyn i chi ddod eto pan mae hi'n brin arnon ni?"

Fûm i ddim yn ôl yno wedyn. Sut mae'n bosibl pregethu i wrandawr mewn llofft capel, sy heb risiau i fynd i fyny yno?



PARAU

Dim croesair yn y rhifyn hwn – ond dyma gêm fach i'ch cadw'n ddiddig am rhyw funud neu ddau. Mae dau air neu enw o'r rhestr sydd wedi'u rhifo yn cyfateb i bob un cliw sydd wedi'i lythrennu e.e. (ch) 1, 6. Eich tasg yw gorffen y rhestr. Beth yw'r gair sydd ar ôl, wedi i chwi orffen paru'r geiriau?

a) Dau ddyn
b) Cymeriadau dramatig
c) Ffrwythau
ch) Gemau bwrdd
d) Gwobrau eisteddfodol
dd) Dau ddodrefnyn
e) Pethau brenhinol
f) Ystafelloedd
ff) Dwy ferch
g) Hen arian
ng) Dau Bapur Bro ym Môn
h) Nofel
i) Anagramau
l) Dwy Wasg
ll) Deuawd
m) Pethau i ddal neu atal
n) Mynydd

1. Dartiau
2. Carnedd
3. Cwpwrdd
4. Cloriau
5. Thelma
6. Gwyddbwyll
7. Dafydd
8. Magl
9. Mair
10. Gwynedd
11. Hywel
12. Hamlet
13. Philip
14. Siwan
15. Ffyrnig
16. Post
17. Rhys
18. Eirin
19. Lewis
20. Blodwen
21. Coron
22. Chwecheiniog
23. Llyffethair
24. Rhian
25. Macbeth
26. Idris
27. Dwyfor
28. Cadair
29. Ffyrling
30. Cegin
31. Rhwyd
32. Bathdy
33. Sian
34. Lolfa
35. Bwrdd

Gwobr o £2 i'r cynnig cywir cyntaf i'w dynnu. Anfonwch at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug erbyn 25 Ionawr 1983. Canlyniad Croesair Tachwedd ar Dudalen 27.

LLYFRAU PLANT

LLYFR MAWR SBONCYN — RHIF 2
Pris: £1.95
96 Tud. Lliw a du a gwyn am gymeriadau'r comic Sboncyn — hefyd triciau.

CYFRES SIONYN:
PENBLWYDD SIONYN Pris 50c
Y BWGAN BRAIN Pris 50c
2 lyfr lliwgar arall gan **Eirwen Edwards.**

Yn y siopau - neu oddi wrth:

Cyhoeddiadau Mei,
40 Stryd y Wyddfa, Penygroes, Caernarfon,
Gwynedd. Ffôn: Penygroes 880302

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd, llysiau á diodydd

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR RHAGOROL
SIOP DELEDU
T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: Llanberis 870205

06190 – O CHWECH I NAW DEG!

Tudalen i'r plant: hen ac ifanc gan DYFRIN Y DEWIN

CASGLU CERRIG

Siâp Crisialau

Mae'r mwyafrif o fineralau wedi eu ffurfio o grisialau wedi eu gwasgu'n glos at ei gilydd. Mae siâp y crisialau'n aml yn arbennig, a dyma ddull hwylus o adnabod eich mineralau. Er mwyn adnabod pob math, rhannwyd y crisialau i chwe math neu deulu arbennig (gweler y diagram):

(i) Cubic – sef siâp ciwb rheolaidd a'i ochrau wedi eu gwastadhau i roi wynebau
(ii) Hexagonal – siâp prism dwbl, chwe-ochrog
(iii) Tetragonal – siâp prism sgwâr, neu brism dwbl wyth-ochrog
(iv) Orthorhombic – hirsgwarau siâp bocs, ond gyda'r hyd a'r lled a'r dyfnder yn wahanol faint
(v) Triclinic – siâp bocs eto, ond hyd, lled a dyfnder yr wynebau heb fod yn sgwâr
(vi) Monoclinic – siâp bocs eto, ond un pen yn unig heb fod yn sgwâr.

Wrth gwrs, mae'r disgrifiadau hyn yn gor-symleiddio, ond gellwch gael disgrifiadau manwl mewn llyfrau ar fineralau a chrisialau.

Nid yw crisialau naturiol yn siapau geometreg manwl. Maent yn aml allan o siâp ac wedi eu clystyru â'i gilydd mewn grwpiau sy'n ymddangos yn aml yn hollol ddi-drefn. Mae dysgu sut i adnabod siâp y gwahanol grisialau o gymorth mawr i benderfynu pa fath o fineralau ydynt.

Weithiau mae'r crisialau'n gyfochrog. Ac adegau eraill maent yn hollol anhrefnus ac yn edrych fel grawnsypiau. Botroyidal yw'r enw cywir am y siâp hwn. Dro arall maent fel siâp arennau. Yr enw cywir yw reniform.

Mae enwau'r teuluoedd hyn o grisialau yn anodd i'w cofio, ond maent yn bwysig, oherwydd dyma un o'r dulliau gorau un i geisio adnabod y mathau o fineralau yn eich casgliad.



Mae pobl Botswana yn credu mai anifail cyfrwys iawn yw'r sgwarnog, ac y mae pawb yn gwybod mai'r llew yw brenin yr anifeiliaid . . .

Stori o Affrica

Y LLEW A'R SGWARNOG

Un tro, flynyddoedd lawer yn ôl, cyfarfu Tau y Llew a Mutla y Sgwarnog.

Maddai Mutla wrtho'i hun: "Dyma frenin yr anifeiliaid. Fe chwaraeaf dric arno."

Cyfarchodd y brenin: "Bore da, eich mawrhydi. Rwy'n siŵr eich bod yn unig ac yn drist heb neb i gadw cwmni i chwi. A gaf i ddod i fyw hefo chi.

Chwyrnodd y brenin ac edrych ar y sgwarnog. Ond ddywedodd o ddim.

"Does bosib eich bod yn hoffi gwneud y gwaith tŷ i gyd eich hun?" gofynnodd y sgwarnog. "Beth am i mi goginio i chwi, a gwneud yr holl waith caled. Mae brenin yr anifeiliaid yn llawer rhy bwysig i wneud popeth drosto'i hun."

Meddyliodd Tau y Llew am ennyd, ac yna cytunodd. "Dyna syniad da," meddai. "Fe chwiliaf i am fwyd, ac fe gei di ei goginio a chadw'r cartref yn daclus. OND PAID Â MEIDDIO CHWARAE TRICIAU!"

"Wna'i ddim," atebodd y sgwarnog.

Aeth y Llew â'r sgwarnog i'r llwyni i ddangos ble roedd yn byw. Cymerodd y sgwarnog arno ei fod wedi dychryn o weld mor anghyffyrddus oedd cartref y llew.

"Bobol annwyl," meddai, "rhaid i ni adeiladu cwt i'n cadw'n ddiddos rhag y tywydd."

"Dyna syniad da," meddai'r llew gan feddwl ei fod wedi cael gwas gweithgar, "beth am i ni ddechrau ar unwaith."

RECORDIAU NEWYDD Y NADOLIG

* **TREBOR EDWARDS** – "Ychydig Hedd". Y record orau eto gan ganwr mwyaf poblogaidd Cymru.
* **TELYN CYMRU 5** – Partïon Llangwm, Cymerau, Merched y Garth a Tregarth, Ieuan ap Siôn, Geraint a Mayda a Triawd Dyfi.
* **DOREEN LEWIS** – "Galw mae 'Nghalon"
* **AIL SYMUDIAD** – "Sefyll ar y Sgwâr" – eu record hir gyntaf wych!
* **"CWLWM PEDWAR"** – Bwchadanas, Mabsant, Penderyn a Seithenyn
* **CLWT Y DDAWNS 3** – Rhagor o alawon dawns Cymreig
* **CÔR MEIBION Y BRYTHONIAID A BAND LLANEURGAIN**
* **TOM EVANS (TWM GWANAS)** – "Ar ryw Noswaith Hyfryd"
* **TEULU HAFOD-Y-GÂN** – Doniau'r teulu enwog o Bwll-Glas
* **"SESIYNAU SOSBAN"** – Urien, Anghenfil, Newyddion, Eliffant, Derec Brown a'r Racaracwyr, Sian Wheway, Canna, Rocyn, Maffia Mr Huws, Angylion Stanli – i gyd ar un record!

COFIWCH HEFYD "SÊL SAIN" – 43 o deitlau hanner pris!

NADOLIG LLAWEN oddi wrth SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON (Llandwrog 831 111)

sain (Recordiau) Cyf.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Ac felly, aeth Tau y Llew a Mutla y Sgwarnog ati o ddifrif i adeiladu cwt o goed a gwair. Bu'r ddau wrthi'n brysur am ddyddiau, ac yr oeddynt bron â gorffen. Ond roedd y sgwarnog bron â llwgu.

"O rydw i eisiau bwyd," meddai. "Mae'r cig yn barod. Beth am i ni ei fwyta cyn iddo oeri?"

"Na," meddai Tau. "Y fi sy'n penderfynu pa bryd y mae'n amser bwyd. Dim ond gwas wyt ti. Fe gawn ni fwyta ar ôl gorffen adeiladu'r tŷ."

Roeddynt wrthi'n gosod y gwair ar tô ar y pryd. Roedd Tau yn dal y gwair yn ei le, a Mutla yn gwnïo'r cwbl i'w le gyda llinyn cryf a nodwydd doi. Mewn chwinciad roedd Mutla wedi gwnïo pawen y llew yn sownd i'r to fel na allai Tau druan symud. Rhuodd y llew mewn tymer, ond ni allai ddianc.

Chwarddodd y sgwarnog a dechreuodd fwyta – "Mae'n ddrwg iawn gen i na fedri di ymuno â ni i fwyta!" Tra'r oedd y llew yn stryffaglio i ddod yn rhydd, gorffennodd y sgwarnog y bwyd i gyd.

Ond ymhen hir a hwyr, torrodd y llinyn oedd yn dal pawen y llew. Neidiodd Tau yn rhydd a rhedeg ar ôl y sgwarnog. Fe'i daliodd wrth ei goes ôl fel yr oedd Mutla yn diflannu i lawr twll yn y ddaear.

Gafaeodd Mutla mewn gwreiddyn rhag cael ei dynnu allan, a gwaeddodd ar Tau. "Chei di byth mohonof allan fel hyn. Rwyt ti'n gafael mewn gwreiddyn, nid yn fy nghoes." Doedd hyn ddim yn wir, wrth gwrs, ond gollyngodd y llew goes Mutla a gafael mewn gwreiddyn. Chwarddodd y sgwarnog a rhedeg ymhellach i mewn i'r twll. Mewn ychydig o amser daeth allan ar hyd twll arall.

"Diolch am fy rhyddhau," meddai, a rhedodd i ffwrdd a'r llew ar ei ôl.

Ond yn fuan daeth Mutla at afon ddofn yn llifo'n gyflym. Nid oedd y sgwarnog yn medru nofio. Gwyddai mai ei unig obaith oedd cyrraedd yr ochr arall. Pan ddaeth Tau ar ei warthaf, dechreuodd Mutla grïo. "O! fy mawrhydi, mae'n ddrwg gen i. Gwnewch unrhyw beth i mi, ond peidiwch â'm taflu i'r ochr arall i'r afon. Mae fy ngelynion pennaf yn byw yno."

Tro'r llew oedd hi i chwerthin rwan. "Ha, ha," meddai, "fe gei di gosb gen i. Fe'th taflaf i ganol gwlad dy elynion!"

Gafaelodd Tau yn y sgwarnog a'i thaflu dros yr afon.

"Diolch yn fawr i ti am adael i mi fynd yn rhydd eto," gwaeddodd Mutla a rhedeg i ffwrdd.

Ond neidiodd Tau ar ddarn o foncyff a nofio ar draws yr afon. Roedd y sgwarnog yn gorffwyso, ac yn chwerthin yn ddistaw wrtho'i hun pan ddaeth y llew o hyd iddo.

"Y tro hwn," meddai Tau, "Rydw i'n mynd i dy fwyta. Rwyt ti wedi cael dy ginio. Mae'n amser bwyd i mi rwan."

Doedd dim gobaith gan y sgwarnog. Wyddai o ddim beth i'w wneud. Ond yna, gwelodd haid o wenyn yn hongian ar goeden uwchben y llew. Meddyliodd yn gyflym.

"Rwyt ti'n iawn, o frenin!" meddai. "Rydw i'n haeddu cael fy mwyta. Ond paid ag anghofio gofyn gras bwyd cyn fy mwyta!"

Rhoddodd y llew ei ddwy bawen dros ei lygaid am ennyd, ac yr oedd hynny'n ddigon i'r sgwarnog. Gafaelodd mewn brigyn a'i daflu i ganol yr haid gwenyn. Disgynnodd y gwenyn yn un haid swnllyd, flin i chwilio am rywun i'w bigo. Roedd Mutla wedi diflannu, ond roedd Tau druan yn parhau i sefyll yno â'i bawenau dros ei lygaid. Cafodd ei bigo'n frwnt, ac yr oedd yn fwy penderfynol nag erioed i ddal y sgwarnog.

Daeth ei gyfle tuag wythnos yn ddiweddarach pan welodd y sgwarnog yn cysgu yng nghysgod craig fawr. Sleifiodd y llew yn ddistaw tuag at y sgwarnog, ond roedd Mutla'n rhy gyflym. Neidiodd y sgwarnog ar ei thraed a gwthio'n erbyn y graig gan weiddi "Brysia, brysia, mae'r graig bron â disgyn. Helpa fi i'w dal neu fel gawn ill dau ein lladd!"

Ac wrth gwrs, rhoddodd y llew gwirion ei ddwy bawen fawr yn erbyn y graig a gwthio.

"Paid â gollwng, paid â gollwng," gwaeddodd y sgwarnog, gan droi a rhedeg i ffwrdd. "Rwy'n mynd i chwilio am help."

Safodd y llew yn gwthio'n erbyn y graig am amser hir cyn sylweddoli fod y sgwarnog wedi chwarae tric arno unwaith eto. Ond y tro hwn roedd Mutla wedi rhedeg yn bell, bell i ffwrdd, ac ni welodd Tau y Llew mohoni byth wedyn.



Y mis nesaf: Bydd casgliad o bosau a difyrion ar gyfer rhifyn y Nadolig, ond bydd y dudalen ganol yn ôl i'w phatrwm arferol ar ddechrau'r flwyddyn.

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

Welsh Development Agency

CREIRIAU DIDDOROL

Nos Fawrth, Hydref 26 cynhaliwyd noson ddiddorol iawn gan Mr Humphreys yng Nghymdeithas Undebol Pontrhythallt, Hermon, Bryngwyn a Thanycoed. Brodor o Danycoed yw Mr Humphreys, ac y mae bellach wedi ymddeol o'i waith fel prif fecanydd i gwmni Crosville. Yn ei amser hamdden mae wrth ei fodd yn gwneud modelau sy'n gweithio, ac yr oedd nifer ohonynt yn cael eu harddangos yn Festri Pontrhythallt y noson honno.

Mae'r beic shafft yn dyddio o 1898 ac yn un o nifer bychan iawn sy'n parhau ar ôl yn y wlad. Bu Mr Humphreys yn reidio'r beic i'w waith am 15 mlynedd.



Roedd ganddo fodel hefyd o'r Felin Isaf, Glan Conwy, melin sy'n dyddio o 1749. Roedd y model yn fanwl gywir, a hyd yn oed dŵr yn troi'r olwyn a bagiau yn cael eu codi o'r llawr cyntaf i'r ail lawr gyda sustem pwli.

Mae'n amlwg fod llawer o'r darllenwyr wedi gweld bws 'torri i lawr' Crosville – yn cael ei ddefnyddio i drwsio bysus neu i'w tynnu'n ôl i'r garej. Mr Humphreys oedd yn gyfrifol am gynllunio'r bws hwnnw, ac yr oedd yn gymaint llwyddiant fel y derbyniodd archebion am nifer o rai eraill i wahanol ganolfannau bwsiau yng Ngogledd Cymru. Yn naturiol, gwnaeth fodel bychan o'r bws, a hwnnw o fesuriadau union. Cymerodd y gwaith o adeiladu'r model cywrain hwn flwyddyn o amser iddo i'w gwblhau.

Ymhlith modelau a chreiriau eraill a ddangosai roedd cloc wedi ei wneud o ddarnau o hen stôf a rheiliau dal carped grisiau.

Sgwn i a oes unrhyw gymdeithas arall yn ardal yr 'Eco' gyda noson mor ddiddorol i edrych ymlaen ati yn ystod y gaeaf hwn. Os oes, anfonwch air.

NOA

Cynhyrchiad Theatr Cymru

Mae arch Noa yn dod! Ond peidiwch â phoeni, nid yw'r byd ar ben ar waetha'r ffaith nad oes gan Theatr Cymru ei bantomeim arferol eleni.

Yn lle'r pantomeim dewisodd Emily Davies, Cyfarwyddwr Artistig y Cwmni, gynhyrchiad sydd yr un mor fywiog, yr un mor lliwgar a'r un mor ddoniol. Bydd **Noa**, cyfaddasiad W.O. Roberts o ddrama enwog y Ffrancwr André Obey, cyn debyced â dim i bantomeim ac yn llawn cymaint o sbri.

Bydd **Noa** yn gyflwyniad cyfoes a ffres, gyda dawns a meim ac yn llawn ffraethineb. Bydd ynddo hefyd gyffyrddiadau dwysach na'i gilydd ond yn anad dim drama'n llawn hwyl fydd **Noa**, yn ddifyrrwch tymhorol i'r teulu cyfan ac yn ddrama y gall pawb o bob oed ei mwynhau a'i gwerthfawrogi.

Yn wahanol i bantomeim y Cwmni mae **Noa** yn seiliedig ar stori gyfarwydd ac adnabyddus, un y dilyw o'r Hen Destament. Bydd ganddo apêl ehangach o'r herwydd, yn enwedig ymysg y rhai hynny nad ydynt yn mwynhau pantomeim.

Dewch yn ddau a dau, felly, i weld Dafydd Hywel fel Noa, Eirlys Parri, y gantores, fel Mrs Noa ac actorion llawn amser y Cwmni – Alun ap Brinley, Nia Caron, Richard Elfyn, Geraint Lewis, Betsan Llwyd, Rhian Morgan ac Ynyr Williams – fel y *plant a'r anifeiliaid yn y cynhyrchiad* lliwgar, llawen yma. Daw Eirlys Parri i chwarae rhan Mrs Noa wedi i Marged Esli orfod tynnu'n ôl ar gyngor meddygol.

Perfformiadau rhwng Mercher 29 Rhagfyr a Sadwrn 8 Ionawr, 2.00 a 7.00 o'r gloch. (Ac eithrio 7.00 ar 31 Rhagfyr; 2-3 Ionawr – dim perfformiadau). Am ragor o fanylion ffoniwch Bangor 51708.

Y COFIO

YN LLANBERIS



Y Gwasanaeth Coffa wrth y gofeb yn Llanberis. Sul 14 Tachwedd. Gweler manylion yng ngholofnau newyddion Llanberis.

LLANRUG AR Y BRIG – DDWYWAITH

Enillodd seindorf Llanrug ddwy brif wobr mewn cystadleuaeth i fandiau pres Gogledd Cymru yn *ddiweddar. Daethant yn gyntaf allan o saith yn Adran C ac yn gyntaf allan o bedwar yn Adran B yn ystod Rali* Flynyddol Bandiau Pres y Gogledd a gynhaliwyd yng ngholeg Kelsterton, Cei Connah ddydd Sadwrn 28 Tachwedd.

Daeth seindorf Deiniolen yn ail yn Adran B. Dyma'n wir brofi grym a dawn bro'r Eco ym myd y chwythu! Llongyfarchiadau hogia.

Y DELYN AR DAITH

Yn ystod pythefnos gyntaf Rhagfyr, bydd un o arddangosfeydd teithiol Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, Caeerdydd ar 'Hanes y Delyn yng Nghymru wedi 1700' i'w gweld yn Llyfrgell y Celfyddydau, C.P.G.C. Bangor.

Estynnir gwahoddiad cynnes i unrhyw un i ymweld â'r Llyfrgell rhwng 9.00am a 5.00pm bob dydd ac i werthfawrogi'r amrywiaeth o luniau a darluniau, a'r stôr o wybodaeth am dwf a phoblogrwydd y delyn a'r telynor yng Nghymru yn ystod y canrifoedd a aeth heibio.

Yn ogystal â hyn, gwelir enghreifftiau o Grwth a Phibgorn Cymreig yn yr arddangosfa – y naill a'r llall, ar un adeg, yn rhan annatod o draddodiad cerddorol cynnar ein gwlad.

Afraid yw dweud mai braint y Brifysgol yw croesawu arddangosfa o'r fath, a hyderir y bydd y cyhoedd yn elwa o'i chael yn y cyffiniau am gyfnod. (Benthyciwyd y deunydd gan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd mewn cydweithrediad ag Adran Gerdd, C.P.G.C., Bangor.)

CROESAIR

Mae Cyhoeddiadau Mei, Penygroes, Caernarfon yn cynnig £10 o wobr i'r cyntaf fedr gwblhau y croesair isod, erbyn IONAWR 10, 1983 hefyd gopi rhad ac am ddim o'r llyfr "50 O GROESEIRIAU" gan William Jones, i'r deg ateb cywir nesaf ato.



AR DRAWS:

1. Baril fechan (4)
3. Anafus (4)
7. Partner i'r llewpart (3)
10. Anifeiliaid y sonir amdanynt yn Llyfr y Brenhinoedd (7)
13. Enyniad (3)
16. Canlyniadau ystyfnigrwydd hen Pharaoh (4)
17. Yr unrhyw elfennau â 16 a diau y cytunai Adda fod sŵn cosb ynddo (4)

I LAWR:

1. Cynnyrch gwenyn (4)
2. Hanner tôn yn uwch na 4 i lawr (2)
4. Hanner tôn yn is na 2 i lawr (2)
5. Penrhyn adnabyddus (4)
6. Disgrifiad o Gymru a'r Alban (7)
8. Un o'r 10 ar draws (3)
9. Er i Ceredigion ei 'hawlio' ni raid i ni fynd yno i'w fwynhau (3)
11. Gwybodaeth brin (4)
12. Gwirioni
14. Eiddo'r gŵr goludog (2)
15. Bwyd Daniel.

O BANTRI BETH

Dim ond mis i fynd cyn y Nadolig a'i rhuthr. Yr wyf wedi gwneud y deisen yn barod a mi es ati heddiw i chwilio am risetiau pwdin a phenderfynu eu rhannu â chi. Rhaid i mi gofio wrth eu hail gynhesu fod tipyn mwy gofalus na'r Sadwrn diwetha'. Mi losges i bwdin Mrs Peek yn ulw – sut medde chi – wel ei roi yn fy mhopty microwave am wyth munud! Roedd y ffrwyth i gyd yn ddigon caled i'w defnyddio fel pelets dryll!

Ta waeth, digon am hynny – (os oes gynnoch bopty fel fy un i, mae dwy funud o ail gynhesu'n ddigon!)

Byddaf yn gwneud dau fath o bwdin bob Nadolig ac erbyn diwedd yr erthygl mi fyddwch yn gwybod pam!

Pwdin Mam-gu

½ pwys o flawd plaen
½ pwys o siwet
½ pwys o friwsion bara
½ pwys o sultanas
½ pwys o siwgr
1 pwys o gwrens
2 owns o blisg cymysg
2 wy
½ llond llwy de o halen
½ llond llwy de o sbeis

Cymysgwch y cynhwysion sych gyda'i gilydd. Ychwanegwch yr wyau a chymysgu'n dda.

Llenwch y basnau i'r top. Eu gorchuddio fel arfer a'u berwi am bedair awr.

Pwdin Nain

2 gwpaned o flawd codi
1 cwpaned o friwsion bara
1 cwpaned o siwet
1 cwpaned o siwgr
1 cwpaned o gwrens
1 cwpaned o sultanas
1 cwpaned o raisins
1 moronsen wedi ei gratio
1 afal wedi ei ratio
pinsied o halen
llond llwy fwrdd o driog
2 wy

Rhowch pob peth mewn desg fawr a'u cymysgu'n dda.

Llenwch y basinau ond ddim i'r top a'u berwi am 4 awr.

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH

WELDING & FABRICATING

32 GLANFFYNNON

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

DIOLCH I WEITHWYR FFYDDLON

Dyma lun Mrs Betty Ellis, Llanberis a Miss Selina Morris, Nant Peris yn ystod seremoni arbennig a gynhaliwyd yng Ngwesty Victoria, Llanberis nos Lun, Tachwedd 1af i'w hanrhegu ar achlysur eu hymddeoliad ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i Gwmni Rheilffordd yr Wyddfa. Roedd Mrs Ellis yn ymddeol ar ôl 50 o flynyddoedd yng Ngwesty Victoria ar ddechrau ei gyrfa, ac wedyn gyda Chwmni'r Lein, a Miss Morris ar ôl 22 o flynyddoedd gyda chwmni'r Lein. Derbyniasant glociau fel rhodd gan eu cydweithwyr. Cyflwynodd Mrs Clifford Williams flodau iddynt ar ran Mr a Mrs Ninian Davies oedd yn methu â bod yn bresennol, a chyflwynwyd anrheg iddynt ar ran Cyfarwyddwyr y Cwmni gan Mr Dereck Rodgerson (Rheolwr Cyffredinol).

GWASANAETHAU'R NADOLIG
Ym mhwlyfi Penisarwaun a Llandinoriwg

Eglwys Crist Llandinorwig, Dydd Sul, Rhagfyr 19:
10.30 Cymun Bendigaid
5.30 Gwasanaeth Carolau Undebol yn Ebeneser
Dydd Nadolig:
10.30 Cymun Bendigaid (dwyieithog)
Dydd Sul, 26 Rhagfyr
6.00 Gwasanaeth 'Christingle' i Ysgolion Sul Deiniolen. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys St Mair Dinorwig
Rhagfyr 16
7.00 Noson o Garolau dan nawdd Gymdeithas Dinorwig
Y Parch Ifor L. Williams fydd yn gofalu am y noson
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, 19 Rhagfyr
9.30 Cymun Bendigaid
4.30 Gwasanaeth y Plant
Dydd Nadolgi
9.30 Cymun Bendigaid
Dydd Sul, 26 Rhagfyr
9.30 Cymun Bendigaid

Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun:
Dydd Sul, 19 Rhagfyr
10.30 Boreol Weddi
3.00 Gwasanaeth 'Christingle' y plant. Croeso cynnes i bawb.
Nos Wener, 24 Rhagfyr
11.30 Cymun Bendigaid (dwyieithog)
Dydd Sul, Rhagfyr 26
10.30 Cymun Bendigaid
Cymraeg fydd iaith pob gwasanaeth, oni nodir yn wahanol.

Y Parch Aled Edwards, B.A., Ficer Llandinorwig a Phenisarwaun.

APÊL AM DENORIAID

Y mae Côr Bro Infryn yn chwilio am denoriaid. Yn anffodus nid dyma'r unig gôr lleol sy'n dioddef y diffyg yma. Am ryw reswm mae tenoriaid yn brin, h.y. tenoriaid sy'n barod i ymaelodi â chôr. Y mae, wrth gwrs, lawer sy'n gallu canu tenor yn yr ardal ond am ryw reswm nid oes ganddynt lawer o ddiddordeb mewn ymuno â chôr. Nid dyma'r sefyllfa efo'r baswyr – nid ydynt hwy mor swil â'u brodyr sy'n canu'r nodau uwch.

Dywedodd James Griffiths, arweinydd Côr Bro Infryn, "y mae dros ddeugain o aelodau yn y côr a'r lleisiau wedi eu dosbarthu'n bur dda rhwng y sopranos, altos a bas, ond yn anffodus mae'r tenoriaid yn wan iawn – dim ond criw bychan ffyddlon yn ymladd yn ddewr yn erbyn y lleill."

Felly mae Côr Bro Infryn yn gwneud ymgyrch i geisio cael tenoriaid. Dylai unrhyw denor sy'n awyddus i ymuno â'r côr dod i ysgol LLANDEGAI ar unrhyw nos Iau am chwarter wedi saith neu ffonio'r arweinydd BANGOR 52966. Fel y dywedodd yr arweinydd nid yw'n bosib gwneud llawer heb denoriaid er i'r lleisiau eraill fod yn dda ac yn niferus. Y mae'r côr wedi cael cynnig taith i'r cyfandir ond mae'n rhaid wrth y tenoriaid cyn y gellir derbyn y sialens honno.

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAIS

Gwasanaeth newydd yn dechrau i bobl y fro ar 4ydd o Ionawr, 1983
Chwarter canrif o brofiad

Robert Jones a'r cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,
PENYGROES
Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris
Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau, Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar gyfer pawb

ASIANTAETH LEOL CYMDEITHAS ADEILADU'R HALIFAX

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Yn un o rifynnau diweddar o'r 'Eco' mae sôn am y syrcas gyntaf yn cyrraedd Deiniolen. Mae'n bosibl mai'r 'Boorn Great Russian Circus' oedd hon, a dyma'r gyntaf erioed i ymweld â'r pentref. Ond roedd syrcas, milfodfa ac arddangosfeydd eisoes wedi ymweld â Llanberis rai blynyddoedd ynghynt, felly doedd syrcas ddim yn beth newydd hollol yn ardal yr 'Eco'.

Mae'n debyg mai'r gyntaf erioed i ymweld â Llanberis oedd arddangosfa yn ystod haf 1839. Roedd un cerbyd yn yr arddangosfa a hwnnw'n cael ei dynnu gan geffyl. O fewn y cerbyd roedd model o long ager yn suddo.

Ym mis Ebrill 1844 y daeth yr ail arddangosfa i Lanberis. Un cerbyd oedd yn perthyn i hon hefyd, ond y tro hwn roedd dau o geffylau, un ferlen a mochyn. Diddorol fyddai cael gwybod beth yn hollol a ddigwyddai mewn syrcas o'r fath. Roedd mynediad i'w gweld yn costio ceiniog yr un, ac yr oedd yn cael ei chynnal ar iard yng nghefn gwesty Dolbadarn.

Ym mis Gorffennaf 1865 daeth arddangosfa arall i Lanberis, a'r enw y tro hwn oedd 'syrcas'. Cynhwysai bedwar o gerbydau, saith ceffyl a thri asyn.

Bedair blynedd yn ddiweddarach daeth 'milfodfa' yno, ac yn ôl yr hanes, roedd hwch ynddi'n pwyso tunnell ac wyth gant.

Ymddengys i 1871 fod yn brysur iawn yn hanes pentref Llanberis oherwydd daeth dwy arddangosfa neu syrcas i'r pentref o fewn mis i'w gilydd. Ar ddechrau Mehefin daeth 'Arddangosfa Fwystfilod' yno. Roedd ugain o gerbydau ynddi, bron i hanner cant o geffylau a tua deugain o weithwyr a pherfformwyr. Ar ddiwedd Mehefin daeth syrcas neu arddangosfa fwy i'r pentref, a hon a ymwelodd yn ddiweddarach â phentref Deiniolen.

Tybed am ba hyd y bu 'arddangosfeydd' neu 'syrcas' o'r fath yn ymweld ag ardal yr 'Eco'? A thybed a oedd cysylltiad rhyngddynt â'r ffeiriau a ddoi i'r ardal weithiau yn sgîl Ffair Nant? Diddorol fyddai clywed eich sylwadau neu eich atgofion am rai o ffeiriau cynnar yn yr ardal.

* * *

Diolch i'r un a ffoniodd ynglŷn â'r bedd od ym mynwent Llanrug. Yn anffodus ni adawodd ei enw na'i rif ffôn, ond roedd yn awgrymu yn y sgwrs na ddylai bedd o'r fath fod mewn claddfa Gristnogol. Byddwn yn falch o glywed gennych eto, neu anfonwch air yn egluro'r cerfiadau ar y bedd.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983

ANRHEGION NADOLIG AR GYFER PAWB!

•Crysau Chwys i Oedolion £7.80 •Crysau T Plant £2.25
•Crysau Chwys i Blant £5.65 •Crysau T Oedolion £3.00

Beiros 20c . Modrwy Allweddi 25c . Bathodynnau 20c Bathodynnau Môn-Sŵn 25c' Siwmperi 100% Acrylic £11.95 . Teis £3.00 Mygiau £1.50 . Poster 'Môn a Menai' £1.25

Record Sengl Môn-Sŵn am ddim ond £1.25!
Ceir bathodyn am ddim efo'r 500 cyntaf a werthir!

Gwnewch rywun yn hapus y Nadolig hwn — prynwch rywbeth o'r pecyn arbennig yma.

Archebwch yn awr oddi wrth
Swyddfa'r Eisteddfod, Y Stâd Ddiwydiannol, Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA. Ffôn Llangefni 724444

LLANRUG

RHAGHYSBYSIAD

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Llanrug ddydd Sadwrn 8 Hydref 1983. Mae'r is-bwyllgorau eisoes wedi paratoi'r testunau a'r cysatdlaethau. Byddwch yn barod am yr hysbysebion!

HAFAN ELAN – Estynnir croeso i Mr Cecil Naylor a gobeithiwn y bydd yn gartrefol a hapus yn ein plith.

Nos Wener, Tachwedd 5 yn y ganolfan cafwyd Noson Lawen yng nghwmni Parti Merched Capel M.C. Llanrug. Llywyddwyd gan y Parch W.O. Roberts a diolchwyd i'r parti gan Mrs D. Jones, y Warden.

YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd Noson Gaws a Gwin yng ngwesty'r Foelas drwy garedigrwydd Mr a Mrs Thomas. Trefnwyd y noson gan Mrs Ann Owen a Mrs Flo Roberts. Roedd yn llwyddiannus gan wneud £44 o elw. Diolchwn hefyd i Mrs Carys Parry a drefnodd y ras feiciau noddedig yn ystod yr haf. Gwnaethpwyd £190. Derbynir plant i'r ysgol yn ddwy a hanner oed.

CLWB BLODAU'R GRUG – Ddydd Iau, Hydref 14 yn y Neuadd Coffa cynhaliwyd Clwb Blodau'r Grug dan lywyddiaeth Mr J. Williams, Gweledfa. Y gŵr gwadd oedd Mr Richard Hughes, Y Felinheli. Cafwyd anerchiad diddorol ganddo ar ddau gymeriad enwog o'r ganrif o'r blaen, ynghyd â straeon diddorol.

Diolchwyd iddo gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn ac ategwyd gan Mrs M.Ll. Williams, Llys Awen.

Croesawyd Mrs W. Edwards, Cilan, Glanffynnon yn aelod newydd i'r Clwb. Dymunwyd yn dda i Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan ar gyrraedd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed ddydd Sul diwethaf. Penderfynwyd rhoddi rhodd tuag at Gronfa'r diweddar Mr Eric Morris, Awelfryn, Tanycoed.

Rhoddwyd y te gan Mrs J. Roberts, Gwyndy, Mrs A. Parry, Bryncoch, Mrs E. Smith, Llechwedd, Mrs E. Jones, Bod Ifor, Mrs Ellis, Dreflan. Enillwyd y raffl oedd yn rhoddedig gan chwiorydd y te gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn.

Ddydd Iau, Tachwedd 11 cynhaliwyd y cyfarfod yn y Neuadd Goffa dan lywyddiaeth Mr J. Williams, Gweledfa. Y wraig wadd oedd Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo. Cafwyd sgwrs ynghyd â sleidiau ar waith cartrefi Dr Barnardo ac am blant anabl a methedig.

Diolchwyd gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan ac ategwyd gan Miss M.G.Roberts, Ganllwyd.

Cydymdeimlwyd â Miss C.J. Roberts, Y Fron a Mrs Williams, Llys Meirion yn eu profedigaeth.

Da deall fod Mrs E. Jones, Bodlondeb gartref ac yn gwella'n foddhaol ar ôl bod yn yr ysbyty. Deëllir fod Mrs Hughes Jones, Sŵn-y-Gwynt wedi cael damwain a thorri ei braich. Dymunir iddi hithau wellhad buan. Rhoddwyd y te gan Mrs Orwig Roberts, Elidir View, Mrs C. Griffith, Fron Ganol, Miss C.I. Roberts, Y Fron. Enillwyr y raffl oedd yn rhoddedig gan chwiorydd y te gan Mrs Inigo Jones, Eilionwy.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Rhagfyr 9 yn yr Ysgol Gynradd cyfafu'r gangen leol o Merched y Wawr. Llywyddwyd gan Ann Llwyd, llywydd y gangen. Croesawyd y wraig wadd, Miss Gwen Jones, a'i llongyfarch ar gael ei hapwyntio yn ddiweddar yn brifathrawes ysgol Cadnant, Conwy.

Testun sgwrs Miss Gwen Jones, oedd Taith Chwe Wythnos yn India. Heblaw sgwrsio'n ddiddorol am ei phrofiadau ar y daith dangosodd Miss Jones luniau o'r gwahanol leoedd yr ymwelodd â hwy.

Diolchodd Mrs Margaret Parry i'r wraig wadd am noson bleserus iawn.

Mrs Mair Hughes ddiolchodd i'r chwiorydd baratodd y baned. Enillydd y raffl oedd Mrs Enid Whiteside Thomas. Llongyfarchodd Ann Llwyd Mrs Ceinwen Roberts ar enedigaeth ŵyr iddi y dydd blaenorol, trydydd mab, a'r pumed plentyn i Mr a Mrs John Parry, Ael-y-bryn, Tan-y-coed. Cyfeiriodd Ann Llwyd at Adroddiad o Bwyllgor yr Anabl – Pwyllgor Rhanbarth Merched y Wawr gyfarfu yng Nghaernarfon Hydref 23 gan dynnu sylw at lwyddiant arbennig o'u heiddo i gasglu arian yn ystod y flwyddyn. Mewn canlyniad i lwyddiant eu hymdrechion bu'n bosibl dosbarthu rhoddion sylweddol i Gartrefi Henoed Arfon, Y Fron Deg a Chanolfan Segontium. Mrs Medwen Lloyd Jones, Pontllyfni llywydd Pwyllgor yr Anabl a merch i Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen a drefnodd ffyrdd i gasglu'r arian.

Cynhelir Parti Nadolig cangen Llanrug yn Ysgol Gynradd Llanrug nos Fawrth Rhagfyr 14. Croeso i holl aelodau'r gangen – mynediad i mewn 50c.

CINIO NADOLIG – Cynhelir cinio Nadolig y pensiynwyr o dan nawdd Pwyllgor y Carnifal nos Lun, Rhagfyr 6 yn yr Ysgol Gynradd.

A wnaiff pawb sydd am ddod nodi eu henwau yn yr amlen sydd yn Llythyrdy, Llanrug a Than-y-coed erbyn dydd Llun, Tachwedd 29 os gwelwch yn dda.

BEDYDD – Bnawn Sul, Hydref 31 yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Awen Haf, merch Richard Gwynfor ac Eryl Mair Humphreys, Rhoslan, Minffordd gyda'r Parch W.O. Roberts yn gweinyddu.

CYMDEITHAS LENYDDOL Y CAPEL MAWR – Agorwyd tymor y Gymdeithas nos Fercher, Hydref 27 gyda chyngerdd gan barti Clychau'r Grug. Llywyddwyd gan lywydd y Gymdeithas, y Parch W.O. Roberts. Cafwyd noson i'w chofio gydag eitemau o safon uchel. Trefnwyd lluniaeth ysgafn i'r parti, a phawb oedd yn bresennol, gan amryw o chwiorydd y Gymdeithas. Cyflwynwyd y diolchiadau gan Mr Emrys Owen, Hafan Elan a Mrs Jane Williams, Bryn Eifion.

Nos Iau, Tachwedd 11 cafwyd noson o Hawl i Holi. Yr holwr oedd Mr Derfel Gruffydd, Prifathro'r Ysgol Gynradd. Aelodau'r panel oedd Mrs Bayliss, Llanberis; Mrs Nansi Lovatt, Brwynog; y Parch Aled Williams, y Rheithordy a Mr Wynford Ellis Owen, Bontnewydd. Llywyddwyd gan Mr John Wyn Owen, Llain Delyn. Bu'n noson ddifyr iawn. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Gwyneth Jones, Stâd Bryn Moelyn a Miss Cassie Roberts, Fron Chwith. Diolchwyd i bawb gan y Parch W.O. Roberts a Mr Gareth Rees Parry, Morannedd.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Nos Iau, Tachwedd 4 cynhaliwyd Noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs M. EVans, Lloc. Anfonwyd cofion at y rhai oedd yn wael gartref ac mewn ysbyty, a diolchwyd am roddion chwiorydd a fethai fod yn bresennol. Dymunwyd yn dda i Mrs Davies, Plas Gwyn sydd yn mynd ar wyliau at ei merch, Carys i Awstralia, ac anfonwyd cofion ati. Gwnaed trefniadau tuag at yr arwerthiant a gynhelir ar Ragfyr 2. Rhoddwyd y coffi gan Mrs J. Williams, Bryn Eifion a Mrs D. Jones, Tegerin. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs Nansi Roberts, Manod.

CYDYMDEIMLWN â Miss Roberts a Mr Glyn Roberts, Y Fron ar farwolaeth eu brawd yng Nghaernarfon.

CROESO ADREF – o'r ysbyty i Mrs Jones, Bodlondeb. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

CAPEL PONTRHYTHALLT – Dymuna aelodau Pwyllgor y Merched ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at eu noson o fyrddau gwerthu yn y Festri, Tachwedd 19. Cafwyd dros £200 tuag at gronfa'r capel.

Y GMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Tachwedd 16 gyda Mr W.A. Jones, Y Dalar Deg yn llywyddu, cafwyd noson arbennig yng nghwmni'r Dr John Gwilym Jones, Y Groeslon yn trafod Llenyddiaeth a Barddoniaeth. Diolchwyd iddo gan y Parch W.O. Roberts.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlir â Mr Glynne Owen, Llys Eryri ar farwolaeth ei chwaer. Hefyd Mrs Griffith, Dolanog wedi colli brawd.

YMWELIAD PLANT TONYREFAIL

Carys Pugh (chwith) a Sion Dafydd Williams (de) ar ran Ysgol Llanrug yn cyfnewid rhoddion â chynrychiolwyr Ysgol Tonyrefail.

"Be wyt 'isho ar dy greision Berian? . . . llefrith"

"Nage . . . llaeth os gwelwch yn dda"

Dyna sut y datblygodd sgwrs ar fwrdd brecwast cynnar un aelwyd yn Llanrug ddiwedd Hydref, ac mae'n siŵr fod sawl sgwrs gyffelyb wedi ei thorri yma ac acw yn y pentref yr un bore. Y rheswm oedd, wrth gwrs, bod tri ar hugain o blant Ysgol Gymraeg Tonyrefail wedi cyrraedd i dreulio tridiau ym mro yr Eco.

Pan gyrhaeddodd y plant a'u hathrawon roedd cryn gynnwrf yn enwedig pan ddaeth yn amser cyfarfod y 'teuluoedd' newydd. "M..M..Mr Morris mae'r mamau yn shârad Cymrâg hefyd!" meddai un mewn syndod.

Pwrpas gwreiddiol yr ymweliad oedd cael chwarae dwy gêm bêl-droed a phêl-rwyd yn erbyn ysgolion Llanrug a Bontnewydd. Canlyniadau perffaith i'r bechgyn – dwy gêm gyfartal; colli fu hanes y genethod yn Bontnewydd ond rhoddwyd crasfa i Lanrug.

Cafodd y plant gyfle i ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol drwy forio canu gyda Edward Morris Jones yng nghyfarfod yr Urdd. Bore Mercher roedd dagrau ar fin llifo – a diwrnod i fynd. Cynhaliwyd y gwasanaeth boreol gan blant Tonyrefail, ac yn wir roedd pawb dan deimlad wrth glywed acen mor ddieithr ac mor hynod o dlws yn tarfu ar y tawelwch.

Ar ddiwedd yr ymweliad daeth un ffaith yn eglur, nid y gemau pêl droed a phêl rwyd oedd yn nodweddiadol o'r fenter, nid hyd yn oed yr hwyl a'r sbri a gafwyd, ond rhywbeth llawer mwy gwerthfawr. Roedd criw o blant gyda'r Gymraeg yn ail iaith iddynt, wedi treulio tridiau mewn awyrgylch hollol Gymreig ac wedi ymdrechu i siarad pob gair yn Gymraeg – gwyn eu byd a mawr eu clod.

Diolch o galon i bob rhiant a agorodd eu drysau led-pen i'r plant, hebddoch fe fyddai'r fenter yn dal i fod yn ddim ond syniad. Gyda lwc, fe gaiff rhai o blant Llanrug y cyfle i dywallt LLEFRITH ar eu creision ŷd yn Nhonyrefail rywbryd yn y flwyddyn newydd.

Brysiwch!
Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch
CYW IÂR
a PHOB MATH O GIGOEDD ERAILL
YN AWR
gan
Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau a dewch atom ni!

Cyfarchion Nadolig o

DDEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU

Ffôn: Llanberis 870545

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

(Mr a Mrs)

JACOB A. JAMES

Regent House

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870461

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau

CREFFT·ELLDIR

SIOP AMAN Stryd Fawr
DEINIOLEN *Ffôn: Llanberis 871201*

Mae'r siop yn awr ar ei hail flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu

---

Am ddewis da o anrhegion Nadolig i bawb o'r teulu

SIOP HELEN DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870386

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD DDA
i chi oll

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

BOB A RUTH PHILLIPS

WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus — chwerw ar ei orau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

THOMAS & JONES
Gwydrwyr

YR HEN SINEMA
STRYD FAWR
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870680 neu 870486

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr.
Gwydro Dwbl. Drysau patio. Awyrwyr Xpelair.

Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.

DYMUNA CLARICE, ERYL, JOHN a STAFF Y

BULL INN

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i gwsmeriaid a chyfeillion oll

CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM 1983

oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

Tafarn Datws Arfonia

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CLOG

OFFER DRINGO
A DIOGELWCH

CLOGWYN
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis
870551 neu 870816

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB
oddi wrth
CLIFFORD, DIANA A NIA

Swyddfa'r Post
DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 870283

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

D & G Hughes

a genod

SIOP BAPUR NEWYDD

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870483

NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA i chwi oll

oddi wrth

W.H.Jones

CIGYDD

WAENGOCH
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870638

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

Mr a Mrs

BRYTHON JONES

LLYTHYRDY
CLWT Y BONT
Ffôn: Llanberis
870325

Mae Joan a Derek Tavener

GAREJ RHIWEN

DEINIOLEN

yn dymuno Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda i'w
cwsmeriaid hen a newydd

DEINIOLEN

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan nos Fercher, Rhagfyr 8, 1982 am 8 o'r gloch. Taer erfynnir am eich presenoldeb. Gobeithio y dangoswch eich diddordeb yn y Ganolfan ar ôl amser maith o weithio caled gan amryw o bobl pentref Deiniolen ac eraill.

Y GANOLFAN – Bydd Gyrfa Chwist fawr yn cael ei chynnal nos Wener, Rhagfyr 17 am 7.30 o'r gloch. Bydd amryw o wobrau i'w tynnu y noson yma, ac hefyd y Raffl Fawr Nadolig sydd yn mynd oddi amgylch y pentref gan aelodau'r pwyllgor. Mynediad i mewn ar y noson fydd 50c. A gaf apelio am eich cefnogaeth er mwyn gwneud y noson yn llwyddiannus i ni fel ardalwyr ac er mwyn hybu gwaith y pwyllgor sydd yn ceisio rhedeg y Ganolfan.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn ystafell y seindorf yn ddiweddar. Ychydig oedd yn bresennol. Amlinellwyd y gweithgareddau a drefnwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a diolchodd y cadeirydd i Miss Mair Rees Jones am ein gwaith fel trysorydd ac i Mr Barry Lloyd Jones am ei waith caled fel ysgrifennydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyfarfu aelodau'r pwyllgor newydd nos Fawrth, Hydref 26 pryd yr etholwyd swyddogion sef Mr Gwyn Parry (cadeirydd), Mrs Hannah Roberts (ysgrifenyddes) a Miss Mair Rees Jones (trysorydd). Aelodau'r pwyllgor – Mrs Jina Keller, Mrs Gladys Jones, Mr John Jones, Miss Kathleen Jones, Mrs Megan Morris, Mrs Susan Skillicorn, Mrs Eirlys Williams. Caiff y gangen ei chynrychioli gan nifer o'i haelodau yn y gynhadledd yn Llandudno ddiwedd y mis.

Enillwyd Clwb Cant mis Hydref oedd £10: Rhif 7, Mr Ifan Williams, 12 Ffordd Deiniol; £8.50: Rhif 14, Mrs Meira Jones, 1 Pentre Helen.

CYFARCHION NADOLIG – Dymuna Mrs Annie Mary Morris, 4 Marian Terrace ddymuno Nadolig Llawen i'w theulu oll, ac i'w ffrindiau. Pob dymuniad da iddynt dros yr Ŵyl gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Er cof am Edwin Jones Williams, 25 Rhydfadog:

O mor arw yw'r ymddatod.
Pan fo'r angau wrth ei waith.
Ond mwy anodd yw ffarwelio
Â chyfeillion ar ein taith.
Wele eto ŵr amryddawn
Wedi cilio dros y ffin
Gadael hinsawdd oer y ddaear
I dawelwch nefol hin.

Diolch am ei gwmni diddan
Ar ein taith o ddydd i ddydd
Diolch am ei hiwmor hyfryd
A melyster tlws ei ffydd,
Doniau'r nef fu iddo'n gysur
Gyda'r gân ym Maes y Dref
I'r hen gapel bach bu'n ffyddlon
Ac yn gadarn golofn gref.

Ar y tir ac yn y chwarel
Treuliodd flwyddi dedwydd llon,
Rhoes o'i dalent a'i ymroddiad
Yn y fro anwylaf hon,
Gŵr a garai drefn rhagluniaeth,
A diwydrwydd maes a dôl
A bydd ffrwyth ei ddyfal ddwylo
Eto'n aros ar ei ôl.

Cyrraedd wnaeth addewid einioes,
Hyd at gryfder blwyddi'r llawr,
Rhoes ei oes, ei gân a'i foliant
Ar allorau'r Brenin mawr,
Ym mro dawel Capel Seion
Bu yn treulio bore oes
O dan ofal rhiant tyner
Oedd â'u ffydd yng Ngŵr y Groes.

Yn Neiniolen hir y cofier
am ei gymwynasau lu,
Ar ei yrfa ddiwyd dyddiol
Serchog oedd o dŷ i dŷ,
Boed i'w briod hoff a'r teulu
Ran o'r ffydd a'i daliodd ef,
Nes cawn eto gydgyfarfod
Wedi'r olaf daith i'r Nef.

John David Evans,
Maes y Dref,
Clwt-y-bont,
Deiniolen.

CYFARFOD CRISTIONOGOL – Nos Lun Tachwedd 8 cafwyd cyfarfod Cristionogol yn Festri Cefn-y-Waen. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Trevor Lewis a chafwyd y rhan arweiniaeth gan aelodau o Gapel Disgwylfa, deuawd gan ddwy chwaer o Eglwys Llandinorwig, Parti Canu o Libanus Clwb-y-bont, Parti Cydadrodd o Libanus, Darlleniad gan gynrychiolydd Eglwys Llandinorwig, Parti Canu o Gapel Ebenezer a Darlleniad gan ddwy chwaer o Gapel Cefn-y-waen. Terfynwyd y gwasanaeth gan y Ficer, y Parch Aled Edwards.

DYWEDDÏAD – Cyhoeddir dyweddïad Kevin, mab Mr a Mrs Arthur Wynne Rowlands, 17 Rhydfadog a Geurwen, merch Mr a Mrs H. Griffiths, Llainwen, Llanberis. Pob dymuniad da oddi wrth y ddau deulu.

80 OED – Dymuna Mr Dei Jones, 9 Pentre Helen ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a rhoddion a dderbyniodd oddi wrth y teulu, ffrindiau a'i gymdogion a'r dymuniadau da ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed. Diolch yn fawr i bawb.

PÊL-DROED – Clwb Ieuenctid. Gêm Bingo Fawr y Nadolig nos Wener, Rhagfyr 10 yn Ysgol Gwaun Gynfi. Drysau'n agor am 7 o'r gloch i ddechrau am 7.30 p.m. Dowch yn llu – mae gwobrau ardderchog.

MAJORETTES DEINIOLEN – Ychydig wythnosau'n ôl fe sefydlwyd Parti Majorettes yn y pentref. Mae tua 50 o enethod rhwng 4 a 15 oed yn ymarfer bob wythnos. Fe godwyd pwyllgor fel a ganlyn: Cadeirydd, Mrs Moureen Evans, Is-gadeirydd, Mrs Margaret Ford, Ysgrifennydd, Mrs Joyce Jones, Is-ysgrifennydd, Mrs Hilda Parry, Trysorydd, Mrs Diana Price, Is-drysorydd, Mrs Nesta Taylor, Gohebydd, Mrs Valmai P. Williams. Pwyllgor – Mrs Hilda Saynor, Mrs Elan Williams, Mrs C. Evans, Mrs Barbara Griffith. Cynhaliwyd Awr Ddistaw gan y plant yn ddiweddar a hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r Parch Trefor Lewis am eu cynorthwyo ac i bawb am eu noddi. Mi fydd angen llawer iawn o arian cyn yr haf i gael dillad ac yn y blaen i'r plant ar y fenter newydd yma.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DEINIOLEN – Nos Lun, Hydref 25 dan lywyddiaeth Mrs Jane Jones, Heol Newydd, cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr yn dangos sleidiau o'i gwyliau yn Awstralia. Talwyd y diolchiadau gan y Parch Trefor Lewis a Mr Gwyn Parry. Y swyddogion am y tymor – Llywydd, Mrs Jane Jones, Ysgrifennydd, Mrs M.C. Jones, Trysorydd, Mrs Betty W. Davies. Dymuna Tommy a Kathleen, Prenteg ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Auntie Kate, Foel Gron, Dinorwig fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 85 oed ar Ragfyr 11.

CLWB ELIDIR – Cynhaliwyd yr uchod yn y clinig ddydd Mawrth, Tachwedd 9 dan lywyddiaeth Mrs C. Marren. Y gŵr gwadd oedd ficer newydd Llandinorwig a St Mair, y Parch Aled Edwards. Estynnodd y llywydd groeso cynnes i Mr Edwards i'n plith. Bu'n siarad ar y testun Alcoholiaeth. Rhoddwyd y te gan y Parch a Mrs Tevor Lewis. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jennie Williams, 14 Tai Caradog ac fe'i enillwyd gan Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen. Dymunwyd pen-blwydd hapus hefyd i Mrs Evans, 6 Tai Caradog oedd yn 80. Croesawyd Mrs M. Foulkes Williams, 46 Pentre Helen yn ôl ar ôl ei gwaeledd. Diolchwyd i'r Ficer gan y llywydd.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Ganolfan nos Lun, Tachwedd 15. Y llywydd oedd Mrs Miriam Lewis ac estynnodd groeso cynnes i'r wraig wadd sef Mrs Gwenda Smith, Llanfairfechan a oedd wedi dod i'r cyfarfod i ddweud yr hanes trwy gyfrwng sgwrs ar ffilm o'i hymweliad â Rwsia. Mwynhaodd yr aelodau y noson yn fawr iawn. Diolchodd Mrs Dilys Hughes ar ran yr aelodau. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan Morris a Mrs Medwen Griffiths, Dinorwig. Dymuna'r aelodau ddiolch hefyd i Mrs Gladys Evans, Sŵn yr Awel, Gallt y Foel am ei rhodd i bwyllgor Merched y Wawr. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan y chwiorydd a oedd yn rhoi'r te, gan Mrs Gladys Jones, Tŷ Capel Libanus. Etholwyd Mrs Trevor Lewis ar bwyllgor y Ganolfan. Mynegwyd ein cydymdeimlad â'r llywydd ar golli ei modryb yn sir Fôn. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Rhagfyr 20 pryd y cynhelir Parti Nadolig.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn y cyfarfod mis Hydref cafwyd noson hynod o ddifyr gydag un o'n haelodau, sef Miss Moeller, Clwt-y-bont. Rhoddodd gipdrem yn ôl i ni ar ei theithiau trwy wahanol rannau o'r byd trwy ddefnyddio tryloywderau. Diolchwyd i Miss Moeller gan Mrs Nancy Rowlands. Darllenwyd y llythyr misol gan y llywydd, Mrs Eirlys Williams, a'r cofnodion gan yr ysgrifenyddes Mrs B.W. Davies. Gwestwragedd y te oedd Mrs Eileen Jones a Mrs Eirian Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, Y Bwthyn.

CYFARFOD MIS TACHWEDD – Llywyddwyd y cyfarfod gan yr Is-lywydd, Mrs Rita Jones, Becws. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr W.J. Eames, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi. Ei destun oedd 'Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-bont' sef cymhariaeth o'r gwahanol agweddau oedd yn perthyn iddynt. Diolchwyd i Mr Eames gan Mrs Nancy Rowlands ac fe roddwyd y te ganddi hi a Miss Beti Williams. Enillwyr y raffl oedd Mrs Rita Jones, Y Becws a Miss Kathleen Jones. Bydd ein cyfarfod blynyddol nos Lun, Rhagfyr 6. Y V.C.O. fydd Mrs Vera Hughes, Bethesda. Taer erfynnir am bresenoldeb yr holl aelodau, gan fod llwyddiant y flwyddyn nesaf yn dibynnu'n helaeth iawn ar y noson yma. Dewch er mwyn dangos eich gwerthfawrogiad o'r nosweithiau difyr a dreuliasom yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bydd y Cinio Nadolig yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis Rahgfyr 16. Enwau i law: **Mrs Marian Williams, Ffordd Deiniol,** os gwelwch yn dda.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Moeller ar ddod yn 4ydd am soned yng nghystadleuaeth y Sefydliad. Hefyd Mrs Eirlys Williams ar gael cyntaf am Sgets a Llinell Goll yn Eisteddfod Llanrug yn ddiweddar.

Da iawn gennym fel aelodau o Sefydliad y Merched fod ein llywydd yn gwella ar ôl iddi gael anffawd yn ddiweddar tra'n teithio ar un o fysiau Crosville a fu mewn damwain. Dalier i wella. Rydym yn gobeithio yn arw y bydd yn teimlo'n ddigon da i ddod i'n cyfarfod ar Ragfyr 6.

Y SEINDORF – Prysur iawn fu hanes y Seindorf yn ystod y mis a aeth heibio. Buont yn arwain yr orymdaith ym Mangor ac yn y pentref ar ddydd Cadoediad ac yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau eraill. Chwaraewyd y 'Last Post' a 'Reveillie' gan Mr Ieuan Morris, aelod o'r Seindorf. Ond uchafbwynt y mis oedd cystadleuaeth pencampwriaeth Gogledd Cymru yng Nghei Conna ar y Sadwrn olaf o Dachwedd, sef Tachwedd 27. Roedd chwe seindorf yn yr un dosbarth â nhw, sef Dosbarth (B). Roedd rhaid i'r rhifyn hwn o'r Eco fynd i'r wasg cyn i ni gael y canlyniadau. Bydd ychwaneg o'r hanes yn y rhifyn nesaf.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Tachwedd: 1. £25 Rhif 149, Mrs M. Parry, 27 Lôn Llwyd, Pentraeth, Môn; 2. £15, Rhif 140, Mrs J. Parry, 3 Tai Gwyrfai, Clwt-y-bont; 3. £5, Rhif 98, Mr W.J. Hughes, 2 Helen Villa, Clwt-y-bont.

LLONGYFARCHIADAU i Carys Iona, merch Mr a Mrs W. Orwig Williams, Tŷ Capel Disgwylfa ar ei phriodas yn ddiweddar â Gwynfor, mab Mr a Mrs Rober H. Owen, Llanbedrgoch, Ynys Môn. Y forwyn briodas oedd Delyth, chwaer y briodferch, a'r gwas oedd Mr Alwyn Jones, cefnder y priodfab. Darparwyd Swper a Disgo yng Ngwesty Min-y-don, Traeth Coch, a daeth dros gant o gyfeillion ynghyd yno i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc.

Bu Carys yn Ysgrifenyddes yn Swyddfa Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ym Mangor am dros bedair blynedd a Heddwas yn Heddlu'r Metropolitan Llundain ydi Gwynfor. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Greenwich. Pob lwc i'r ddau yn eu bywyd newydd.

DYMUNA Carys a Gwynfor ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrinidau oll am yr angrhegion gwerthfawr, yr arian, a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar, a chan fod y ddau eisoes wedi ymgartrefu yn Llundain ac wedi methu diolch yn bersonol i rai o'u cyfeillion derbyniwch chwithau eu diolchiadau cynhesaf.

CYMHORTHDAL CYFLOG I FUSNESAU BACH

Gall nifer o fusnesau bach sydd newydd sefydlu a'r rhai sy'n bod eisoes, wneud cais am gymorthdaliadau cyflog hael ar gyfer swyddi ychwanegol a lenwir gan unigolion di-waith.

Ceir rhagor o fanylion a ffurflenni cais gan Dr E. Lloyd Evans, Swyddog Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Caernarfon (Caernarfon 4121, est. 313), neu gan unrhyw Swyddfa Cyngor Dosbarth.

Dwy nofel antur gyffrous o'r wasg at y 'Dolig

DAFYDD AP SIENCYN YR HERWR

DAFYDD AP SIENCYN A DIRGELWCH MAEN PEBYLL

gan EMRYS EVANS

Nofelau am griw o herwyr yn Nyffryn Conwy rai canrifoedd yn ôl yn ceisio cadw eu rhyddid wrth herio awdurdod castell Conwy – yr Ustus Coch.

Pris: £1.70

Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst. (0492) 641329

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cafwyd cyfarfod blynyddol y Sefydliad yn Nhŷ Glas, dan arweiniad Mrs F. Treen o G AERNARFON. Etholwyd Mrs J. Hughes yn llywydd a Mrs J. Williams yn is-lywydd. Mrs C. Houston fydd yr ysgrifenyddes a Mrs M. Griffiths yn drysorydd.

Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Pat Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs M. Griffiths. Darparwyd y te gan Mrs J. Roberts a Mrs M. Williams.

CLWB Y MAMAU – Cafwyd gornest ar thema'r rhaglen deledu 'Tri Gair Bach' gyda Liz Thomas ac Audrey Roberts yn ennill. Rhoddwyd anrheg y mis gan Sheila Williams, ac fe'i enillwyd gan Helen Jones. Darparwyd y te gan Mrs A. Hasson a Mrs H. Roberts. Gofynnwyd i bob aelod ddod â'i hoff 'ornament' i'r cyfarfod, a Mrs Hasson a enillodd y gystadleuaeth.

CLWB IEUENCTID – Mewn arwerthiant yn y clwb yn ystod y mis gwnaed elw o dros £62. Hoffai'r clwb ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr mis Hydref – 1af. 1. Glenys Jones, 2. Seth Thomas, 3. Jill (Siop Ganol). 8. 1. Ann Jones, 2. Liz Thomas, 3. Bertie Roberts. 15. 1. Emyr Jones, 2. Bobby Roberts, 3. Mr Mowll (Penisarwaun). 22. 1. Haydn Lewis, 2. Elwyn Williams (Sir Fôn), 3. Vera Price. 29. 1. Colin Wager, 2. Myrddin Jones, 3. Dwynwen Owen.

Dalier sylw y bydd cinio blynyddol y clwb yng ngwesty Marine Cricieth ar Ragfyr 18, gyda miwsig a chân gan 'Wild Wind'. Gellir archebu tocynnau oddi wrth gasglwyr y clwb. Bydd y bws yn cychwyn o bont y pentref am 6.30 p.m.

Y GOBEITHLU – Gwahoddir chwi i ymuno â mamau a phlant y Gobeithlu yn y Festri ar Ragfyr 20, i wylio drama Nadolig a chanu carolau. Bydd te parti i'r plant ac ymweliad Sion Corn ddydd Mercher Rhagfyr 22.

Yn ysgol gynradd Cwm-y-glo Rhagfyr 6 – Noson Goffi ac arwerthiant – mae tocynnau ar gael am 30c i oedolion a 10c i blant a phensiynwyr, neu gellir talu wrth y drws. Bydd y drysau ar agor am 7 o'r gloch.

TAITH I AWSTRALIA – Yr ydym yn dymuno'n dda i Alwyn Roberts, Minffordd ar ei daith i Awstralia. Bydd yno am dair wythnos, ac edrychwn ymlaen am iddo ddychwelyd gartref yn ddiogel gyda newyddion o'i daith.

UN O SÊR S4C



Ydi'r ci hardd a welir gyda'r bachgen yn y llun yn edrych yn gyfarwydd? Doberman Pincher yw Ces, a'i berchennog yw Mr Idris Morris, Fachell, Llanddeiniolen, ond erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' ymddangos bydd gwylwyr ledled Cymru wedi cael cyfle i weld dawn actio Ces mewn pennod o'r gyfres 'Joni Jones' ar S4C. Irfon, nai Mr Morris, yw cyfaill mawr Ces yn y llun uchod. Bydd Irfon wrth ei fodd yn helpu yn y "sied flawd" yn Fachell.

CEUNANT

BEDYDDIO – Cafodd 3 phlentyn eu bedyddio yn ystod oedfa pnawn Sul, Tachwedd 14 yng Nghapel Ceunant, sef Llion Mai, merch Celyth ac Eleri Williams, wyres Mr a Mrs Evie Davies, Tanygraig; Caren Ann, merch Glyn a Sandra Jones, wyres Mr a Mrs R. Jones, Penhafodlas; a Nicola Ann, merch Gwyn a Pauline Jones, wyres Mr a Mrs O. Jones, Y Garth. Roedd hwn yn achlysur anghyffredin gan mai dyma'r tro cyntaf i'r Parch W.O. Roberts fedyddio 3 phlentyn yn yr un oedfa. Mae hyn yn fwy arbennig byth o gofio mai 20 yw aelodaeth capel Ceunant.

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs John Parry, Ael y Bryn ar enedigaeth eu pumed plentyn, eu trydydd mab, ddydd Llun Tachwedd 8. Llongyfarchiadau hefyd i'r ddwy nain, Mrs Ceinwen Roberts a Mrs Parry ac i Bethan, Wyn, Annwen ac Aled ar gael brawd bach. Pob bendith i'r baban a'i deulu.

COFION – Ein cofion a'n dymuniadau da i Mr Blanchard, Y Llythyrdy sy'n gwella ar ôl damwain i'w law.

GWASANAETH Y NADOLIG – Cynhelir Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sul Tan y Coed bnawn Sul, Rhagfyr 19. Croeso cynnes i rieni, teuluoedd a charedigion yr Ysgol Sul i'r cyfarfod hwn yn cychwyn am 2 o'r gloch.

GLANLLYN – Yr wythnos hon, Tachwedd 22 mae Wyn Parry, Lona Roberts ac Amlyn Evans yn treulio egwyl yng Nglanllyn, Canolfan yr Urdd. Hwyl fawr iddynt.

MODURDY MENAI

FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

DINORWIG

DIOLCH – Dymuna Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo, ddiolch o galon i'w perthnasau a'r holl gyfeillion a fu mor garedig wrthi tra'n cwyno. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG – Nos lau, Hydref 28 yn y Ganolfan bu cyfarfod agoriadol y Gymdeithas am eleni gyda Pharti'r Bryniau yn gwasanaethu. Cafwyd eitemau mewn canu, sgetsiau, deuawdau ac adrodd straeon gan y Parti. Cyflwynwyd hwy i aelodau'r Gymdeithas gan Mr O.R. Williams, Bro Elidir. Llywydd gwadd y noson oedd y Parch Alan Wyn Roberts, Llangefni, Dirprwy Brifathro Ysgol Bodedern, Môn, un o fechgyn yr ardal. Cafwyd gair ganddo am ei atgofion am Ddinorwig. Cyflwynodd rodd anrhydeddus at gyllid y Gymdeithas. Talwyd diolch iddo ac i'r Parti gan Mr O.R. Williams, Bro Elidir.

Nos lau, Tachwedd 11 yn y Ganolfan yn y Gymdeithas cafwyd sgwrs ddiddorol, ogleisiol ar Ofergoeliaeth gan y Parch E.T. Roberts, Bangor. Cafwyd trafodaeth fywiog gan yr aelodau ar ôl y sgwrs. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau gan lywydd y noson, Mr Hugh Thomas, Bro Elidir. Talwyd diolch gan Mr O.R. Williams, Bro Elidir.

CROESO ADREF O'R YSBYTY – Croesewir adref o'r ysbyty wedi triniaeth feddygol Mrs Eilcan Phillips, 6 Maes Eilian; Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian; Mr Leslie Otter, Afallon. Gwellhad buan iddynt.

LLWYDDIANT PÊL-DROED – Llongyferchir Mr Kefin Jones, 4 Bro Elidir, ar ei ddewis yn un o'r chwaraewyr ifanc i Ogledd Cymru yn erbyn bechgyn Ysgol Manceinion. Disgybl yn Ysgol Brynrefail yw Kefin. Bu hefyd yn cynrychioli bechgyn Ysgol Arfon dan 15 oed yng Nghaerdydd yn ddiweddar mewn cwrs hyfforddi gyda 13 o fechgyn ysgol Gogledd Cymru. Pob hwyl i'r dyfodol gyda'r bêl Kefin.

BWRDD HANNER BLYNYDDOL CYMANAFA ARFON – Brynhawn dydd lau, Tachwedd 4 cynhaliwyd bwrdd hanner blynyddol Cymanfa Arfon yn Sardis. Daeth cynrychiolwyr o amrywo o eglwysi Bedyddwyr y Sir yno ac i'r pywllgorau a'r gynhadledd. Y llywydd oedd Mr Rhys G. Roberts, Tyddyn Sion, un o feibion gwaith coed enwog Hendre Bach, yn Llŷn. Ysgrifennydd y Gymanfa yw'r Parch Ifor L. Williams, Bangor a Sardis. Paratowyd te i'r cynrychiolwyr yn yb Ganolfan, gan chwiorydd Sardis, ac yna am 5.30 p.m. cynhaliwyd oedfa yno i gyflwyno apêl arbennig y Bedyddwyr tuag at Gymorth Cristnogol gan y Parch T. Ellis, Llandudno, yn cael ei gynorthwyo gan y Mri R. Williams, Deiniolen, ac R.W. Roberts, Tyddyn Siôn.

COFION at y rhai sy'n cwyno yn eu cartrefi ac yn yr ysbytyai. Gwellhad buan iddynt.

YN YR YSBYTAI – Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo i ysbyty Dewi Sant, Bangor am driniaeth lawfeddygol. Ein cofion ati a brysiwch wella.

O'R YSBYTY – Deallwn fod Mrs Maggie Roberts, 8 Maes Eilian, wedi ei rhyddhau o Ysbyty Dewi Sant, Bangor ac ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch Mrs Rowena Owen yng Nghaernarfon. Gwellhad buan fo iddi a'n cofion ati.

DIOLCH – Dymuna Mr R.W. Jones, 7 Maes Eilian ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu caredigrwydd tuag ato yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon, a hefyd ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff yr ysbyty. Diolch yn fawr iawn i bawb.

YN YR YSBYTY – Mae Miss Meira Foulkes, Dublin House wedi cael ei symud o Ysbyty Eryri, Caernarfon i Ysbyty Gallt y Sil Caernarfon y dyddiau diwethaf yma. Ein cofion ati.

O'R YSBYTY – Da deall fod Mr J.E. Thomas, Bwlch y Gwynt wedi dod gartref o Ysbyty Môn ac Arfon wedi bod dan driniaeth feddygol. Gwellhad buan iddo.

CYMDEITHAS DINORWIG

SWYDDOGION – 1982-83 – Llywyddion Anrhydeddus, y Parch Aled Edwards, y Parch Ifor L. Williams; Llywydd, Mr Richard Williams, Tŷ Capel, Trysorydd, Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Ysgrifennydd, Mr D.J. Thomas, Tŷ Capel Sardis. Aelodau'r Pwyllgor – Mrs Maggie Roberts, Maes Eilian, Mrs G. Medwen Griffith, Foel Cottage, Mrs Katie Lloyd Hughes, Maes Eilian, Mrs John Roberts, Maes Eilian, Mr David Lloyd Hughes, Maes Eilian, Mr John Roberts, Maes Eilian a chyn-swyddogion i roddi cymorth.

Rhaglen Cymdeithas Dinorwig 1982-3

(Cynhelir bob cyfarfod yn y Ganolfan oni nodir yn wahanol)

Rhagfyr 16 yn Eglwys Sant Mair. Noson o Garolau a darlleniadau dan ofal y Parch Ifor L. Williams, Ionawr 6. Cwrdd Gweddi. Trefniadau yng ngofal Mr Glyn Tomos a Miss Annette Roberts, Ionawr 20. Sgwrs gan y Parch Aled Edwards, Y Ficerdy, Penisarwaun (Llywydd Miss Elen Wyn Jones). Chwefror 3. Ffilmiau ar Norwy gan Mrs M. Ellingsen, Bethesda (Llywydd: Mrs Megan P. Morris). Chwefror 17. Noson yng ngofal Miss Catherine Lloyd Williams. Porthaethwy (Llywydd: Miss Marian Jones) Mawrth 3. Noson amrywiaethol i ddiweddu'r tymor.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

BETHEL

YR YSGOL FEITHRIN – Dymuna'r mamau i gyd a Mrs Lynwen Morris, yr athrawes ddiolch yn gynnes iawn i Mrs Eirlys Sharpe am ei gwaith di-flino fel cynorthwy-ydd yn yr ysgol, dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd. Croesawyd Mrs Rita Williams, Elan fel cynorthwy-ydd newydd yn yr ysgol.

Rhagfyr 2 cynhelir bore o baned a mince pies gyda'r plant yn rhoi adloniant.

Gobeithir trefnu bod Santa yn dod o amgylch y pentref nos Fercher Rhagfyr 15 – bydd yn cyrraedd tua 6.00 a gobeithia ymweld â phob stâd yn y pentref.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Tachwedd 10 y gŵr gwadd oedd Llyfrgellydd Gwynedd, Mr J.M. Griffith, Llwyn Eithin pryd y siaradodd am holl agweddau a gwasanaeth llyfrgell y sir. Diolchwyd iddo gan Mrs Mair Reed. Y gwestwragedd oedd Mrs Eirlys Sharpe, Mrs Mair Jones a Mrs Elizabeth Evans. Enillwyd y raffl gan Mrs Luned Davies.

Oherwydd ymateb da iawn gan yr aelodau gorfu newid gwesty'r cinio Nadolig am le mwy o lawer. Yng Ngwesty'r Victoria Llanberis y cynhelir y cinio nos Fercher, Rhagfyr 8. Yr arian cyn gynted ag sydd bosibl i Mrs Mabel Jones neu Mrs Mair Rees.

Bydd y bws yn cychwyn i'r cinio am 7.30 o'r gwaelod.

Mae rhai aelodau'r gangen yn brysur iawn yn paratoi rhaglen adloniant ar gyfer diddori Clwb Bro Bethel yn eu cinio Nadolig yn Llanberis ar Ragfyr 14.

YR URDD – Nos Wener, Tachwedd 19 cafwyd noson gwis ddifyr yng nghwmni Cangen y Waunfawr. Ar ôl cystadleuaeth frwd ac ateb ardderchog gan y ddau dîm, tîm Waunfawr enillodd. Aelodau tîm Bethel oedd Bethan Jones, Lynn Roberts, Rhian Hughes a Carys Owen.

Nos Wener, Rhagfyr 10 cynhelir Ffair a Noson Goffi yn y Neuadd. Gobeithio y ceir cefnogaeth a byddai unrhyw un o'r pwyllgor yn falch o dderbyn rhoddion i'r stondinau.

CARNIFAL '82 – Yng nghyfarfod cloi cyfrifon Carnifal '82 cafwyd adroddiad ariannol gan y trysorydd Mr Gwyndaf Williams a phenderfynwyd rhannu o'r elw fel a ganlyn – Y Neuadd £125, St Ioan £30, Yr Urdd £30, Yr Ysgol Feithrin £30, Clwb Bro Bethel £25, Eisteddfod £20, Ysgol Bethel £20, Dawnswyr Morris £20, Côr Cadnant £15, Pêl-droed Bethel £10, Capel y Cysegr £5.

Diolchwyd i'r Cadeirydd Mr S. Jones a Mr Gwyndaf Williams ac yn arbennig i Mrs Nora Parry yr ysgrifenyddes am eu gwaith di-flino i wneud y carnifal mor llwyddiannus.

Penderfynwyd galw Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd Rhagfyr 6 nos Lun am 7.30. Gofynnir am gefnogaeth fel y gellir parhau gyda'r carnifal eto yn y dyfodol.

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON – Bu'r clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth drwy fis Tachwedd. Cafwyd noson yng nghwmni Mr Roberts o'r Parc Cenedlaethol a ddangosodd sleidiau o olygfeydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Tachwedd 9 y cynrychiolwyr o'r Bwrdd Llaeth oedd yn siarad gyda'r Ffermwyr Ieuainc am eu gwaith. Ffilmiau am ddiolgelwch ar y fferm a welwyd ar yr 16 gan Mr G. Williams, y Bala.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr Hugh Jones, 33 Bro Rhos yn eu profedigaeth.

Ddydd Llun, Tachwedd 1 yn sydyn yn Ysbyty Dewi Sant bu farw Mr Hugh Jones, Rhianfa. Bu Mr Jones yn fawr iawn ei gymwynas yn y pentref ac estynnwn pob cydymdeimlad i Mrs Jones a'r teulu yn eu colled.

Yn ystod y mis hefyd bu farw Mr Ffowc Williams, Cremlyn. Mae ein cydymdeimlad llwyraf gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Clive Roberts, 21 Bro Rhos ar ennill medal arian am nofio. Llongyfarchiadau i Sulwen a Tony Thomas, Corra Linn ar enedigaeth merch fach, Nia.

DIOLCHIADAU – Dymuna Helen Wyn Jones, Glan Gors ddiolch i bawb am eu caredigrwydd iddi tra bu'n ysbyty Minffordd.

Erbyn hyn mae Mr Dafydd Williams, Hafod wedi rhoi'r gorau i werthu'r Eco. Bu Mr Williams yn werthwr ers y cychwyn ond oherwydd iddo gael symud i weithio i Borthmadog ni fu'n bosib iddo barhau gyda'r gwaith. Diolch yn fawr am ei gyfraniad a diolch i Lynwen Morris am gymryd y gwaith drosodd.

Dymuna Ceri, Blaen Parc ddiolch i'w theulu a chyfeillion am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Diolch arbennig i staff Ysbyty Môn ac Arfon.

Dymuna teulu Blaen Parc ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd o golli nain sef Mrs M.M. Richards, Bodlondeb, Y Glyn, Caernarfon. Diolch arbennig i staff ysbyty Gallt y Sil am eu gofal ac am y rhoddion tuag at gronfa'r ysbyty.

EISTEDDFOD – Cafwyd Eisteddfod lewyrchus unwaith eto gyda holl weithgarwch a bwrlwm yr ymarfer yn ystod y deufis diwethaf yn dod i binacl yn y Neuadd ddydd Sadwrn Tachwedd 6. Y beirniaid oedd Mr Cledwyn Jones a Mr John Hywyn a chafwyd araith amserol iawn gan y Llywydd Mrs Gwenno Hughes, Penrhyndeudraeth.

Diolch i'r pwyllgor ac yn arbennig i'r ysgrifenyddes Miss Myfanwy Jones, Glan Gors am yr holl waith i sicrhau llwyddiant yr eisteddfod:

Enillwyd y gadair gan Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Bethel. Ysgrif y testun 'Siom'.

CANU – dan 4 oed – 1. Meilir Evans a Gwenan Williams, 2. Carwyn John Morris, Gethin a Gabrielle. **Dan 6:** 1. Sioned Hughes, 2. Donna Guy a Llinos Angharad Morris, 3. Sheila Guy a Llinos Rees. **Dan 8:** 1. Menna Dauncey Williams, 2. Iolo Price a Sioned Owen, 3. Lliwen Jones, Sian Llywelyn Jones, Llinos Williams, Esyllt Môn Jones, Ruth Parry. **Dan 10:** 1. Ceryl Roberts a Gwen Jones, 2. Euron Hughes, 3. Bethan Jones. **Dan 12:** 1. Angharad Elis, 2. Angharad Price, 3. Carys Owen. **Dan 15:** 1. Meinir D. Williams, 2. Manon D. Williams, 3. Helen Jones. **Unawd Piano dan 9 oed:** 1. Lynne Roberts, 2. Ruth Parry, 3. Sioned M. Owen, Anwen Jones a Llinos Williams. **Deuawd Piano dan 9:** 1. Lynne Roberts a Ruth Parry, 2. Sioned Owen ac Esyllt Môn Jones. **Parti Canu dan 10:** 1. Parti Penrhos, 2. Parti Crwydryn, 3. Parti Post. **Unawd Piano dan 12:** 1. Angharad Price, 2. Euros Jones, 3. Nicola Wallis. **Deuawd Piano dan 12:** 1. Lynne Hardwige a Nicola Wallis, 2. Angharad a Carys, 3. Catrin a Gwenan. **Unawd unrhyw offeryn heblaw piano dan 12 oed:** 1. Angharad Price, 2. Carys Owen. **Piano dan 15:** 1. Ceinwen Parry, 2. Manon D. Williams, 3. Mari Owen. **Parti Canu dan 15:** 1. Parti Cwm Rhyd y Chwados, 2. Parti Manon, 3. Parti Bechgyn. **Wythawd** – Wythawd Ann Hopcyn, 2. Wythawd Robin Jones. **Deuawd Piano:** 1. Manon a Meinir, 2. Rhian a Ceinwen, 3. Diane a Rhian. **Emyn dros 50 oed:** 1. Mrs Farrar, 2. Mrs M.C. Williams, 3. Mr Goronwy Jones. **Cân Ysgafn:** 1. Mystic, 2. Parti Robin Jones. **Deuawd:** 1. Sian a Betty, 2. Manon a Meinir. **Parti Alaw Werin:** 1. Parti Saron, 2. Parti Rita, 3. Parti'r Dynion. **Côr:** 1. Côr Nhw (arweinydd Robin Jones); 2. Côr Ni (arweinydd Ann Hopcyn).

ADRODD – Dan 4 oed: 1. Carwyn John Morris a Gwenan Williams, 2. Meilyr Evans, Sian Hardwidge ac Iwan Hughes. **Dan 6:** 1. Llinos Angharad Morris, 2. Sioned Hughes a Gareth Jones, 3. Sheila Guy, Donna Guy, Llinos Rees a Gwenan Elis. **Dan 8:** 1. Esyllt Môn Jones, 2. Menna Dauncey Williams, 3. Manon Elis, Sioned Owen a Ruth Parry. **Dan 10(:** 1. Gwen Jones, 2. Jennifer Jones, 3. Wenna Williams. **Dan 12:** 1. Aled Jones, 2. Angharad Elis ac Angharad Price, 3. Carys Owen ac Elwyn Parry. **Parti Adrodd dan 10:** 1. Parti Joanne, 2. Parti Gweithio'n Galed a Pharti Sion Emlyn. **Dan 15:** 1. Manon D. Williams, 2. Meinir D. Williams, 3. Mari Owen. **Parti Adrodd dan 15:** 1. Parti Manon, 2. Parti Helen, 3. Parti Aled. **Adrodd dros 18:** 1. Mrs Mair Read, 2. Mrs Rita Williams, 3. Mrs Madge Williams. **Sgets:** 1. Criw Bet a'r Ci Bach. **Parti Cydadrodd:** 1. Parti Mair Read, 2. Parti Mair Price.

LLENYDDIAETH : Dan 4: 1. Iwan Hughes. **Dan 6:** 1. Llinos Angharad Morris, 2. Llinos Ann, 3. Sioned Hughes a Llinos Rees. **Dan 8:** 1. Non Ll. Jones, 2. Sioned M. Owen, 3. Menna D. Williams. **Dan 10:** 1. Rhian Hughes, 2. Sian Emlyn Hughes a Lynne Roberts. **dan 12:** 1. Angharad Price, 2. Angharad Elis, 3. Carys Owen. **dan 15:** 1. Gwenno Owen, 2. Manon D. Williams, 3. Meinir D. Williams, Meinir Owen, Mari Owen a Helen Williams. **Sgets:** 1. Mr Dafydd Williams. **Llythyr yn chwilio am swydd o Housekeeper neu Fwtler:** 1. Dafydd Williams. **Cerdd: Yr Afon** – 1. Mr Dafydd Williams. **Stori Fer:** 1. Mrs Nan Owen. **Brawddeg:** 1. Mr Dafydd Williams. **Cyfansoddi Emyn:** 1. Mrs M.G. Williams a Mr Ieuan Williams. **Erthygl ar gyfer Papur Bro:** 1. Mr. J.E. Thomas. **Telegram:** 1. Mr Goronwy Jones. **Cerdd dan 14:** 1. Angharad Price. **Llythyr dan 18:** 1. Peter Sharpe, 2. Myfyr Jones, 3. Mari Owen ac Angharad Price. **Llinell Goll:** 1. Mr Ieuan Williams.

ARLUNIO – Dan 4: 1. Owain Arfon a Susan Stuntfelder, 2. Barry Davies a Darren Jones, 3. Richard Davies a Julie Ann Roberts. **Dan 6:** 1. David Roberts a Llinos Ann Roberts, 2. Llinos Angharad Morris a Llinos Wyn Rees, 3. Gwenan Elis a David Warington. **Dan 8:** 1. Sioned M. Owen a Ruth Parry, 2. Non Ll. Jones a Llinos Williams, 3. Menna D. Williams. **Dan 10:** 1. Jennifer Jones a Gwen Jones, 2. Mared Wyn Sutherland a Gwen Jones, 3. Llion Tudur Jones a Caryl Roberts. **Dan 12:** 1. Angharad Price a Lynne Hardwidge, 2. Meriel Hughes ac Ian Mercer, 3. Euros Jones. **Dan 15:** 1. Myfyr Jones, 2. Meinir Williams, 3. Mari Owen a Meinir Owen. **Dan 18:** 1. Richard Sharpe.

Beirniaid – Canu – *Mr Cledwyn Jones, Bangor,* Adrodd a Llên: *Mr John Hywyn, Llandwrog.* Arlunio: *Mr Evie Roberts, Penygroes.* Celf a Chrefft: *Mr D. Evans, Penisarwaun.* Coginio a Gwau: *Mrs E. Moses, Caergeiliog.*

Dymuna Mr Goronwy Jones, Llywydd Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch i'r merched a ddysgodd y plant ac i bawb arall a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant yr eisteddfod.

Coginio Bechgyn: 1. Elwyn Parry a Richard Sharpe, 2. Martin Hughes, 3. Aled Jones a Huw Williams. **Gwaith Coed Agored:** 1. Mr Gareth Jones, 2. Andrew Evans, 3. Mr Seiriol Owen. **Gwaith Metel Agored:** 1. Mr Gareth Jones, 2. Mr Gareth Jones, 3. Richard Evans. **Gwaith Coed Bechgyn:** 1. Myfyr Wyn Jones. **Gwaith Metel Bechgyn:** 1. Myfyr Wyn Jones. **Celf a Chrefft – Unrhyw beth o Brennau Lolipops neu Fatsus:** 1. Mrs Rita Williams, Elan. **Unrhyw beth o Focsus Matsus:** 1. Rhian Hughes, 2. Nan Llywelyn Jones, 3. Aled, Gwen a Bethan Jones. **Collage:** 1. Mrs Eirlys Hughes, 2. N. ac A. Jones. **Addurn Nadolig:** 1. Mrs Anne Hughes.

GWNIO, CROSIO NEU WAU – Dan 9: 1. Menna Dauncey Williams, 2. Non Llewlyn Jones. **Dan 12:** 1. Gail Warrington ac Angharad Price, 2. Gwen Jones a Jennifer Jones. **Dan 16:** 1. Meinir Dauncey Williams, 2. Manon Dauncey Williams, 3. Gwenno Mai Owen. **Agored – Coban:** 1. Mrs Eirlys Sharpe. **Cardigan neu Siwmper Aran i Ddyn:** 1. Mrs Meinir Roberts a Mrs Anne Hughes. **Cardigan neu Siwmper Aran i Ferch:** 1. Mrs Delyth Evans, 2. Mrs Eirlys Sharpe. **Bonnet neu Helmet a Menyg i Fabi:** Cydradd 1af ac 2il: Mrs Meinir Roberts a Myfanwy Jones. **Menyg i Oedolyn:** 1. Mrs Meinir Roberts a Mrs Rita Williams, 2. Mrs Eirlys Sharpe, 3. Mrs Anne Hughes.

COGINIO: Dan 12: 1. Ruth Parry, 2. Gwen Jones a Bethan Jones, 3. Angharad Elis. **Dan 16:** 1. Gwenno M. Owen, 2. Meinir Owen, 3. Mari Owen. **Eclairs:** 1. Mrs Anne Hughes, 2. Mrs Betty Farrar. **Cornish Pasties:** 1. Mrs Lynwen Morris a Mrs Anne Elis, 2. Mrs Anne Hughes, 3. Mrs Nan Owen. **Torth Wen:** 1. Mrs Mair Price, 2. Mrs A.E. Williams. **Torth Frown:** 1. Mrs Ann Hopcyn Evans, 2. Mrs A.E. Williams, 3. Mrs Mair Price. **Bara Brith gyda Burum:** 1. Mrs Gwyneth Joes, 2. Mrs Nora Parry, 3. Mrs A.E. Williams. **Cream Horns:** 1. Mrs Mair Price, 2. Mrs Lynwen Morris, 3. Mrs Mair Price. **Teisen Pen-blwydd i Blentyn:** 1. Mrs Lynwen Morris, 2. Mrs Mair Read a Mrs H. Colclugh, 3. Mrs Glenys Griffiths. **Quiche Lorraine:** 1. Mrs Mair Read a Mrs Eirlys Sharpe, 2. Mrs Lynwen Morris a Mrs Glenys Griffiths, 3. Mrs Anne Hughes a Myfanwy Jones. **Chutney:** 1. Mrs Mair Read a Mrs Beryl Jones, 2. Mrs Betty Farrar a Mrs Beryl Jones, 3. Mrs Elizabeth Evans. **Lemon Cheese:** 1. Mrs Betty Farrar, 2. Mrs Mair Read, 3. Mrs Glenys Griffiths a Mrs Anne Elis. **Potel o Win:** 1. Mr John Arfon Owen, 2. Mrs Mair Read, 3. Mrs Betty Farrar. **Coginio adran y dynion:** 1. Myfyr Wyn Jones.

Yn **NEWYDD** gan

Wil a Val Guy

TREFLYN STORES

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670237

Stoc helaeth o Ddillad Plant **HAPPITOTS ac ati**

* Cadwch eich coesau'n gynnes efo LEGWARMERS (£1.70) ac ANKLEWARMERS (95c)
* Cofiwch hefyd ein dewis ardderchog arferol o anrhegion Nadolig, Teganau, Diodydd, Melysion, Edafedd, Bwydydd etc.
* SNWCER! Dewch yma am eich sialc, tips, ciws – RILEY a byrddau hefyd os dymunwch.

DYMUNA
JERRY a MARGARET
WARDLE

SWYDDFA'R POST

a Stordy

Cwm-y-glo

Ffôn: 870242

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i'w cyfeillion oll

Cyfarchion Nadolig

Cwm y Glo
Brynrefail
Penisa'rwaun

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Ms Gillian Yorath

Revival

SIOP ELIDIR, BRYNREFAIL
Ffôn: LLANBERIS 870132

Arbenigwr ar adfer dodrefn a gildio

GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo



Ffôn: LLANBERIS 870814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

C & D.WAGER

Llythyrdy

BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 870241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

Dymuna Huw a Barbara

Gwesty'r Fricsan

(Snowdon Hotel)
CWM-Y-GLO
Llanberis 289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr ŵyl.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

London Garage

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 870234

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Pat Owen a phawb yn

SIOP GRON

PENISARWAUN

Ffôn: Llanberis 871272

Diolch yn fawr am eich
cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn
gyntaf yn y siop

PENISARWAUN

UNDEB Y MAMAU – Nos Lun 1af o Dachwedd cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau am y tro olaf y flwyddyn hon. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr O.C. Roberts, Elidir View a luniodd raglen amrywiol a chywrain. Rhoddwyd y te gan Mrs O.C. Roberts a diolchodd Mrs B. Mowll i bawb.

Dymunwn yn dda i Sioned Lewis, Pen Pwll Coch, Meirwen Williams, 23 Bryn Tirion a Nathan Eagles ar ôl iddynt gael damweiniau yn ddiweddar. Mae llawer o blant y pentref yn cwyno ar hyn o bryd. Brysiwch i wella i gyd.

CLWB YR HEULWEN – Bu cyarfod o'r Clwb prynhawn ddydd Mawrth, Tachwedd 16. Gwnaed trefniadau terfynol ar gyfer y swper. Byddwn yn mynd i Gastell Cidwm ar Ragfyr 10. Bydd y bws yn cychwyn o'r pentref am 7.30 o'r gloch. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt. Enillodd Gwenifer Jones y raffl.

EGLWYS Y SANTES HELEN – Cafwyd Gŵyl Ddiolch lewyrchus iawn eleni gyda chynulleidfa dda i'r Cymun dwyieithog yn y bore. Cyflwynodd y plant eu rhoddion i'r ficer a chafwyd anerchiad tymhorol ganddo am bwysigrwydd cydweithio er lles Iesu Grist yn y Gymdeithas. Gyda'r hwyr cafwyd gosber a phregeth gyda'r Parch D. Carey Roberts, rheithor Llanllechid. Pleser i'r llygaid oedd gweld yr eglwys wedi ei haddurno mor dlws a diolchwn am y rhoddion o *flodau, llysiau a ffrwythau, ac i'r rhai* a fu'n addurno'r eglwys.

FFAIR GYNHAEAF – Cynhaliwyd y ffair nos Fawrth, Hydref 19 yn Neuadd yr Eglwys. Agorwyd y ffair gan y ficer. Roedd amrywiaeth o stondinau a diolchwn i'r rhai a gyfrannodd atynt. Enillwyd gwobrau raffl gan y canlynol:

Bocs nwyddau: Mr Lamb, Bryn Eglwys; Cyw lâr: Mrs Percy Williams, Llys y Gwynt; Bocs Siocled: Miss V. Naylor, 25 Bryn Tirion.

LLONGYFARCHIADAU Eurgain Roberts, 10 Bryntirion ar ddathlu eu deunaw oed.

DIOLCH – Dymuna Mrs E.B. Jones, 6 Bryntirion ddiolch o galon i'w ffrindiau a pherthnasau ymhell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, Huw Jones, Bethel. Diolch hefyd i Mr a Mrs A. Evans a'r plant o Ddeiniolen am y blodau. Gadawyd eu henwau allan o'r rhestr flodau.

Dymuna Mr Hughie Wyn Roberts a'r plant Caernarfon hefyd Mrs M. Davies, Llys y Gwynt ddiolch am y cardiau a'r arian a dderbyniwyd ar achlysur colli priod, mam a chwaer annwyl sef y Sister E. Roberts, 87 Cae Mur, Caernarfon. Fe roddwyd yr arian tuag at Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon lle bu Betty yn gweinyddu am amser.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Stokes, Holsten sydd wedi colli ei phriod yn ddiweddar a hefyd gyda Mrs Elinor Williams a'r teulu, Bryn Rhydd Mawr. Mae Elinor wedi colli ei thad ym Mochdre, ger Bae Colwyn.

DYMUNIADAU DA i Mrs N. Hughes, Camelot sydd yn yr ysbyty ym Mangor a hefyd i Mr I. Griffiths, 5 Bryn Tirion. Nid yw wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.

CLWB Y MERCHED – Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs N. Jones, Tai Bryn Hyfryd yn adrodd ei hanes ac yn dangos sleidiau o Hong Kong a China. Diolchodd Mrs N. Jones, Meillionydd i bawb. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Jones a Mrs E. Williams ac enillodd Mrs M. *Davies y raffl.*

LLWYDDIANT – Enillodd Mórrigàn Ellis, Glan Arthur fathodynnau arbennig mewn cystadleuaeth arlunio, teisen a drefnwyd gan y rhaglen blant 'Blue Peter'. Da iawn chi, Mórrigàn.

YSGOL TAN Y COED – Casgliad at y Deillion – Casglwyd £27.67 at Gronfa Nadolig y Deillion. Diolch i'r plant fu'n casglu ac i'r oedolion fu'n cyfrannu.

EISTEDDFOD – Cofiwch am y noson Wasael yn Ysgol Tan-y-coed nos Wener, 10 Rhagfyr. Bydd Arfon Wyn ac aelodau o grŵp 'Pererin' yno i'ch diddanu.

CERDDED ER BUDD YR EGLWYS

Y Ficer, Y Parch Aled Edwards, y ddau Warden (Mrs Mary Davies a Mr Tegid Roberts) a nifer o'r cerddwyr yn barod i gychwyn ar daith gerdded noddedig er budd Eglwys Santes Helen.

GUTO FFOWC YN YMWELD Â PHLANT YSGOL TAN Y COED

Dyna chi blant bach creulon sydd yn nosbarth y babanod, Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun. Meddyliwch am losgi'r Guto Ffowc hardd sydd yn y llun gyda nhw. Mae bol yr hen Guto yn tystio i safon uchel y cinio yn yr ysgol.

CWM-Y-GLO

YN YR YSBYTY – Y mae Mrs Myfanwy Davies (Bryn Tirion) a oedd yn ddiweddar yn aros yn Elidir View, Cwm-y-glo, ar hyn o bryd yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Anfonwn gofion pawb o'r pentref ichwi.

PRIODAS – Yn y swyddfa yn Llangefni ar Hydref 30 fe briodwyd Mr Meirion Williams, Elidir View â Mrs Christine Jones, 1 Maes Ceido, Llanerchymedd. Deallwn fod y pâr hapus erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Glasfryn, Carmel, Llanerchymedd. Dymuniadau gorau i'r ddau yn y dyfodol.

GOHEBYDD – Er mynegi fy nymuniad rhyw ddwy flynedd yn ôl nid oes neb wedi dod ymlaen fel gohebydd i'r Eco, tros Gwm-y-glo. Byddaf yn gorffen fel gohebydd wedi i'r rhifyn nesaf ddod i law, gan obeithio erbyn hynny y bydd enw newydd i law.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan, *nos Fawrth, Tachwedd 9. Agorwyd y* cyfarfod gan y Parch Aled Jones-Williams gyda gwasanaeth byr. Etholwyr y canlynol am 1982-83. Aelod Ymrestru – Mrs J.E. Watkins, Cwm-y-glo. Ysgrifenyddion – Mrs Pierce, Llanrug, Mrs M. Orritt, Cwm-y-glo. Trysorydd – Mrs G. Roberts, Cwm-y-glo. Rhoddwyd y te gan Mrs Watkins a Mrs M. Roberts, Cwm-y-glo a diolchodd Mrs Pierce iddynt. Enillodd Mrs Williams, Llanrug y raffl. Bydd cinio'r flwyddyn newydd yn cael ei gynnal ar Ionawr 6, 1983.

GENI – Llongyfarchiadau i Linda a Leslie Williams ar enedigaeth merch fach – Sian Louise, yn Gibraltar.

Wyres gyntaf Hywel a Margaret Williams, Nant Forgan a gor-wyres i Mrs Katie Jones, gynt o Penlon, Llanberis ond sydd yn awr yn ysbyty Bryn Seiont Caernarfon.

POBL Y CWM – Daeth Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug i'r Clwb ddechrau'r mis, gan roi ei hanes yn cynorthwyo mewn un o gartrefi 'Byddin yr Iachawdwriaeth' yn Llundain ar un Nadolig neilltuol. Roedd ei gallu disgrifiadol wedi boddhau yr aelodau yn fawr. Yn ddiweddarach yn y mis cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr John Edwards, Llandudno ar 'Dylanwad y Gloch'. Bu Mr Edwards yn gyn-swyddog gyda'r Frigad Dân yn Llandudno cyn ei ymddeoliad. Diolchwyd i'r ddau gan y llywydd, Mr Llew Hughes a Mr J.E. Watkins. Gwnaed trefniadau gogyfer cinio Nadolig yng Ngwesty'r Foelas Llanrug nos Fawrth, Rhagfyr 7 am 7.30. Bydd bws yn gadael y ganolfan am 7.00 o'r gloch. Darparwyd y te i'r ddau gyfarfod gan Mrs West, Craig-y-don, Mrs E. Hughes, Hyfrydle, Mrs Williams, Mona a Miss M. Davies, Trigfa.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones pryd y cafwyd sgwrs gan Mr Cyril Jones sydd yn Warden Parc Cenedlaethol Eryri. Cawsom weld amryw o luniau gwych o ardal yr Wyddfa, y cylch poblogaidd lle y daw hanner miliwn o ymwelwyr i gerdded bob blwyddyn, ar wahân i'r rhai â i'r copa hefo'r trên. Dangosodd Mr Jones sleidiau o'r gwaith sydd yn cael ei wneud i gynnal y llwybrau ac i geisio atgyweirio yr erydu a'r traul sydd yn cael ei greu gan y fath bwysau o gerddwyr.

Rhoddwyd y te gan Mrs Nellie Pritchard a Mrs Hannah Jones, hefyd gwobr y raffl a enillwyd gan Mrs Gwyneth Chick.

Anfonwyd cofion at Mr Eirwyn Jones, y prifathro ar ôl ei waeledd. Trefnwyd i ymweld â Theatr Gwynedd ar Ionawr 8 i weld y ddrama Noa.

LLONGYFARCHIADAU

Mae Mr M.W. Morris, 2 Stryd Newydd yn daid am y tro cyntaf, ganwyd wyres fach, Emma Louise, i'w fab, Gwynedd a'i wraig Susan. Dyna wneud Mrs E. Morris, Gwynant, Caernarfon yn hen-nain unwaith eto.

NOSON GOFFI – Yn yr Ysgol Gynradd, Rhagfyr 6 – Noson Goffi ac arwerthiant – mae tocynnau ar gael am 20c i oedolion a 10c i blant a phensiynwyr, neu gellir talu wrth y drws. Bydd y drysau ar agor am 7 o'r gloch.

DYDD BANERI'R URDD

Mae Pwyllgor Cylch lleol yr Urdd yn dymuno diolch yn fawr iawn i'r casglwyr a thrigolion Bro'r Eco am eu llafur a'u haelioni unwaith eto eleni. Dyma gyfanswm y casgliadau ar gyfer pentrefi Bro'r Eco.

Bethel £26.87; Brynrefail a Chwm-y-glo £24.82; Deiniolen £17.56½; Llanberis £50.81; Llanrug £72.69; Penisarwaun £21.21½; Y Waunfawr £37.68.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP

Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Y Ferch O Gefn Ydfa

Yng ngholofn fy niweddar dad, Glan Rhyddallt, yn yr Herald Gorffennaf 19 1943 y cefais yr hanesion canlynol.

Merch Mr Thomas Cefn Ydfa, ydoedd Ann meddir. Ganwyd hi oddeutu 1708. Syrthiodd mewn cariad yn 17 mlwydd oed gyda Wil Hopkin, Llangynwyd, saer maen, ac yn brydydd hefyd. Gweithiai yng Nghefn Ydfa yn aml, a chanai gerddi serch i Ann. Gwyddoch am un ohonynt:

"Mi sydd fachgen ieuanc ffôl
Yn byw yn ôl fy ffansi," etc

Pan ddaeth ei thad i ddeall am y garwriaeth ni adawai Ann fynd allan, ac ni chafodd Wil Hopkin ddyfod yn agos i'w dŷ wedyn. Ond llwyddai Ann i yrru llythyrau i'w chariad. Daeth ei thad i wybod hynny a chadwyd pob inc rhagddi. Ysgrifennodd hithau wedyn â gwaed y gath. Deuwyd i wybod hynny, a chadwyd y gath rhagddi. Yna ysgrifennodd i'w chariad â'i gwaed ei hun. Daeth hynny hefyd i'r golwg a chadwyd pob papur rhagddi. Y peth nesaf wnaeth oedd ysgrifennu gyda phin ar ddail sycarmorwydden. Gorfodwyd hi i briodi twrne o'r enw Mr Madog: ond ni chafodd funud o hapusrwydd gydag ef.

Yr oedd Wil Hopcyn yn hŷn na'r ferch o oddeutu chwe mlynedd. Bu Wil farw yn hen lanc yn y flwyddyn 1861. Dywedir fod Wil ac Ann wedi eu claddu yn yr un bedd.

Y mae stori debyg i'r Ferch o Gefn Ydfa ymhob iaith a gwlad mewn rhyw ffurf. Y mae'n stori gyffredin iawn am garwriaeth mab a merch. Tynnwyd darlun ohoni ar lestri yn China, sef llestri 'Y Willow Pattern' – plât glas y patrwm helygen.

Neidr a'i Chywion

Nid yw pawb yn coelio y bydd neidr yn llyncu ei chywion, pan fydd perygl yn ymyl. Ond dyna hanes gwir a adroddir gan fy nhad.

Dywedodd chwarelwr o'r enw Evan Hughes o Benisarwaun wrthyf ei fod rhyw fore o wanwyn braf yn y parc islaw stesion Pontrhythallt. Gwelai neidr yn torheulo ar faen ithfaen mawr, a'i chywion yn chwarae o'i hamgylch.

Ond pan geisiodd ef fynd yn ôl ychydig i chwilio am bren neu garreg i'w lladd, gwelodd y neidr ef, ac ar y funud agorodd ei safn yn llydan ac aeth ei chywion i mewn iddi. Caeodd hithau ei safn mewn eiliad ac i lawr â hi o'r golwg rhwng y cerrig a'r ddaear.

Tybed oes rhywun o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa wedi gweld golygfa debyg? Anofnwch yr hanes!

William a Marged

Dewi Jones, Califfornia (gynt o Gwm-y-glo) ddywedodd yr hanes yma. "Mewn cwrdd awr ginio unwaith, yn Chwarel y Glyn, tua'r flwyddyn 1900, cynigwyd gwobr am y pennill gorau i William Jones, Llwyndyrus. Gwnaed hyn oherwydd y byddai Marged yn dyfod â'i ginio iddo i'r chwarel. Y buddugol oedd Michael Pritchard, Deiniolen, sef tad y Parch J. Michael Pritchard, prifardd America yr adeg honno, a chredir ei fod yn un o deulu Dewi Peris. Dyma'r pennill buddugol:

'Rhen William Jones Llwyn Dyrus
Yw'r ffeindia yn y fro,
Mae'n hudo Marged yma
Am dipyn bach o dro:
A phawb â'u llygaid arni
Yn edrych ddigon syn,
Wrth weled Marged Dyrus
Ar domen Chwarel Glyn.

Llanrug Royal Brass Band

Ddydd Sadwrn, Ebrill 25, 1868 daeth Tywysog a Thywysoges Cymru ar ymweliad â thref Caernarfon. Dyma'r pryd y cafodd band Llanrug y teitl Llanrug Royal Brass Band.

Yr oedd chwarelwyr Llanberis wrthi eu gorau ar hyd yr wythnos honno'n gweithio 'overtime' er gwneud i fyny'r golled am y bore Sadwrn hwnnw.

Diwrnod mawr oedd hyn yn y dref. Cychwynnai'r orymdaith oddi wrth stesion y relwe i'r Maes yn bob llun a lliw o bobl. Yna'r Tywysog yn agor y gwaith dŵr ar ganol y Maes sef y Ffowntan, fel y'i gelwid, ac oddi yno wedyn i'r Castell. Yr oedd bandiau gorau Gogledd Cymru yn yr orymdaith, sef Llanllyfni, Caernarfon a Bethesda: ond band Llanrug a ddewiswyd i fod yn nesaf at y Tywysog a'i wraig, trwy orchymyn yr Uchel Sirydd a'r Prif Gwnstabl. Anrhydedd mawr oedd hyn i fechgyn yn gweithio bob dydd, a dysgu canu yn eu horiau hamdden prin.

Eu harweinydd ers rhai blynyddoedd cyn hyn oedd y cerddor Robert Thomas, y Bryngwyn: ond byddai Mr Watts o Gaernarfon yn dyfod i fyny i'w dysgu unwaith bob bythefnos. Yr oedd golwg wych arnynt yn y dref y diwrnod hwnnw, mewn siwtiau newydd, wedi costio yn agos i ganpunt; heblaw hynny yr oeddynt yn orymdeithio a chanu'r wych. Yr oeddynt wedi curo bandiau gorau Gogledd Cymru cyn hyn, megis Nantlle yn un, meddir, a dywedai'r hen bobl na chlywsant erioed well band na band Llanrug y diwrnod hwnnw.

Un o bobl y Plas

Miss Miriam Thomas

Miss Miriam Thomas, Bwthyn Tyn'Rardd, Penisarwaun, oedd yn cael ei phenblwydd yn 94 oed ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, ddydd Mawrth, Tachwedd 16. Y mae Miss Thomas yn un o drigolion y Plas ers dwy flynedd, a dathlwyd yr amgylchiad yno yn Uned Un, lle y mae, gyda the a theisen pen blwydd ardderchog gan staff y gegin. Y mae Miss Thomas, sy'n edrych yn hynod o dda a bywiog, yn enedigol o Benisarwaun, wedi ei geni yn Y Persondy – a adnabyddid y pryd hwnnw fel Bron-y-Gaer. Welodd hi erioed mo'i mam, bu hi farw pan oedd ei merch fach yn dair wythnos oed a bedyddiwyd y plentyn ar arch ei mam – arferiad oedd yn gyffredin yn y cyfnod mae'n debyg, mewn amgylchiadau trist o'r fath. Ni fu Miss Thomas o'i chynefin erioed, a hi erbyn hyn yw'r hynaf o drigolion y fro, a'r aelod hynaf yng Nghapel Glasgoed. Gofalwyd amdani'n annwyl iawn cyn iddi ddod i'r Plas, yn y Bwthyn, am chwe blynedd gan ei merch Arfonia, cyhyd ag y caniataodd ei hiechyd hithau, a deil i ymweld â hi yn y Plas yn gyson bob wythnos.

Brysiwch – os ydych am sedd dda!

I'r rhai hynny sy'n bwriadu cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf, neu am fod yno yn y seddau gorau, mae'r amser yn brin. Erbyn hyn, ond 80 o gopïau o Restr Testunau 1983 sydd ar ôl yn Swyddfa'r Eisteddfod – brin dri mis ers eu cyhoeddi ym mis Mehefin. Mae hyn, wrth gwrs, yn argoeli'n dda am gystadlu brwd ac Eisteddfod lwyddiannus ond yr un mor addawol yw'r galw mawr am seddau yn y Pafiliwn. Yn ôl Trefnydd yr Eisteddfod, Mr Osian Wyn Jones, ychydig iawn o'r seddau gorau sydd ar ôl erbyn hyn, ac, os am sedd, rhaid ei sicrhau yn fuan iawn. "Buasai tocyn sedd dda yn y Pafiliwn yn gwneud anrheg Nadolig delfrydol", awgryma.

NANT PERIS

GWAELEDD – Dymunir gwellhad llwyr yn fuan i Mr O.W. Humphreys, 3 Gwastadnant sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Minffordd wedi cyfnod yn Ysbyty Môn ac Arfon. Edrychwn ymlaen i'w groesawu gartref.

PROFEDIGAETH – Dydd Llun, Tachwedd 15 yn Ysbyty Druid Llangefni bu farw Mr Griffith Morris, yn 79 oed. Yr oedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Robert Morris, Cerrigydrudion ac wedi treulio ei oes yn y Nant hyd at ychydig flynyddoedd yn ôl pryd y bu raid iddo fynd i gartref Plas Pengwaith Llanberis. Bu ei arwyl ym mynwent Nant Peris ddydd Gwener. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

YMDDEOL – Dymuniadau da i Mrs Jennie M. Williams, Pennant ar ei hymddeoliad. Bu ar staff y swyddfa yn ffatri Greengate Llanberis am gyfnod hir. Caffed flynyddoedd lawer i fwynhau y seibiant.

CYNGERDD – Cafwyd sosial a chyngerdd yn Festri Rehoboth ar y 12ed o'r mis i agor tymor y Gobeithlu a hefyd i agor y gegin newydd sydd wedi eu hychwanegu at yr adeiladau. Fe fydd yn gaffaeliad mawr a gobeithir gweld llawer o ddefnydd ohoni yn ystod tymor y gaeaf. Cafwyd canu ac adrodd graenus gan y plant. Y canu dan hyfforddiant Mrs Lloyd, Siop Rosalind, Llanberis a hi hefyd oedd yn cyfeilio. Y rhai a gymerodd ran oedd Sharon, Helen Mai, Siân Elen, Arwyn, Iestyn ac Alan. Daeth ffrindiau'r genod o Lanberis hefyd i gynorthwyo a gwerthfawrogwyd eu cyfraniad yn fawr. Diolchir i Alison a Cheryl Edwards a Nia Price a hefyd Mrs Lloyd am eu cyfraniad i wneud y noson yn llwyddiant. Cafwyd datganiad swynol iawn ar yr offeryn chwŷth gan David Pritchard a llywyddwyd y noson gan Mr Tom Gwyn Pritchard.

YMADAEL – Dymuniadau da i Mr a Mrs Stanley Williams a'r bechgyn 4 Bro Glyder yn eu cartref newydd yn Llanberis.

GWASANAETH
NEWYDD
yng nghylch Eco'r Wyddfa
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
Linda
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

CAERNARFON 3674
am fwy o fanylion

Nadolig Llawen oddi wrth Cadwgan a Pontshân!

Y LLEW A'I DEULU
Tegwyn Jones £2.95
Hanes lliwgar Lewis Morris o Fôn, a'i holl deulu.

DIGWYDDIADUR 1983 £1.15
Dyddiadur poced mwya handi'r iaith.

CADWGAN A LLEIDR CARN YR WŶDDFA
Elwyn Ioan a Tegwyn Jones £3.45
Ail antur Cadwgan, y llygoden werdd o'r lleuad.

TWYLL DYN (o Gwymp Adda tan yr 20fed Ganrif)
Eirwyn Pontshân a Lyn Ebenezer £1.95
Safbwynt athronyddol Pontshân ar Gwymp Dyn, y sais, y dablen . . .gyda chartŵnau esboniadol!

HUWCYN PUWCYN £1.75
Hawys Glyn ac Eunice Williams
24 o ganeuon i ddysgwyr ifainc.

* Anrhegion eraill delfrydol:
CYMRU'R CAMERA £4.95
100 O GANEUON DAFYDD IWAN £1.95
Y gêm eiriau GAIR AM AIR £2.95
a'r cyfresi SGORIO MIL, Y LLEWOD a CAILO
Mynna dy gopi o'n Catalog newydd 40-tud.!

FFRANGEG PERFFAITH
Meirion Glyn Davies £1.80
Storïau ac ymarferion amrywiol i wella'ch Ffrangeg.



Y Lolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE ffôn (097086) 304

DYDDIADUR

RHAGFYR:

Mercher 1 – WAUNFAWR – Sefydliad y Merched yn cynnal Ysgol Grefft ar waith Canfas. Noson o 'Hwyl yr Ŵyl' dan nawdd Cymdeithas MENCAP, Caernarfon a'r Cylch yn Neuadd yr Eglwys rhwng 7 a 9 o'r gloch.

Yr Urdd am 6 o'r gloch.

LLANBERIS – Bingo yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30 er budd Plant dan Anfantais Meddyliol.

Iau, 2 – LLANRUG – Ffair Nadolig Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

WAUNFAWR – Sefydliad y Merched – Sgwrs gan Mrs Eileen Jackson, Caernarfon.

LLANBERIS – Cinio Nadolig Sefydliad y Merched.

BETHEL – Yr Ysgol Feithrin – Bore o Baned a Mince Pies gydag Adloniant gan y plant.

Gwener, 3 – LLANBERIS – Ffair Nadolig yn Festri Nant Padarn am 6 o'r gloch.

WAUNFAWR – Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr Ysgol am 7.00.

Sadwrn 4, DEINIOLEN – Eisteddfod Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebeneser.

Llun 6 – LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7.00.

Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr Ysgol am 7.00.

BETHEL – Cyfarfod Cyhoeddus dan nawdd Pwyllgor y Carnifal yn y Neuadd am 7.30.

LLANRUG – Cinio Nadolig y Pensiynwyr dn nawdd Pwyllgor y Carnifal yn yr Ysgol Gynradd.

Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

DEINIOLEN – Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched.

Mawrth 7 – LLANBERIS – Dosbarth Nos 'Dysgu Cymraeg' yn yr Ysgol am 7.00.

CWM-Y-GLO – Cinio Nadolig Clwb Pobl y Cwm yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug am 7.30.

LLANRUG – Y Gymdeithas Undebol – Sgwrs gan Mr Islwyn Jones, Llanrug.

BETHEL – Clwb Bro Bethel yn yr Ysgol Gynradd am 1.30.

WAUNFAWR – Parti Nadolig Sefydliad y Merched ym Mryn Gloch, Betws Garmon am 7.30.

Mercher 8 – BETHEL – Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

CWM-Y-GLO – Gyrfa Chwist Nadolig dan nawdd Clwb y Graig yn yr Ysgol am 7.30. Pris mynediad 60c a lluniaeth.

WAUNFAWR – Yr Urdd am 6 o'r gloch.

LLANBERIS – Clwb y Mamau.

DEINIOLEN – Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan am 7.00.

Iau 9 – WAUNFAWR – Cinio Nadolig Clwb Gwyrfai ym Mron Eryri, Llanberis.

LLANRUG – Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – sgwrs gan Mr L. Larsen, Penisarwaun ar 'Swyn y Mynyddoedd'.

LLANBERIS – Cyfarfod Sefydliad y Merched.

Gwener, 10 – LLANBERIS – Te yr Henoed.

BETHEL – Ffair Nadolig yr Urdd yn y Neuadd.

WAUNFAWR – Ffair Nadolig Cangen Plaid Cymru yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.

Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr Ysgol am 7.00.

PENISARWAUN – Swper Nadolig Clwb yr Heulwen yng Nghastell Cidwm.

DEINIOLEN – Clwb Pêl-droed Ieuenctid yn cynnal Gêm Bingo Fawr y Nadolig yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.30.

Sadwrn, 11 – LLANBERIS – Cinio Nadolig y Cwmni Drama yng Ngwesty'r Waterloo, Betws-y-coed.

YR ARDAL – Dadorchuddio cerflun i nodi saith can mlwyddiant marwolaeth Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru ac Arglwydd Eryri ar Ragfyr 11, 1282; yn Stryd y Castell, Caernarfon am 3.00.

Llun, 13 – LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr Ysgol am 7.00.

LLANRUG – Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

Mawrth 14 – BETHEL – Gyrfa Chwist Nadolig Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon yn y Neuadd Goffa.

Cinio Nadolig Clwb Bro Bethel yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

LLANRUG – Parti Nadolig Cangen Merched y Wawr yr Ysgol Gynradd.

LLANBERIS – Dosbarth Nos, 'Dysgu Cymraeg' yn yr Ysgol am 7.00.

Mercher 15– BETHEL – Gyrfa Chwist Nadolig dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Neuadd.

WAUNFAWR – Parti Nadolig yr Urdd.

Iau 16 – DEINIOLEN – Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

DINORWIG – Y Gymdeithas – Noson o Garolau a Darlleniadau dan Ofal y Parch Ifor L. Williams yn Eglwys Santes Fair am 7.00.

WAUNFAWR – Cyngerdd arbennig 'Doniau Bro' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

Gwener, 17 – WAUNFAWR – Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogiad Celfyddyd' yn yr Ysgol am 7.00.

DEINIOLEN – Gyrfa Chwist Fawr yn y Ganolfan am 7.30.

Sadwrn, 18 – LLANRUG – Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r Royal Goat, Beddgelert.

Sul, 19 – LLANRUG – Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr, Noson o Garolau.

TAN-Y-COED – Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sut Tan-y-coed am 2 o'r gloch.

PENISARWAUN – Eglwys Santes Helen – 10.30, Boreol Weddi; 3.00, Gwasanaeth 'Christingle' y plant.

DINORWIG – Eglwys Santes Fair – 9.30, Cymun Bendigaid; 4.30, Gwasanaeth y Plant.

DEINIOLEN – Eglwys Santes Fair – 9.30, Cymun Bendigaid; 4.30, Gwasanaeth y Plant.

DEINIOLEN – Eglwys Crist, Llandinorwig, 10.30, Cymun Bendigaid. Capel Ebeneser, 5.30, Gwasanaeth Carolau Undebol.

Llun, 20 – LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7.00.

DEINOLEN – Parti Nadolig Cangen Merched y Wawr yn y Ganolfan.

Mercher, 22 – YR YSGOLION yn cau dros Ŵyl y Nadolig.

Gwener, 24 – PENISARWAUN – Eglwys Santes Helen – 11.30 p.m. Cymun Bendigaid Dwyieithog.

Sadwrn 25 – LLANRUG – Y Cyngor Eglwysi – Cymun dan arweiniad Gweinidogion yr ardal i ddechrau am 9.30 y bore yng Nghapel Hermon.

DINORWIG – Eglwys Santes Fair – 9.30 a.m. Cymun Bendigaid.

DEINIOLEN – Eglwys Crist, Llandinorwig – 10.30 a.m. Cymun Bendigaid Dwyieithog.

Sul 26, DEINIOLEN – Gwasanaeth 'Christingle' plant yr Ysgolion Sul yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

DINORWIG – Eglwys St Mair, 9.30 a.m. Cymun Bendigaid.

PENISARWAUN – Eglwys Santes Helen, 10.30 a.m. Cymun Bendigaid.

Rhagfyr 29 a 30 – Cwmni Theatr Cymru yn perfformio 'Noa' yn Theatr Gwynedd, Bangor am 2 a 7 o'r gloch.

Rhagfyr 31 – Perfformiad am 1 o'r gloch yn unig a Ionawr 1.

Ionawr 4-8, Perfformiadau am 2 a 7 o'r gloch.

Gwner 31, LLANRUG – Y Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr – 'gwylnos' noson yng ngofal merched Tan-y-coed.

CROESAIR TACHWEDD

Ar Draws. 1.Colledig 5.Esgid 8.Manna 9.Lannerch 10.Llon 12.Ras 13.Non 14.Llewygu 15.Llymder 18.Fro 19.Dol 20.Gad 22.Gwaethaf 23.Ficar 25.Llethol 26.Dirprwy.

I Lawr. 1.Cymell 2.Llan 3.Draenog 4.Galaru 5.Echnos 6.Gweinidog 7.Dychanwr 11.Nawddogaeth 14.Llyfrgell 16.Ynysfor 17.Clefyd 19.Dethol 21.Dirwy 24.Côr.

Enillydd: **Anwen Owen, Isfryn, Bontnewydd.**

BARGEN

Llenwch a phostiwch y ffurflen isod er mwyn bod yn ddarllenydd cyson o CURIAD.

Fe fyddwn yn anfon dau rifyn i chwi am ddim ar yr amod eich bod yn cytuno i dalu am y 6/12 rhifyn dilynol. Caniateir i chwi ganslo'r archeb ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn ac ni fydd arnoch unrhyw ddyled i ni.

Dychweler y ffurflen hon i:
Archeb Curiad, 13 St. John's Crescent, Treganna, Caerdydd. CF5 1NX.
D.S. Cadwn yr hawl i newid y taliadau uchod yn unol â chynnydd mewn costau.

CHWE RHIFYN: £3 DEUDDEG RHIFYN: £6

Dwi'n dymuno derbyn dau rifyn o CURIAD am ddim ac yna dwi'n dymuno talu am y 6/12 rhifyn dilynol.

ENW .....

CYFEIRIAD .....

.....

Beth am archebu CURIAD fel anrheg i gyfaill neu berthynas?

Amgeuaf siec am y swm o ..... ar y ddealltwriaeth y medraf dderbyn fy arian yn ôl ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn pe dymunwn ganslo'r archeb.

ARWYDDWYD .....

PAPUR BRO CYMRU GYFAN **CURIAD** Y PAPUR A'I FYS AR BYLS

CHWARAEON

PIGION O FYD PÊL-DROED
SAFON Y DYFARNU

Diddorol oedd darllen sylwadau Richard Llwyd Jones yn 'Y Cymro' (Tachwedd 9ed) ynglŷn â safon dyfarnwyr pêl-droed. Gwir a ddywed fod safon y dyfarnu yn rhai o'n cynghreiriau lleol yn ddifrifol ond efallai fod rhan o'r ateb yn nwylo'r clybiau eu hunain.

Ar ddiwedd pob gêm Cynghrair a gêm Cwpan, rhaid i ysgrifennydd pob Clwb anfon adroddiad ar y dyfarnwr. Mae fel arfer yn rhoi marciau iddo yn ôl gwahanol agweddau ar ei gêm, a'r marc hwnnw'n amrywio o 0 i 10. Os yw'r dyfarnwr yn derbyn llai na 5 o farciau, yna mae'n ddyletswydd ar i ysgrifennydd y Cwlb roi eglurhad ysgrifenedig pan y rhoddwyd cyn lleied o farciau iddo. Gan fod y gwaith hwnnw'n aml yn drafferthus – yn enwedig ar nos Sadwrn neu ar fore Sul! – efallai fod llawer yn bodloni ar roi 5 marc i'r dyfarfnwr ac felly'n arbed gwaith sgwennu iddo'i hun. Diddorol fyddai cael gwybod sawl adroddiad ysgrifenedig am ddyfarnwyr sy'n cael eu hanfon i mewn bob tymor. Os nad yw'r clybiau eu hunain yn fodlon anfon adroddiadau am 'berfformiadau' gwael rhai dyfarnwyr, yna does obaith i'r sefyllfa wella.

Ar y llaw arall, gellir dadlau nad yw timau o safon ein Cynghreiriau lleol yn haeddu'r dyfarnwyr gorau, ac mai mewn Cynghreiriau o'r fath y maent yn dysgu eu crefft ac yn dringo ysgol profiad. Yn y Cynghreiriau bychan hyn y mae chwaraewyr y dyfodol yn dechrau, ac os ydynt yn ddigon da, maent yn camu 'mlaen i safon uwch o chware pêl-droed. Mae'r un peth yn wir am ddyfarnwyr hefyd. Ac am bob un chwaraewr sy'n llwyddo, mae cant yn methu, ac yn aros i chwarae er mwynhad yn y Cynghreiriau bychan. Nid eu difrïo fel chwaraewyr mo hyn, ond nodi ffaith foel. Ac y mae'r un ffaith yn wir am ddyfarnwyr hefyd. Mae'r rhai sy'n methu â llwyddo mewn arholiad yn parhau i ddyfarnu yn ôl safonau'r Cynghreiriau bach. A dylai pob Clwb fod yn ddiolchgar iddynt am eu hymroddiad a'u dyfalbarhad. Hebddynt, ni fyddai'n bosibl chwarae gemau Cynghrair na gemau Cwpan.

Ond ar ôl ceisio bod yn deg â'r ddwy ochr, rhaid cydnabod fod problemau. Yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn. derbyniodd pob Clwb Pêl-droed yng Nghynghrair Arfon lythyr yn apelio arnynt i weithredu ynglŷn â iaith anweddus ar y maes chwarae. Anfonwyd y llythyr hefyd i Gymdeithas y Dyfarnwyr yng Ngorllewin Gwynedd. Mae'r rheolau ynglŷn â rhegi a defnyddio iaith anweddus yn ddigon eglur. Mae hawl gan y dyfarnwr i weithredu. Yn wir, mae'n ddyletswydd arno i weithredu. Ond yn rhy aml o lawer, mae'r rhegfeydd yn cael eu hanwybyddu, ac mewn un achos arbennig, clywyd y dyfarnwr ei hun yn rhegi chwaraewyr.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd nifer o gyfarfodydd yn cael eu trefnu ar y cyd rhwng swyddogion Cynghrair Arfon a swyddogion Cymdeithas y Dyfarnwyr yng Ngorllewin Gwynedd. Eu pwrpas fydd trafod rheolau, a dadansoddi ymateb gwahanol i reolau gan chwaraewyr, dyfarnwyr a chefnogwyr. Gobeithio y bydd y dyfarnwyr yn ei gwneud yn berffaith eglur yn y cyfarfodydd hyn eu bod yn bwriadu gweithredu yn llym y rheol ynglŷn ag iaith anweddus.

SIOMIANT A LLWYDDIANT

Yn ystod y mis diwethaf profwyd buddugoliaethau a siomedigaethau ar gaeau pêl-droed y clybiau lleol. Mae'n sicr mai'r siom fwyaf oedd honno a ddaeth i hanes Llanberis yng Nghwpan Cyfryngol Cymru. Ar ôl brwydro i chwarae gêm gyfartal ag Amaturiaid Llandudno ar eu tomen eu hun, colli fu eu hanes yn yr ail chwarae yn Llanberis, a hynny oherwydd i un o hogia Llanbêr sgorio drwy'i gôl ei hun.

Ond yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru, gwnaethpwyd iawn am y cam, a druan o dîm y Fflint yn dioddef llid y Darans. Aeth y bêl i gefn rhwyd y Fflint bum gwaith, a hwyliodd Llanberis drwodd i'r drydedd rownd. Yn yr un gystadleuaeth daeth buddugoliaeth debyg i Lanrug yn erbyn Brynffordd. Bydd trydedd rownd y Cwpan yn cael ei chwarae ar Ddydd Calan, a siawns na fydd y ddau dîm yn gobeithio am gemau cartref a digon o galennig i'w canlyn.

Bethel gafodd eu siomi yn y Cwpan Iau, a hynny ar ôl edrych fel ennill ar un cyfnod. Roeddynt ar y blaen o ddwy gôl ar yr egwyl, ond brwydrodd tîm y Cerrig ac ennill o dair gôl i ddwy ym munudau olaf y gêm.

Yn ystod mis Rhagfyr bydd y tri thîm lleol yn dychwelyd i gemau Cynghrair, a Llanberis yn enwedig yn edrych am ganlyniadau llwyddiannus i'w cadw'n dynn wrth sodlau'r timau ar y brig.

Jeff Norman o Fanceinion yn dal y cwpan anferth a enillodd am redeg Ras Marathon Eryri mewn 2 awr 30 munud. Dyma'r tro cyntaf i'r ras gael ei rhedeg.

BECHGYN FFODUS DEINIOLEN

Be 'di'r cysylltiad rhwng Clwb Snwcer Deiniolen a Steve Davies? Yr ateb yw dyn o'r enw Mr Bob Humphreys o Landudno (ond o Borthmadog yn wreiddiol). Bob nos Wener mae Mr Humphreys yn teithio i Ddeiniolen i hyfforddi 12 o hogiau lleol. Mae'r bechgyn yn ffodus iawn i gael cymorth dyn a roddodd hyfforddiant i Steve Davies pan oedd 'Dewin' y bwrdd snwcer yn llanc 16 oed. Prawf o allu a safon Mr Humphreys yw'r ffaith iddo gael ei ethol yn Hyfforddwr Gorau Gwledydd Prydain. Mae'n aelod o'r 'Snooker Foundation' ac yn y gorffennol bu'n llwyddiannus iawn mewn nifer o bencampwriaethau — e.e. Pencampwr Manceinion, Caerhirfryn, Gogledd Cymru, Canolbarth Lloegr. Mae disgyblion Mr Humphreys wedi cipio'r 'Dowsing Trophy' a roddir gan y 'Snooker Foundation' i rai o dan 18 oed yn y Bencampwriaeth Gnedlaethol bedair blynedd allan o saith. Aeth Gareth Grindley o Ddeiniolen i'r rownd cynderfynol diolch i'w gymorth, a bu dau fachgen lleol arall, sef Clive Griffith, Llanrug ac Elfyn Jones, Caernarfon yn llwyddiannus iawn hefyd. Mae amryw o'i ddisgyblion wedi cael cyfle i ymddangos ar y gyfres 'Junior Pot Black' yn ogystal.

Mae Mr Humphreys yn ffyddiog iawn y bydd amryw o Ddeiniolen yn cael cyfle i "wneud enw" iddyn nhw eu hunain yn y dyfodol.

O siarad â'r bechgyn yn Neiniolen mae un peth yn amlwg, sef eu diolch a'u dyled i un dyn arbennig o'r pentref. Ffrwyth llafur, gweledigaeth a dyfalbarhad Mr Dafydd Wyn Jones yw'r gwersi hyn. Breuddwyd Dafydd yw gweld Terry Griffiths arall yn dod o un o bentrefi bro'r Eco. Braint i ninnau fel papur yw cael datgan ein diolch iddo am ei waith di-flino er budd bechgyn Deiniolen a'r cylch, a phob llwyddiant i bob un ohonynt yn y dyfodol.

Dyma'u henwau — gwyliwch 'Pot Black' yn ofalus! — Malcolm Allen, Gareth Hughes, Carwyn Thomas, Elfed Williams, Bryn Jones, Dewi Williams, Dewi Lewis, Haydn Williams, David Jones, Jason Jones, Ian Roberts a Guto Jones.

Mae'r hyfforddwr, Mr Bob Humphreys ar y dde a Mr Dafydd Wyn Jones ar y chwith.

MARATHON ERYRI

Uchod: Y Land Rover oedd yn amseru'r ras yn cael mwy o drafferth na'r rhedwr i ymgodymu â gelltydd Cefn Du.

Ar y Chwith: Cai Larsen o Benisarwaun. Tybiwn mai ef oedd y rhedwr lleol cyntaf i orffen y ras mewn amser o 3 awr a munud. Dyma ei ras farathon gyntaf, ac yr oedd ei amser felly yn arbennig o dda. Ein llongyfarchion iddo.